Rhif ymchwil gymdeithasol: 115/2025

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2025

# Archwilio Effaith Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol **978-1-80633-654-8**

Archwilio Effaith Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol

Awduron: Michael Pang, Paula Gallagher, Greta Dennis, Rhys Maher, Stuart Merali-Younger, Richard Marsh a Tom Fleming.

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Pang, M, Gallagher, P, Dennis, G, Maher, R, Merali-Younger, S, Marsh, R and Fleming, T (2025). *Archwilio Effaith Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 115/2025

Ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/archwilio-effaith-cynyrchiadau-ariennir-gan-cymru-greadigol

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Cymru Greadigol Swyddog Ymchwil

Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chreadigol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CymruGreadigol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ..... 6

Rhestr o ffigurau ..... 6

Geirfa 7

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 9

1.1.1. Trosolwg o'r rhaglen ..... 9

1.2. Diben yr ymchwil ..... 10

1.2.1. Strwythur yr adroddiad ..... 10

2. Methodoleg ..... 12

2.1. Trosolwg ..... 12

2.2. Y fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn ..... 13

2.3. Cyfyngiadau methodolegol ..... 13

3. Gwerth economaidd y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol ..... 15

3.1. Datblygu cynyrchiadau ..... 15

3.1.1. Trosolwg o wariant datblygu cynyrchiadau a gwariant y gadwyn gyflenwi ..... 15

3.1.2. Gwerth economaidd datblygu cynyrchiadau a gwariant y gadwyn gyflenwi ..... 17

3.1.3. Effeithiau incwm a chyfraniad economaidd a ysgogwyd ..... 18

3.2. Cyfanswm y gwerth economaidd ..... 18

3.3. Goblygiadau treth ..... 19

3.4. Dadansoddiad yn ôl nodweddion y cynyrchiadau ..... 19

3.4.1. Dadansoddiad yn ôl math o gynhyrchiad ..... 20

3.4.2. Dadansoddiad yn ôl genre ..... 21

3.4.3. Dadansoddiad yn ôl cyfres unigol yn erbyn ailgomisiynu ..... 22

3.4.4. Dadansoddiad o gynyrchiadau Cymraeg eu hiaith ..... 24

3.4.5. Dadansoddiad yn ôl gwariant uwchlaw’r llinell ac islaw’r llinell ..... 25

4. Sgil-effeithiau ehangach ..... 26

4.1. Twristiaeth ..... 27

4.1.1. Cyfraniad economaidd twristiaeth wedi’i hysgogi gan sgrin ..... 28

4.2. Arddangos ffilmiau ..... 29

4.2.1. Rhyddhau mewn sinemâu ..... 30

4.2.2. Gwyliau ffilm a theledu ..... 30

4.3. Stiwdio ..... 31

4.4. Addysg a sgiliau ....33
5. Effeithiau economaidd ehangach cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol ....36
5.1. Cynorthwyo cwmnïau cynhyrchu annibynnol ....36
5.1.1. Cynaliadwyedd a gwytnwch cwmnïau cynhyrchu ....36
5.1.2. Cadw eiddo deallusol ....36
5.1.3. Gwella galluoedd mewnol ....38
5.1.4. Codi proffil rhyngwladol a gwella enw da ....38
5.2. Cefnogi gweithwyr llawrydd ac aelodau criw ....38
5.2.1. Gwella diogelwch a sefydlogrwydd swyddi ....39
5.2.2. Datblygu'r gweithlu drwy brofiad cynhyrchu ....40
5.3. Cefnogi'r sector sgrin a digidol ....41
5.3.1. Cryfhau'r gadwyn gyflenwi a'r seilwaith lleol ....41
5.3.2. Meithrin talent parhaol a rhwydweithiau creadigol ....41
5.3.3. Hybu mewnfuddsoddiad a thwf rhanbarthol ....42
6. Effeithiau ehangach y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol ....43
6.1. Cyfraniadau cymdeithasol a diwylliannol y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol ....43
6.1.1. Amrywiaeth y gweithlu a recriwtio cynhwysol ....43
6.1.2. Darlun o gymunedau ....44
6.1.3. Ymgysylltu cymunedol ....44
6.1.4. Amgylcheddau cynhyrchu iachach a mwy diogel ....45
6.2. Cyfraniadau cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol i'r Gymraeg a sut y caiff Cymru ei phortreadu ....46
6.2.1. Cynrychiolaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig ar y sgrin ....46
6.2.2. Galluogi cynyrchiadau Cymraeg a'u dosbarthiad ....47
6.2.3. Y Gymraeg oddi ar y sgrin ....47
6.2.4. Portread o Gymru ....48
6.3. Cyfraniadau amgylcheddol y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol ....48
6.3.1. Allyriadau datblygu'r cynyrchiadau ....48
6.3.2. Cydlynwyr cynaliadwyedd ....49
6.3.3. Bargen Newydd y Sgrin ....49
6.3.4. Cyfraniadau amgylcheddol ehangach ....50
7. Astudiaethau achos ....52

7.1. Sex Education, Eleven Films ..... 52
7.2. Willow, Lucasfilm ..... 54
7.3. The Pact, Little Door ..... 55
7.4. Tŷ Gwydr, Little Bird ..... 57
8. Adolygiad o’r cyd-destun ..... 59
8.1. Ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd ..... 59
8.2. Pandemig COVID-19 ..... 59
8.3. Pwysau chwyddiant ..... 60
8.4. Marchnad sy'n esblygu ac arferion gwylio ffilm a theledu ..... 60
8.5. Streiciau Urdd Awduron America a SAG AFTRA yn yr Unol Daleithiau ..... 62
8.6. Ymatebion a chymorth gan Gymru Greadigol ..... 62
8.7. Cyd-destun economaidd sector y diwydiannau creadigol ..... 63
8.7.1. Trosiant ..... 63
8.7.2. Gwerth ychwanegol gros (GVA) ..... 64
8.7.3. Swyddi ..... 65
9. Adran gyfeiriadau ..... 66
Atodiad A: Rhestr o Randdeiliaid ..... 69
Atodiad B: Model Damcaniaeth Newid Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol ..... 71
Atodiad C: Methodoleg Fanwl ..... 72
Damcaniaeth Newid ..... 72
Tasgau a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad hwn ..... 72
Adolygu a dadansoddi data ac adroddiadau monitro ..... 72
Cyfweliadau â rhanddeiliaid ..... 73
Adolygiad llenyddiaeth ..... 73
Setiau data cenedlaethol a ffynonellau ystadegol ..... 73
Y fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn ..... 74
Fframwaith a chwmpas gwerth economaidd ..... 74
Modelu effaith ..... 77
Adnabod ac asesu canlyniadau ehangach ..... 78
Atodiad D: Chwyddo Prisiau ..... 79

## Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Cyfanswm y gwerth economaidd .......... 18
Tabl 3.3: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl genre’r cynhyrchiad .......... 21
Tabl 3.4: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl genre’r cynhyrchiad .......... 23
Tabl 3.5: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl math o gynyrchiadau Gymraeg .......... 24
Tabl 4.1: Cyfanswm y gwerth economaidd ehangach .......... 26
Tabl 4.2: Cyfraniad economaidd twristiaeth wedi’i hysgogi gan sgrin .......... 29
Tabl 4.3: Stiwdios wedi'u lleoli yng Nghymru a ddefnyddiwyd fel rhan o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol .......... 32
Tabl A.1: Stiwdios wedi'u lleoli yng Nghymru a ddefnyddiwyd fel rhan o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol .......... 79

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Gwariant wedi'i wireddu ac a ragwelir yn ôl diwydiant Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2 ddigid (ac eithrio cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu) .......... 177
Ffigur 8.1: Trosiant (£ miliwn) is-sectorau digidol a sgrin, 2019 i 2023 .......... 64

## Geirfa

**Uwchlaw’r Llinell:** Costau sy'n gysylltiedig â rolau creadigol uwch fel awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a phrif gast.

**Islaw’r Llinell:** Gwariant sy'n gysylltiedig ag elfennau technegol, gweithredol a logistaidd o gyflawni cynhyrchiad, gan gynnwys criw, offer a gwasanaethau.

**Criw:** Unigolion sy'n ymwneud ag agweddau technegol a gweithredol cynhyrchu, fel camera, sain, dylunio set, a chymorth cynhyrchu.

**Effaith Uniongyrchol:** Effeithiau economaidd sy’n cael eu cynhyrchu’n uniongyrchol gan weithgarwch cynhyrchu, fel swyddi a gwariant oddi mewn i’r cynhyrchiad sy’n cael ei ariannu ei hun.

**Contract Economaidd:** Cytundeb Llywodraeth Cymru sy’n amlinellu ymrwymiadau i gryfder economaidd, gwaith teg, lles, a charbon isel / cydnerthedd o ran newid hinsawdd.

**Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE):** metrig a ddefnyddir i gyfrifo nifer y gweithwyr amser llawn pe bai pob gweithiwr yn gweithio ar sail amser llawn o fewn cyd-destun penodol.

**Gwerth Ychwanegol Gros (GVA):** Mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant, neu sector o economi.

**Effaith Ysgogedig:** Effeithiau economaidd sy'n deillio o wariant aelwydydd gan y rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy weithgarwch cynhyrchu.

**Effaith Anuniongyrchol:** Effeithiau economaidd a gynhyrchir drwy'r gadwyn gyflenwi, megis gwariant gan gyflenwyr i'r cynhyrchiad.

**Tabl Mewnbwn Allbwn:** Model economaidd sy'n dangos sut mae gwahanol sectorau'r economi'n rhyngweithio, a ddefnyddir i amcangyfrif effaith ehangach gwariant cynhyrchu.

**Mewnfuddsoddiad:** Cyllid neu weithgarwch cynhyrchu a ddygir i Gymru o'r tu allan, yn aml gan gwmnïau rhyngwladol neu gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

**Eiddo Deallusol:** Hawliau cyfreithiol sy'n deillio o weithgarwch deallusol yn y meysydd diwydiannol, gwyddonol, llenyddol ac artistig, megis sgriptiau neu fformatau.

**Arian Cyfatebol:** Cyllid ychwanegol a ddarperir gan ffynonellau heblaw Cymru Greadigol, sy'n aml yn ofynnol fel amod ar gyfer derbyn cyllid cyhoeddus.

**Data Monitro:** Gwybodaeth a gesglir o gynyrchiadau a ariannwyd a Llywodraeth Cymru i olrhain gwariant, cyflogaeth a chanlyniadau eraill.

**Cyllid Cynhyrchu:** Cymorth ariannol a ddarparwyd i helpu i ddatblygu a chyflawni cynnwys sgrin a digidol.

**Cyfres wedi'i Hailgomisiynu:** Cynhyrchiad sydd wedi'i adnewyddu am gyfresi neu benodau ychwanegol y tu hwnt i'w rediad cychwynnol.

**Wedi'i Sgriptio / Di-sgript:** Mae ‘wedi’i sgriptio’ yn cyfeirio at gynyrchiadau sydd â sgript ysgrifenedig (e.e., drama, comedi); mae ‘di-sgript’ yn cyfeirio at gynnwys ffeithiol neu realiti.

**Sgil-effeithiau:** Manteision eilaidd wedi'u hysgogi'n anuniongyrchol gan allbynnau cynhyrchu, fel mwy o dwristiaeth neu ddatblygu sgiliau.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Wedi'i lansio ym mis Ionawr 2020, mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i feithrin diwydiannau creadigol mwy cynhwysol, cynaliadwy a llewyrchus[1]. Wedi'i leoli o fewn Llywodraeth Cymru, mae Cymru Greadigol yn ceisio sbarduno twf y sector, meithrin sylfaen sgiliau o'r radd flaenaf, ymestyn cymorth i wahanol segmentau o'r diwydiant, a gosod Cymru fel cyrchfan a chanolfan ddelfrydol ar gyfer sefydlu busnesau creadigol, fel sy'n cael ei gyfleu yn ei flaenoriaethau[2]. Mae Cymru Greadigol yn cefnogi'r diwydiant drwy:

- **Cyllid** – buddsoddi mewn busnesau i helpu i ddatblygu eu prosiectau a hybu twf diwydiannau creadigol Cymru. Mae'r cyllid yn cynnwys Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol (eiddo deallusol sy'n seiliedig ar gynnwys), Cyllid Cynhyrchu (ffocws yr astudiaeth hon), cronfeydd eraill ar gyfer sectorau a genres penodol (e.e. cerddoriaeth, ffilmiau a chynnwys i bobl ifanc), a chymorth arloesi drwy raglenni fel Media Cymru.

- **Sgiliau a thalent** – hwyluso cydweithio (e.e., ar draws Llywodraeth Cymru, busnesau, sefydliadau addysg uwch, addysg, darparwyr hyfforddiant a darlledwyr) a darparu cyllid ar gyfer cyfleoedd hyfforddi a rhaglenni uwchsgilio (drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol).

- **Cymorth ac arweiniad** – cynghori rhanddeiliaid a phrosiectau'r diwydiant creadigol a gweithio gyda nhw i hybu eu datblygiad, gan gynnwys cysylltu unigolion a busnesau, cyfeirio at wasanaethau arbenigol a darparu cyngor ac arweiniad (e.e. trwy ei wasanaeth Sgrin Cymru)

## 1.1. Trosolwg o'r rhaglen

Mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yn fecanwaith buddsoddi sy'n cefnogi twf a chyflenwi cynnwys sgrin a digidol ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae'r gronfa ar agor i gwmnïau buddsoddi cynhenid a mewnfuddsoddi ar gyfer prosiectau ar draws genres wedi'i sgriptio, di-sgript, animeiddio a gemau. Y bwriad yw cynyddu nifer, amrywiaeth ac uchelgais cynyrchiadau a wneir yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i gynhyrchu ystod eang o fuddion economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys uwchsgilio'r gweithlu, creu cyflogaeth, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, a gwella presenoldeb sgrin Cymru yn fyd-eang.

Rhwng 2020/21 a dechrau 2025, gwnaeth Cymru Greadigol gynorthwyo 47 o brosiectau sgrin a digidol. O'r rhain, roedd 45 o fewn cwmpas yr astudiaeth hon a gwnaethant dderbyn cyfanswm o £23.7 miliwn o gyllid Cymru Greadigol[3] (cyflwynir yr holl ffigurau yn yr adroddiad hwn ym mhrisiau 2024/25), gan gynnwys:

---

[1] Cymru Greadigol Polisi ac ymchwil
[2] Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru
[3] Mae'r holl ffigurau gwariant/cyllid wedi'u chwyddo i brisiau 2024/25 gan ddefnyddio Datchwyddwyr CDG Trysorlys EF (Mawrth 2025).

- Wedi'i sgriptio: 30 cynhyrchiad, yn derbyn £22.5 miliwn
- Di-sgript: 10 cynhyrchiad, yn derbyn £520,000
- Animeiddio 4 cynhyrchiad, yn derbyn £543,000
- Gemau: 1 cynhyrchiad, yn derbyn £150,000

## 1.2. Diben yr ymchwil

Ym mis Medi 2024, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Wavehill, ynghyd ag is-ymgynghorwyr 4-consulting a Tom Fleming Creative Consultancy, i gynnal asesiad o effaith Cynyrchiadau a Ariannwyd gan Gymru Greadigol, fel rhan o'i rhaglen Cyllid Cynhyrchu, yn benodol i:

- ddatblygu fframwaith cyffredinol ar gyfer asesu'r ystod o effeithiau sy’n deillio o ariannu cynyrchiadau yng Nghymru;
- darparu tystiolaeth i lywio camau gweithredu a phenderfyniadau yn y dyfodol ynghylch cyllid i'r sector;
- archwilio'r effeithiau ehangach i nodi a chipio manteision y rhaglen a'r cynyrchiadau a ariannwyd a deall sut mae'r rhain yn cyfrannu at nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

### 1.2.1. Strwythur yr adroddiad

**Pennod 2: Methodoleg** – yn amlinellu dyluniad yr ymchwil, ffynonellau data, fframwaith dadansoddol, a chyfyngiadau'r astudiaeth;

**Pennod 3: Gwerth economaidd y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol** – yn cyflwyno canfyddiadau’r modelu economaidd, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig, gan ddadansoddi ymhellach yn ôl nodweddion y cynyrchiadau;

**Pennod 4: Sgil-effeithiau ehangach** – yn archwilio'r gwerth ychwanegol a gynhyrchwyd gan y rhaglen, gan gynnwys twristiaeth, addysg, sgiliau, seilwaith, a chanlyniadau diwylliannol;

**Pennod 5: Effeithiau economaidd ehangach y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol** – yn darparu dadansoddiad ansoddol o gyfraniadau economaidd na ellir eu mesur a wnaed gan y cynyrchiadau a ariannwyd;

**Pennod 6: Effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol** – yn archwilio cyfraniadau’r cynyrchiadau a ariannwyd at gynrychiolaeth, ymgysylltiad cymunedol, y Gymraeg, ac amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin;

**Pennod 7: Astudiaethau achos** – yn cyflwyno pedair astudiaeth achos fanwl sy'n dangos effaith amrywiol cyllid Cymru Greadigol ar draws gwahanol fathau a meintiau o gynyrchiadau;

**Pennod 8: Adolygiad o'r cyd-destun** – yn crynhoi'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol a chyd-destun y diwydiant yn ehangach er mwyn gosod canfyddiadau'r asesiad.

# 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn nodi'r dulliau a'r gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd yn yr asesiad.

## 2.1. Trosolwg

Mae'r asesiad yn seiliedig ar ddull gwerthuso ar sail damcaniaeth, wedi'i ategu gan Ddamcaniaeth Newid wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Rhaglen Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, fel sy'n cael ei chyflwyno yn Atodiad B. Mae'r fframwaith cysyniadol hwn yn amlinellu'r llwybrau disgwyliedig y mae disgwyl i weithgareddau'r rhaglen, drwyddynt, greu effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru.

Mae'r dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth wedi'i roi ar waith trwy ddyluniad dulliau cymysg sy'n cyfuno tystiolaeth feintiol ac ansoddol i brofi'r rhagdybiaethau sylfaenol a'r mecanweithiau achosol. Yn benodol, mae'r asesiad yn pwyso ar:

- Data monitro a rheoli a ddarparwyd gan Gymru Greadigol;
- Adolygiad desg o lenyddiaeth a pholisi, gan gynnwys gwerthusiadau perthnasol a dadansoddiadau'r sector;
- Cyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys staff Cymru Greadigol, cwmnïau cynhyrchu, criw, a chynrychiolwyr y sector ehangach.

Mae'r gwaith hwn o driongli nifer o ffynonellau tystiolaeth yn cryfhau cadernid y canfyddiadau, gan ganiatáu ar gyfer dadansoddiad cynhwysfawr o ganlyniadau economaidd mesuradwy ac effeithiau ansoddol ehangach.

Yn ogystal, defnyddiwyd modelu Mewnbwn Allbwn i amcangyfrif cyfraniad economaidd y gweithgarwch cynhyrchu i economi Cymru. Mae hyn yn meintioli'r effeithiau o ran gwerth ychwanegol gros uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig, ac o ran cyflogaeth a threthi sy'n deillio o wariant cynhyrchu. Ceir manylion pellach ar hyn ym Mhennod 4.

Mae'r ymchwil wedi elwa o gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru o Dablau Cyflenwad a Defnydd a Thablau Mewnbwn Allbwn ym mis Mawrth 2025. Mae'r model effaith macro-economaidd craidd a ddefnyddir yn y gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar y Tablau Mewnbwn Allbwn sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'r model Mewnbwn Allbwn yn cynnig dull hyblyg a all gofnodi effeithiau macro-economaidd ar werth ychwanegol gros, incwm, allbwn (trosiant), a chyflogaeth.

Ers cwblhau'r dadansoddiad craidd ar gyfer yr astudiaeth hon, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi lluosyddion economaidd dangosol sy'n deillio o'r un tablau o 2019, gan gynnwys lluosyddion gwerth ychwanegol gros, allbwn a chyflogaeth ar draws sectorau allweddol[4]. Mae'r dull modelu a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn yn gyson yn fras â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r lluosyddion swyddogol hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd gwahaniaethau bach yn yr effeithiau cyflogaeth a gyflwynir oherwydd amrywiadau yn y ffordd y mae cyflogaeth yn cael ei hamcangyfrif. Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddata

[4] Lluosyddion economaidd dangosol (tablau mewnbwn allbwn):2019 | LLYW.CYMRU

cyflogaeth a oedd yn deillio’n uniongyrchol o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar y llaw arall, mae lluosyddion cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfuniad o ddata BRES ac Arolwg y Llafurlu i gyfrif am amcangyfrifon o gyfanswm y gweithlu.

I gael rhagor o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd fel rhan o'r astudiaeth hon, gweler Atodiad C.

## 2.2. Y fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn

Mae'r asesiad hwn yn mabwysiadu fframwaith gwerth economaidd sy'n cydnabod yr ystod o lwybrau y mae cynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol yn creu effaith drwyddynt, gan gynnwys gwariant uniongyrchol, effeithiau'r gadwyn gyflenwi, buddsoddiad mewn stiwdios a seilwaith, twristiaeth wedi’i hysgogi gan sgrin, a datblygu sgiliau. Penderfynwyd ar gwmpas yr asesiad meintiol gan gryfder y data, ei briodoliad i gyllid Cymru Greadigol, a'r modd y mae’n cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a safonau’r diwydiant. Cafodd sawl maes posibl o werth, gan gynnwys marchnata, dosbarthu, elw cwmnïau, a deunydd marchnata, eu heithrio o'r modelu oherwydd cyfyngiadau’r data neu wendid o ran priodoli. Fodd bynnag, caiff y rhain eu trafod yn ansoddol lle bo'n berthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod yr amcangyfrifon a gyflwynir yn geidwadol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gadarn. Caiff disgrifiad llawn o'r fframwaith, y cwmpas a'r eithriadau eu darparu yn Atodiad C.

## 2.3. Cyfyngiadau methodolegol

Er bod yr asesiad hwn yn defnyddio dull cymysg cadarn a chymesur, mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau methodolegol a allai ddylanwadu ar sut y caiff y canfyddiadau eu dehongli:

- **Y data sydd ar gael a pha mor gyflawn ydyw** - mae'r modelu economaidd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfuniad o wariant a wireddwyd (o hawliadau terfynol a gyflwynwyd gan brosiectau wedi'u cwblhau) a gwariant a ragwelir (yn achos prosiectau sy'n dal i gael eu cyflawni ar adeg cynnal yr asesiad neu'r rhai sydd wedi'u cyflawni ond nad oeddent wedi darparu data gwariant manwl). Er bod y rhan fwyaf o gynyrchiadau wedi cyflwyno data digon manwl i alluogi iddo gael ei ddadansoddi, roedd anghysondebau yn parhau ym manylder a strwythur yr hyn a adroddwyd ar draws prosiectau. Mewn rhai achosion, dim ond prif ffigurau a ddarparwyd heb ddadgyfuno'n llawn yn ôl categori gwariant (e.e., criw, nid criw, neu godau diwydiant), gan gyfyngu ar gywirdeb dadansoddiadau manwl. Lle roedd bylchau yn y data, rhoddwyd rhagdybiaethau dirprwyol yn eu lle gan ddefnyddio meincnodau o gynyrchiadau tebyg gydag esboniad mwy cyflawn o'r data.

  Yn hollbwysig, nid oedd data a gyflwynwyd drwy ffurflenni hawlio yn gwahaniaethu'n ddibynadwy rhwng gweithwyr cyflogedig a chontractwyr llawrydd, ac nid oedd yn adrodd yn gyson ar nifer yr unigolion a gyflogwyd. O'r herwydd, nid oedd yn bosibl pennu cyfanswm nifer y gweithwyr llawrydd na chyfanswm y staff a gynorthwywyd gan y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol. Yn hytrach, mae'r modelu

economaidd yn dibynnu ar amcangyfrifon o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), sy'n deillio o dybiaethau modelu sy'n trosi cyfanswm y gwariant yn flynyddoedd swydd cyfwerth. Mae'r ffigurau hyn yn cyfleu maint cyfartalog y gyflogaeth sydd ei angen i gefnogi lefel y gwariant a welwyd, yn hytrach na chyfrif o'r unigolion a fu'n ymwneud â'r cynyrchiadau.

Yn ogystal, roedd absenoldeb data daearyddol manwl, fel codau post gwerthwyr neu wariant penodol i leoliad, yn golygu nad oedd yn ymarferol cynnal dadansoddiad is-genedlaethol o effeithiau economaidd yn ôl rhanbarth neu awdurdod lleol. Cyfyngwyd y dadansoddiad gofodol i ddwy o'r pedair astudiaeth achos a gyflwynir ym Mhennod 7, lle'r oedd rhywfaint o ddata ar gael ar leoliadau. Dylid dehongli'r dadansoddiad hwn fel un dangosol yn hytrach nag un cynhwysfawr.

- **Priodoliad ac ychwanegedd** - mae'r adroddiad yn amcangyfrif effeithiau economaidd gros, sef cyfanswm gwerth y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyllid Cymru Greadigol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sefyllfa wrthffeithiol ffurfiol wedi'i modelu, ac nid yw'r dadansoddiad yn ystyried diffrwythedd, dadleoliad, na gollyngiad. Er bod tystiolaeth ansoddol o ymgynghoriadau yn cefnogi'r achos bod cyllid Cymru Greadigol yn hanfodol i alluogi llawer o gynyrchiadau i fynd rhagddynt, dylid bod yn ofalus wrth briodoli'r holl effeithiau a welwyd i'r ymyriad yn unig.
- **Data cyfyngedig ar weithgareddau penodol ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi** - nid yw'r astudiaeth hon yn meintioli effeithiau economaidd sy'n gysylltiedig â marchnata, darlledu, dosbarthu cynyrchiadau yn rhyngwladol, na chynnydd mewn incwm busnes. Yn yr un modd, er bod tystiolaeth ansoddol ac anecdotaidd o sgil-effeithiau ehangach (e.e., deunydd marchnata a gwelededd brand), nid oedd modd cynnwys y rhain yn y dadansoddiad meintiol. O ganlyniad, dylid ystyried bod yr amcangyfrifon economaidd a gyflwynir yn geidwadol a'u bod yn canolbwyntio'n llwyr ar y camau cynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi uniongyrchol.

# 3. Gwerth economaidd y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

Mae'r bennod hon yn asesu'r effaith economaidd a gynhyrchwyd gan gynyrchiadau sgrin yng Nghymru, a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol a chyllid cyfatebol cysylltiedig a drosolwyd. Mae'n ystyried cyfraniadau uniongyrchol y cynyrchiadau a ariannwyd a'r manteision ehangach a wireddwyd trwy gadwyni cyflenwi lleol a gwariant incwm aelwydydd cysylltiedig i economi Cymru.

## 3.1. Datblygu cynyrchiadau

Mae cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn helpu i greu a chyflawni cynnwys sgrin a gemau, gan ddyrannu adnoddau'n benodol i'r cam cynhyrchu. Disgrifiwyd bod cyllid gan Gymru Greadigol yn chwarae rhan uniongyrchol, ac yn aml yn ganolog, wrth sicrhau hyfywedd masnachol cynyrchiadau sgrin. Dywedodd nifer o ymgyngoreion (n=7) na fyddai llawer o'r cynyrchiadau hyn wedi mynd rhagddynt heb gymorth ariannol Cymru Greadigol. Mewn rhai achosion, roedd y cyllid yn galluogi'r cynyrchiadau i gael eu dwyn ymlaen yn gyflymach nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, neu i gynnal gweithgarwch cynhyrchu o fewn ac ar draws Cymru. Mae buddsoddiad Cymru Greadigol hefyd wedi rhoi hyder i fuddsoddwyr eraill, wedi helpu i leihau risg prosiectau, ac wedi datgloi arian cyfatebol ychwanegol.

Yn ystod y broses ymgeisio, caiff cwmnïau cynhyrchu eu gwerthuso ar eu gwariant lleol disgwyliedig yng Nghymru, gan roi cymhellion i gaffael gan gyflenwyr o Gymru a hybu gwerth economaidd o fewn cadwyni cyflenwi lleol.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond gwariant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu y mae'r dadansoddiad hwn yn ei gofnodi. Er bod buddsoddiadau ychwanegol ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi fel arfer yn cael eu gwneud ym maes hyrwyddo, marchnata a darlledu, nid yw'r elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad presennol. Y prif reswm dros yr hepgor yma yw bod data monitro a ddarparwyd gan brosiectau yn canolbwyntio'n llwyr ar wariant cynhyrchu. Roedd yn anodd cael data gwariant ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi gan brosiectau unigol ac yn aml roedd yn cael ei gadw gan sefydliadau neu randdeiliaid allanol.

### 3.1.1. Trosolwg o wariant datblygu cynyrchiadau a gwariant y gadwyn gyflenwi

Ar draws y 45 o brosiectau a ddadansoddwyd, ymrwymodd Cymru Greadigol £23.7 miliwn mewn cyllid cynhyrchu, gan ddenu tua £263.9 miliwn o wariant cynhyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod pob £1 o gyllid Cymru Greadigol wedi cynhyrchu £11.15 mewn gwariant cynhyrchu yng Nghymru[5]. At ei gilydd, gwnaeth y prosiectau a ariannwyd gyfrannu £287.6 miliwn yn uniongyrchol mewn gwariant yng Nghymru, ac o'r rhain:

[5] Cyfrifwyd y ffigur hwn drwy rannu cyfanswm y gwariant cynhyrchu a adroddwyd ac a ymrwymwyd gan gyllidwyr cyfatebol (ac eithrio cyllid Cymru Greadigol) â gwerth y cyllid cynhyrchu a ymrwymwyd gan Gymru Greadigol. Mae'r holl werthoedd wedi'u haddasu i brisiau 2024/25.

- Mae £231.5 miliwn wedi'i wirio drwy hawliadau terfynol gan brosiectau sydd wedi'u cwblhau;
- Rhagwelir gwariant o £56.0 miliwn gan brosiectau sydd ar y gweill neu sydd heb gyflwyno eu hawliadau terfynol eto.


Mae’r dadansoddiad o wariant cynhyrchu uniongyrchol yn dangos ymhellach ehangder y gwerth a gynhyrchwyd gan wariant cynhyrchu. Nid yw'n syndod mai’r diwydiant sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf (62%) o'r gwariant cynhyrchu uniongyrchol yw cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu, gyda £177.23 miliwn mewn gwariant wedi'i wireddu a'i ragweld. Mae’r deg diwydiant mwyaf nesaf yn cael eu dangos yn Ffigur 4.1 isod.

Gwnaeth y cwmnïau cynhyrchu a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol gaffael amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau oddi mewn i Gymru, gan gwmpasu sectorau creadigol ac eraill, gan gynnwys yr economi sylfaen, gan gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w chenhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu’r economi[6]. Roedd hyn yn cynnwys, ond nid oedd yn gyfyngedig i:

- **Gwasanaethau creadigol:** criw llawrydd, arbenigwyr technegol, golygu ôl-gynhyrchu, cymysgu sain, ac effeithiau gweledol (VFX);
- **Gwasanaethau gweithredol a logistaidd:** llogi lleoliad ac offer;
- **Gwasanaethau proffesiynol ac ategol:** yswiriant, gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol, diogelwch, a chymorth gweinyddol.
- **Economi sylfaen:** arlwyo a chludiant.

[6] Genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu’r economi

**Ffigur 3.1: Gwariant wedi'i wireddu ac a ragwelir yn ôl diwydiant Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2 ddigid (ac eithrio cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro

Mae'r patrwm caffael amrywiol hwn yn amlygu cyrhaeddiad eang y sector sgrin a digidol ar draws economi ehangach Cymru. Yn nodedig, nid oedd gwariant wedi'i gyfyngu i'r diwydiannau creadigol; roedd yn ymestyn i sectorau gwasanaeth cyffredinol, gan atgyfnerthu gwerth economaidd traws-sectoraidd gweithgarwch cynhyrchu y mae modd ei sbarduno â chyllid cyhoeddus.

### 3.1.2. Gwerth economaidd datblygu cynyrchiadau a gwariant y gadwyn gyflenwi

Amcangyfrifir bod cyfanswm o £287.6 miliwn mewn gwariant cynhyrchu uniongyrchol, y gwariwyd £125.6 miliwn ohono mewn cadwyni cyflenwi haen is (anuniongyrchol), wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Mae'r prif effeithiau'n cynnwys:

- **Gwerth ychwanegol gros:** yn seiliedig ar wariant (a wireddwyd) sydd wedi'i wirio yn unig, amcangyfrifir bod y rhaglen wedi cynhyrchu £127.8 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros i Gymru. O gynnwys gwariant a ragwelir o brosiectau sy'n dal i fod ar y gweill, mae cyfanswm yr effaith o ran gwerth ychwanegol gros yn codi i £159.9 miliwn;

- **Effaith ar gyflogaeth:** amcangyfrifir bod gwariant cynhyrchu wedi cefnogi tua 2,270 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru yn seiliedig ar wariant a wireddwyd. Gan gynnwys y gwariant a ragwelir, amcangyfrifir bod yr effaith ar gyflogaeth yn codi i gyfanswm o 2,650 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

### 3.1.3. Effeithiau incwm a chyfraniad economaidd a ysgogwyd

Yn ogystal â chaffael rhwng busnesau, mae’r cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn cynhyrchu incwm aelwydydd sylweddol drwy daliadau uniongyrchol i’r cast, y criw a’r staff cynhyrchu, yn ogystal ag yn anuniongyrchol i weithwyr ar hyd y gadwyn gyflenwi. Wedi hynny, caiff yr enillion hyn eu hail wario'n sylweddol, ond nid yn gyfan gwbl, ar draws yr economi ehangach, gan arwain at effeithiau ysgogedig. Dyma pryd mae defnydd aelwydydd yn cefnogi gweithgarwch economaidd pellach, yn enwedig mewn sectorau fel tai, manwerthu, gwasanaethau bwyd a thrafnidiaeth leol. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm effaith y gwariant ysgogedig hwn yn cynhyrchu tua £18.0 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros ac yn cefnogi tua 190 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

## 3.2. Cyfanswm y gwerth economaidd

Rhwng 2020/21 a 2024/25, dyrannodd Cymru Greadigol £23.7 miliwn mewn cyllid cynhyrchu, ac amcangyfrifir bod hyn wedi denu cyfanswm o £287.6 miliwn o wariant.

O ganlyniad, amcangyfrifir bod y rhaglen wedi cyfrannu £177.8 miliwn at werth ychwanegol gros economi Cymru ac wedi cefnogi tua 2,835 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros y pum mlynedd. Cyflwynir dadansoddiad o'r effaith economaidd yn ôl math o effaith yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1: Cyfanswm y gwerth economaidd**

| Math o Effaith | Gwerth Ychwanegol Gros | Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|
| | **Wedi'i Wireddu** | |
| Uniongyrchol | £81.9 miliwn | 1,510 |
| Anuniongyrchol | £46.0 miliwn | 770 |
| Ysgogedig | £14.2 miliwn | 150 |
| | **A Ragwelir** | |
| Uniongyrchol | £21.7 miliwn | 270 |
| Anuniongyrchol | £10.4 miliwn | 110 |
| Ysgogedig | £3.7 miliwn | 40 |
| **Cyfanswm** | **£177.8 m** | **2,840** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill (2025). Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf, a bod swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf; felly, efallai na fydd swm y ffigurau unigol yn cyd-fynd â'r cyfansymiau a roddir.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol wedi darparu gwerth sylweddol ar draws sawl dimensiwn:

- Am bob £1 o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol, cynhyrchodd hyn £6.76 mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol[7];
- Mae cyfraniad o ran gwerth ychwanegol gros uniongyrchol o £103.5 miliwn oddeutu 26% o gyfanswm allbwn sector Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth Cymru yn 2023[8];
- Mae cyfanswm y cyfraniad o ran gwerth ychwanegol gros o £177.8 miliwn yn cyfateb i 0.2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros yng Nghymru yn 2023[9];
- Mae'r 1,780 o swyddi cyfwerth ag amser llawn uniongyrchol a gefnogwyd yn cyfateb i 350 o swyddi cyfwerth ag amser llawn y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli tua 2% o gyfanswm y gyflogaeth yn sector digidol a sgrin Cymru yn 2023[10];
- Am bob swydd uniongyrchol a gefnogwyd gan y rhaglen, cefnogwyd 0.6 swydd cyfwerth ag amser llawn ychwanegol drwy'r gadwyn gyflenwi ac effeithiau ysgogedig.

## 3.3. Goblygiadau treth

Amcangyfrifir y bydd y gweithgarwch effaith economaidd sy'n gysylltiedig â chyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn cyfrannu £30.0 miliwn mewn refeniw treth ar gynnyrch (treth ar werth - TAW) a threth incwm. Oherwydd cyfyngiadau'r data, nid yw treth gorfforaeth, yswiriant gwladol a threthi anuniongyrchol eraill wedi'u hamcangyfrif, felly mae'r ffigurau a gyflwynir yn geidwadol.

Wrth gynnwys refeniw treth ychwanegol sy'n deillio o wariant incwm aelwydydd ysgogedig (h.y. gwariant gan weithwyr a gefnogwyd gan y rhaglen), mae'r cyfraniad cyllidol cyfan yn cynyddu i oddeutu £30.6 miliwn. Mae hyn yn awgrymu bod pob £1 o gyllid Cymru Greadigol wedi dychwelyd tua £1.29 i'r Trysorlys. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau cyllidol ychwanegol fel TAW o gynnydd mewn defnydd na chyfraniadau treth hirdymor o well datblygiad gyrfa.

## 3.4. Dadansoddiad yn ôl nodweddion y cynyrchiadau

Er mwyn deall proffil effeithiau uniongyrchol a'r gadwyn gyflenwi sy'n deillio o wariant cynhyrchu yn well, cynhaliwyd dadansoddiad o nodweddion y cynyrchiadau:

[7] Er y gall y ffigur hwn ymddangos yn gymedrol, mae'n adlewyrchu nodweddion penodol economi sgrin Cymru a'r dewisiadau methodolegol a wnaed yn y gwerthusiad hwn. Mae'r ffigurau hyn oherwydd lefelau uchel o ollyngiadau a chyfraddau elw isel o fewn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r modelu hefyd yn datgelu cysylltiadau cryf o ran cadwyn gyflenwi, gan ddangos bod cynyrchiadau sy'n seiliedig yng Nghymru yn cynhyrchu gwerth sylweddol ar draws ystod eang o sectorau.
[8] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol 2023 - GOV.UK
[9] Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardal a chydran
[10] Llywodraeth Cymru, 'Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023', 29 Hydref 2024

### 3.4.1. Dadansoddiad yn ôl math o gynhyrchiad

Ar draws y 45 o brosiectau a ddadansoddwyd, dyfarnodd Cymru Greadigol £9.3 miliwn i 24 o gynyrchiadau cynhenid, £14.2 miliwn i 20 o gynyrchiadau mewnfuddsoddiad, a £155,000 i un cyd-gynhyrchiad. Gan ganolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac effeithiau'r gadwyn gyflenwi (anuniongyrchol) yn unig, mae'r dadansoddiad yn datgelu gwahaniaethau nodedig yn y maint a'r enillion ar fuddsoddiad yn ôl math o gynhyrchiad:

- Cynyrchiadau mewnfuddsoddi oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm y gwariant, gyda thua £181.4 miliwn mewn gwariant uniongyrchol ar ddatblygu cynhyrchiad. Cynhyrchodd y prosiectau hyn £102.2 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n cyfateb i £12.74 mewn gwariant a £7.18 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol. Amcangyfrifir eu bod wedi cefnogi 1,620 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, ar gost gyfartalog o £8,800 o gyllid cyhoeddus fesul swydd.

- Er eu bod yn llai o ran maint yn gyffredinol, roedd cynyrchiadau cynhenid yn darparu elw economaidd cryf o gymharu â'r cyllid a fuddsoddwyd. Gyda chyfanswm gwariant o tua £104.2 miliwn, fe wnaethant gynhyrchu £56.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n cyfateb i £11.24 mewn gwariant a £6.08 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol. Cefnogodd y cynyrchiadau hyn 1,090 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, am £9,210 y swydd.

**Tabl 3.2: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl math o gynhyrchiad**

| Math o Effaith | Cynhenid | Mewnfuddsoddiad |
|---|---|---|
| Cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol | £9.3 miliwn | £14.2 miliwn |
| Nifer y prosiectau | 24 | 20 |
| Cyfanswm y gwariant cynhyrchu uniongyrchol | £104.2 miliwn | £181.4 miliwn |
| Gwariant cynhyrchu fesul £1 o Gyllid Cymru Greadigol | £11.24 | £12.74 |
| Cyfanswm gwerth ychwanegol gros | £56.4 miliwn | £102.2 miliwn |
| Gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol | £6.08 | £7.18 |
| Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 1,010 | 1,620 |
| Cost fesul swydd cyfwerth ag amser llawn | £9,210 | £8,800 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf a bod swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

Noder: Dim ond effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau gwerth ychwanegol gros a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflwynir[11].

[11] Uniongyrchol: Swyddi a grëwyd o fewn cynyrchiadau a ariannwyd (e.e. cast, criw, staff cynhyrchu) ac ymhlith cyflenwyr haen gyntaf a gontractiwyd yn uniongyrchol (e.e. llogi offer, adeiladu setiau, arlwyo).

Anuniongyrchol: Swyddi yn y gadwyn gyflenwi ehangach (h.y. cyflenwyr ail haen), fel gweithgynhyrchu, trafnidiaeth, neu wasanaethau proffesiynol sy'n cefnogi cyflenwyr haen gyntaf.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at werth strategaeth ariannu gytbwys. Mae mewnfuddsoddiad yn darparu maint ac amlygrwydd rhyngwladol, tra bod prosiectau cynhenid a phrosiectau wedi'u cydgynhyrchu yn cyflawni yn erbyn yr amcan strategol o ddatblygu sector sgrin a digidol mwy cynaliadwy a gwydn sydd â gwreiddiau lleol.

### 3.4.2. Dadansoddiad yn ôl genre

Er mwyn archwilio ymhellach natur y gweithgarwch economaidd a gynorthwywyd drwy gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol, dadansoddwyd yr allbynnau yn ôl fformat y cynhyrchiad: wedi'i sgriptio, di-sgript, animeiddio, a gemau. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac effeithiau'r gadwyn gyflenwi (anuniongyrchol) ac yn rhoi cipolwg ar faint ac enillion ar fuddsoddiad:

Roedd prosiectau wedi'u sgriptio yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithgarwch economaidd cyffredinol, gan gynhyrchu £277.8m mewn cyfanswm gwariant cynhyrchu uniongyrchol a £154.8m mewn cyfanswm gwerth ychwanegol gros. Mae hyn yn cyfateb i £12.37 mewn gwariant a £6.89 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol, yr enillion uchaf ar fuddsoddiad ar draws pob genre. Gwnaeth y prosiectau wedi'u sgriptio gefnogi tua 2,560 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, sy'n awgrymu cost o £8,790 fesul swydd cyfwerth ag amser llawn a grëwyd, sef yr isaf ymhlith yr holl genres cynhyrchu. Mae'r data'n amlygu pwysigrwydd strategol fformatau wedi'u sgriptio fel prif sbardun gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth y sector yng Nghymru, yn ogystal â gwerth diwylliannol adrodd straeon lleol neu straeon sydd wedi'u dylanwadu gan Gymru.

Gwnaeth y cynyrchiadau di-sgript ddarparu enillion cryf ar fuddsoddiad o gymharu â'u maint. Gyda chyfanswm gwariant o £2.2 miliwn, cynhyrchodd hyn £2.2 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n cyfateb i £7.70 mewn gwariant a £4.24 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid. Gwnaeth y prosiectau hyn hefyd gefnogi 44 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, gan arwain at gost ariannu fesul swydd o tua £11,818. Mae hyn yn awgrymu, er eu bod yn llai o ran maint ariannol, bod cynnwys di-sgript yn cyfrannu at arallgyfeirio economaidd ac yn cefnogi cyflogaeth gyson, yn enwedig ymhlith busnesau bach a chanolig.

Gwnaeth cynyrchiadau animeiddio gynhyrchu £2.2 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n cyfateb i £8.62 mewn gwariant a £4.07 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid a chost o £13,846 fesul swydd a grëwyd. Mae'r data'n dangos bod animeiddio yn cynnig gwerth da o ran allbwn fesul punt, yn enwedig o ystyried ei gysylltiadau â gwaith medrus iawn sy'n ddwys o ran dylunio yn y gadwyn gyflenwi greadigol.

Amcangyfrifir y bydd yr unig gynhyrchiad gemau yn y portffolio yn cynhyrchu £1.2 miliwn mewn gwariant cyfunol a £650,000 mewn gwerth ychwanegol gros, sy'n cyfateb i £4.32 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o fuddsoddiad Cymru Greadigol. Amcangyfrifir ymhellach y bydd yn cefnogi 13 o swyddi cyfwerth ag amser llawn am £12,750 fesul swydd a grëwyd. Fel fformat sy'n datblygu, mae'n ymddangos bod gemau'n cynnig enillion addawol ar fuddsoddiad cymharol isel, gyda photensial yn y dyfodol yn ddibynnol ar dwf y sector a bod y cymorth yn parhau i gael ei dargedu.

**Tabl 3.3: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl genre'r cynhyrchiad**

| Math o Effaith | Wedi'i sgriptio | Di-sgript | Animeiddio | Gemau |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol | £22.5 miliwn | £0.5 miliwn | £0.5 miliwn | £0.2 miliwn |
| Nifer y prosiectau | 30 | 10 | 4 | 1 |
| Cyfanswm y gwariant cynhyrchu uniongyrchol | £277.8 miliwn | £4.0 miliwn | £4.7 miliwn | £1.2 miliwn |
| Gwariant cynhyrchu fesul £1 o gyllid Cymru Greadigol | £12.37 | £7.70 | £8.62 | £7.78 |
| Cyfanswm gwerth ychwanegol gros | £154.8 miliwn | £2.2 miliwn | £2.2 miliwn | £0.6 miliwn |
| Gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol | £6.89 | £4.24 | £4.07 | £4.32 |
| Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn | 2,555 | 44 | 39 | 12 |
| Cost fesul swydd cyfwerth ag amser llawn | £8,790 | £11,950 | £13,870 | £12,750 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf a bod swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

Noder: Dim ond effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau gwerth ychwanegol gros a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflwynir.

At ei gilydd, cynnwys wedi'i sgriptio sy'n sail i'r rhan fwyaf o'r effaith economaidd sy'n gysylltiedig â chyllid cynhyrchu Cymru Greadigol, gan adlewyrchu ei faint ariannol a'i ddwyster o ran llafur. Mae hyn yn gyson â disgwyliadau gwerth am arian y rhaglen, sydd fel arfer yn galw am gymhareb o 10:1 o leiaf o wariant Cymru i gyllid Cymru Greadigol yn achos prosiectau wedi'u sgriptio. Er bod fformatau di-sgript ac animeiddio yn tueddu i weithredu ar feintiau llai, maent yn aml yn darparu enillion cystadleuol ar fuddsoddiad o gymharu â maint eu cyllideb, sy'n cael ei adlewyrchu mewn trothwy gwerth am arian is o 6:1 yn achos cynnwys di-sgript. Mae'r sector gemau, er ei fod yn gynnar yn ei ddatblygiad, yn cynnig cyfle ar gyfer buddsoddiad strategol i ysgogi twf mewn creu cynnwys gwerth uchel, wedi'i arwain gan ddigidol.

### 3.4.3. Dadansoddiad yn ôl cyfres unigol yn erbyn ailgomisiynu

O'r 45 o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, mae 35 wedi cadarnhau eu statws darlledu. O'r rhain, cynhyrchwyd 19 fel cyfresi unigol ac mae 16 wedi eu hailgomisiynu am gyfresi ychwanegol. Mae'r 10 sy'n weddill naill ai heb eu darlledu eto neu'n aros am gadarnhad o fuddsoddiad dilynol ac felly maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn.

Rhwng 2020 a 2025, buddsoddodd Cymru Greadigol £8.5 miliwn mewn cyfresi unigol ac £8.7 miliwn mewn cynyrchiadau sydd wedi'u hailgomisiynu am gyfresi ychwanegol. Gwnaeth y buddsoddiadau hyn gynorthwyo £105.9 miliwn a £101.5 miliwn mewn gwariant cynhyrchu uniongyrchol yn y drefn honno, sy'n cyfateb i enillion ar fuddsoddiad o:

- £12.41 o wariant cynhyrchu am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol yn achos cyfresi unigol;
- £11.62 am £1 yn achos cyfresi wedi'u hailgomisiynu.

Gan ganolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gadwyn gyflenwi yn unig, mae'r dadansoddiad hwn yn cynnig cipolwg ar sut mae enillion economaidd yn amrywio rhwng datblygu cyfresi cychwynnol a chynyrchiadau sy'n parhau.

**Tabl 3.4: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl genre'r cynhyrchiad**

| Math o Effaith | Cyfres Unigol | Ailgomisiynu |
|---|---:|---:|
| Cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol | £8.5 miliwn | £8.7 miliwn |
| Nifer y prosiectau | 19 | 16 |
| Cyfanswm y gwariant cynhyrchu uniongyrchol | £105.9 miliwn | £101.5 miliwn |
| Gwariant cynhyrchu fesul £1 o Gyllid Cymru Greadigol | £12.41 | £11.62 |
| Cyfanswm gwerth ychwanegol gros | £57.6 | £57.8 |
| Gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol | £6.75 | £6.63 |
| Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 1,054 | 1,035 |
| Cost fesul swydd cyfwerth ag amser llawn | £8,095 | £8,431 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf a bod swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

Noder: Dim ond effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau gwerth ychwanegol gros a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflwynir.

Gwnaeth cynyrchiadau cyfresi unigol gynhyrchu £57.6 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi 1,054 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cynrychioli £6.75 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol, am gyfanswm o £8,095 fesul swydd cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd.

Cynhyrchodd cyfresi a ailgomisiynwyd £57.8 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros gan gefnogi 1,035 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, sy'n cyfateb i £6.63 mewn gwerth ychwanegol gros fesul £1 o gyllid, a chost o £8,431 fesul swydd cyfwerth ag amser llawn.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu lefelau tebyg iawn o enillion economaidd ar fuddsoddiad ac effaith cyflogaeth rhwng cyfresi newydd a chyfresi a ailgomisiynwyd. Er bod cyfresi unigol yn cynnig trosoledd ychydig yn uwch ar wariant cynhyrchu a gwerth ychwanegol gros, mae prosiectau wedi'u hailgomisiynu yn cyfrannu at barhad cyflogaeth ac yn adeiladu ar seilwaith a sgiliau sefydledig. Mae'r ffaith bod y canlyniadau hyn yn debyg iawn yn dangos y gwerth strategol sydd i fuddsoddi mewn cynnwys newydd ac mewn cynnal eiddo deallusol llwyddiannus, ac mae'r ddau yn chwarae rhan gyflenwol yn nhwf a chydnerthedd economi sgrin Cymru.

### 3.4.4. Dadansoddiad o gynyrchiadau Cymraeg eu hiaith

Rhwng 2020/21 a 2024/25, mae Cymru Greadigol wedi dyrannu tua £2.0 miliwn ar draws 10 cynhyrchiad Cymraeg eu hiaith, sy'n cynrychioli tua 8% o gyfanswm cyllid cynhyrchu. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y rhaglen i hybu amrywiaeth ddiwylliannol a chefnogi targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant cynhyrchu uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r prosiectau Cymraeg hyn yn cyrraedd £30.2 miliwn, sy'n cyfateb i gymhareb trosoledd o £10.40 am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol. Er ei fod ychydig yn is na'r gymhareb o £12.31 am bob £1 a welwyd ar draws cynyrchiadau di-Gymraeg, mae hyn yn dal i gynrychioli enillion cryf ar fuddsoddiad o ran gweithgarwch economaidd lleol.

Amcangyfrifir y bydd cynyrchiadau Cymraeg yn cynhyrchu £10.7 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru (wedi'i wireddu a'i ragweld), sy'n cyfateb i £5.47 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o fuddsoddiad Cymru Greadigol. Mae hyn yn cymharu â £6.87 am bob £1 a gynhyrchwyd gan gynyrchiadau di-Gymraeg.

O ran cyflogaeth, amcangyfrifir bod cynyrchiadau Cymraeg yn cefnogi 180 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, ar gost gyfartalog o £11,126 o gyllid Cymru Greadigol fesul swydd. Mae hyn tua £2,347 yn fwy fesul swydd na'r gost gyfatebol ar draws cynyrchiadau di-Gymraeg, gan adlewyrchu'r maint llai a'r cyllidebau is sy'n arferol ar brosiectau Cymraeg.

**Tabl 3.5: Effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad yn ôl math o gynyrchiadau Gymraeg**

| Math o Effaith | Cynyrchiadau Cymraeg | Cynyrchiadau di-Gymraeg |
|---|---:|---:|
| Cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol | £2.0 miliwn | £21.7 miliwn |
| Nifer y prosiectau | 10 | 35 |
| Cyfanswm y gwariant cynhyrchu uniongyrchol | £20.4 miliwn | £267.2 miliwn |
| Gwariant cynhyrchu fesul £1 o Gyllid Cymru Greadigol | £10.40 | £12.31 |
| Cyfanswm gwerth ychwanegol gros | £10.7 miliwn | £149.2 miliwn |
| Gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol | £5.47 | £6.87 |
| Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 180 | 2,470 |
| Cost fesul swydd cyfwerth ag amser llawn | £11,130 | £8,780 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf a bod swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

Noder: Dim ond effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau gwerth ychwanegol gros a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflwynir.

Er eu bod yn llai o ran maint economaidd, mae cynyrchiadau Cymraeg yn darparu gwerth strategol a diwylliannol sy'n ymestyn y tu hwnt i fetrigau craidd gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth. Fel a drafodwyd yn Adran 6.2, mae'r prosiectau hyn yn chwarae rhan hanfodol

wrth normaleiddio'r Gymraeg yn y cyfryngau prif ffrwd, cryfhau hunaniaeth ieithyddol, a chefnogi gweledigaeth hirdymor Cymru Greadigol ar gyfer sector sgrin dwyieithog sy'n ddiwylliannol fywiog.

### 3.4.5. Dadansoddiad yn ôl gwariant uwchlaw'r llinell ac islaw'r llinell

Gellir categoreiddio gwariant cynhyrchu a gefnogwyd drwy gyllid Cymru Greadigol yn fras yn wariant uwchlaw'r llinell a gwariant islaw'r llinell. Mae uwchlaw'r llinell yn cyfeirio at gostau sy'n gysylltiedig â rolau creadigol uwch fel awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a phrif gast. Mae gwariant islaw'r llinell yn cwmpasu elfennau technegol, gweithredol a logistaidd wrth gyflawni cynhyrchiad.

O'r £287.6 miliwn a wariwyd yn uniongyrchol ar ddatblygu cynyrchiadau rhwng 2020 a 2025, roedd £24.2 miliwn (6%) yn wariant uwchlaw'r llinell a £389.0 miliwn (94%) yn wariant islaw'r llinell. Mae hyn yn adlewyrchu'r natur ddwys o ran llafur a gwasanaethau sydd i gynhyrchu i'r sgrin, lle mae buddsoddiad o gymorth i gyflawni ac i weithrediadau ar lawr gwlad.

Amcangyfrifir mai gweithgarwch uwchlaw'r llinell sy'n cyfrannu'r rhan fwyaf o'r gwerth economaidd, gan gynhyrchu tua £151.5 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a chefnogi 2,520 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn pwysleisio rôl hanfodol gwariant islaw'r llinell wrth ysgogi cyflogaeth a gwreiddio gwerth economaidd o fewn cadwyni cyflenwi, stiwdios a rhwydweithiau criwiau Cymru.

Er bod gweithgarwch uwchlaw'r llinell yn llai o ran cyfanswm maint, roedd yn dal i wneud cyfraniad ystyrlon. Cynhyrchodd £8.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a chefnogodd 130 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r rolau hyn yn tueddu i fod â chyflog uwch ac yn rolau medrus iawn, ac mae eu amlygrwydd ymhlith rolau arweinyddiaeth a datblygiad creadigol yn bwysig ar gyfer sicrhau cynnwys o ansawdd uchel a denu cynyrchiadau i Gymru.

Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dangos sut mae gwariant islaw'r llinell yn angori gwerth cynyrchiadau mewn economïau lleol, tra bod gwariant uwchlaw'r llinell yn hybu rhagoriaeth greadigol a tharddiad cynnwys. Mae model ariannu cytbwys sy'n galluogi'r ddau yn hanfodol i iechyd a chystadleurwydd sector sgrin Cymru.

Er bod gwariant ar wahân i wariant ar griw fel arfer yn darparu mwy o swmp yn economaidd, mae gwariant ar griw yn hanfodol i hunaniaeth greadigol, ansawdd technegol a pharhad y sector. Mae sicrhau bod y ddau faes yn cael eu cefnogi'n dda yn parhau i fod yn hanfodol i gynnal diwydiant sgrin cystadleuol a gwydn yng Nghymru.

# 4. Sgil-effeithiau ehangach

Er bod yr effeithiau uniongyrchol ac effeithiau'r gadwyn gyflenwi sy'n deillio o'r cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn fesuradwy i weithgarwch cynhyrchu ei hun, mae yna effeithiau economaidd ehangach sydd y tu allan i gadwyn werth uniongyrchol y cynyrchiadau. Mae'r sgil-effeithiau hyn yn cyfeirio at fuddion eilaidd sy'n deillio o allbynnau cynyrchiadau, megis mwy o dwristiaeth, mwy o werthiant nwyddau marchnata, a buddsoddiadau tymor hwy mewn seilwaith a sgiliau.

Er bod yr effeithiau hyn yn anoddach eu priodoli i un cynhyrchiad, maent yn rhan bwysig o ecosystem gwerth ehangach sy'n ymwneud â chymorth Cymru Greadigol i'r sector sgrin. Mae crynodeb o amcangyfrif o'r gwerth economaidd sy'n deillio o'r sgil-weithgareddau hyn yn cael ei gyflwyno yn Nhabl 5.1, sy'n cynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig lle maent ar gael. Caiff y canfyddiadau hyn eu harchwilio'n fanylach yn yr adrannau canlynol. Prif ganfyddiadau:

- Twristiaeth oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r sgil-effeithiau posibl. Yn eglurhaol, amcangyfrifir bod hyn yn cyfrannu rhwng £45.3 miliwn a £226.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi rhwng 1,110 a 5,570 o flynyddoedd o gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad twristiaeth fu prif ffocws yr astudiaeth hon, ac felly dylid trin y ffigurau hyn fel rhai dangosol yn unig; i gael mwy o wybodaeth, mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Adran 4.1.1. Serch hynny, mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at y dylanwad sylweddol y gall cynnwys sgrin ei gael ar ymwybyddiaeth o gyrchfannau ac ymddygiad ymwelwyr.

- Er eu bod yn llai o ran maint, gwnaeth gwyliau ffilm a gweithgareddau sy'n ymwneud â sinemâu gynhyrchu cyfanswm o £1.9 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros gan gefnogi 50 mlynedd o gyflogaeth, gan ddangos eu gwerth wrth sbarduno cyfranogiad diwylliannol a gweithgarwch economaidd lleol.

- Gwnaeth ymyriadau addysg a sgiliau, y tu allan i hyfforddiant a ddarparwyd fel rhan o'r cynyrchiadau a ariannwyd, gyfrannu tua £0.8 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi 15 mlynedd o gyflogaeth, gan adlewyrchu rôl ehangach Cymru Greadigol mewn datblygu talent a gwytnwch y gweithlu yn y tymor hwy.

**Tabl 4.1: Cyfanswm y gwerth economaidd ehangach**

| | Gwerth ychwanegol gros (miliwn) | Blynyddoedd o gyflogaeth |
|---|---:|---:|
| Twristiaeth – cyfradd briodoli o 0.5% | £45.3 | 1,110 |
| Twristiaeth – cyfradd briodoli o 2.5% | £226.4 | 5,570 |
| Sinemâu | £0.7 | 16 |
| Gwyliau ffilm | £1.2 | 35 |
| Addysg a sgiliau | £0.8 | 15 |
| Stiwdios | £1.9 | 41 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro. Mae'r tabl hwn yn cynnwys effaith economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf.

## 4.1. Twristiaeth

Daeth rôl cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol wrth hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ymwelwyr i'r amlwg fel thema a gododd dro ar ôl tro yn ystod ymgynghoriadau â rhanddeiliaid (n=8). Cyfeiriwyd yn gyson at bortreadu straeon, diwylliant a thirweddau Cymru ar y sgrin fel ffactor sy'n sbarduno diddordeb mewn ymweld â Chymru, yn enwedig pan oedd cynyrchiadau'n tynnu sylw at drefi llai adnabyddus, rhanbarthau gwledig a lleoliadau naturiol nodedig. Nododd un ymgynghorai fod ffocws Cymru Greadigol ar ariannu cynyrchiadau sydd â phortreadau cryf o Gymru, fel Lost Boys and Fairies, wedi rhoi ac yn parhau i roi manteision i dwristiaeth.

Dywedodd nifer o ymgyngoreion (n=4) yn benodol fod cyfresi uchel eu proffil fel The Pact a Sex Education yn golygu bod tirweddau, cymunedau a thirnodau diwylliannol Cymru yn sylweddol fwy gweladwy. Dywedodd un ymgynghorai fod "gan y sioe olwg benodol sy'n arddangos Cymru ac yn bendant wedi cynyddu twristiaeth i Ddyffryn Gwy oherwydd yr effaith ddiwylliannol ar yr ardal". Enghraifft a grybwyllwyd yn aml oedd Pren ar y Bryn/Tree on a Hill, a ffilmiwyd yn ardal Ystradgynlais. Dywedodd ymgyngoreion ei fod wedi "rhoi'r pentref bach hwn ar y map a'i fod yn dal tirwedd y lle" drwy arddangos ei olygfeydd i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r adborth ansoddol hwn yn cyd-fynd â'r llenyddiaeth academaidd ar dwristiaeth wedi'i hysgogi gan ffilm a theledu, sy'n awgrymu y gall cynnwys sgrin gynyddu apêl lleoliadau nad oeddent yn cael eu hystyried yn gyrchfannau twristaidd o'r blaen[12]. Mae hyn yn digwydd pan fydd cynulleidfaoedd yn cael eu cymell i ymweld â lleoedd maen nhw wedi dod yn ymwybodol ohonynt trwy ffilm neu deledu, wedi'u denu gan y storïau, y golygfeydd, neu'r cynnwys symbolaidd. Yn y cyd-destun hwn, mae Dyffryn Gwy (Sex Education) ac Ystradgynlais (Pren ar y Bryn) yn enghreifftiau pendant lle gallai amlygiad i sgrin fod wedi arwain at fwy o ddiddordeb twristiaeth.

Roedd enghreifftiau ychwanegol a ddyfynnwyd yn ystod yr ymgynghoriadau, gan gynnwys The Guest, The Pact, a Death Valley, yn dangos sut roedd cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn arddangos amrywiaeth tirweddau Cymru, gan atgyfnerthu canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan sy'n weledol nodedig ac yn ddiwylliannol gyfoethog. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau ymchwil ar dwristiaeth sgrin, sy'n nodi bod tirwedd, naratif, a chynrychiolaeth cymeriadau yn elfennau "eiconig" sy'n gallu ysgogi galw ymhlith ymwelwyr a llunio delwedd cyrchfan[13].

Yn ogystal â'i werth economaidd, gall twristiaeth sgrin wella proffil rhyngwladol Cymru, cefnogi strategaethau brandio lleoedd lleol, a chreu balchder yn eu lle i gymunedau lleol[14,15]. Fodd bynnag, bydd angen rheolaeth ofalus ar unrhyw gynnydd yn nifer yr

[12] Dupont, N. (2021) 'Local Aspects and Impacts of Film-induced Tourism'. The French Journal of Media Studies. (Cyrchwyd: 7fed Mai 2025)
[13] Riley, R., Baker, D. ac S. Van Doren, C. (1998) 'Movie induced tourism'. Analysis of Tourism Research, 25(4), tt. 919-935. (Cyrchwyd: 7fed Mai 2025)
[14] Jones, B. (2024) Screen Tourism: Regional development, fan labour and sustainability (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)
[15] Llywodraeth Cymru (2025) Set-jetio: y ffasiwn ddiweddaraf sy'n dangos Cymru i'r byd (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)

ymwelwyr, yn enwedig i safleoedd anghysbell neu sy'n sensitif yn ecolegol, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau sy'n derbyn twristiaeth sgrin[16].

### 4.1.1. Cyfraniad economaidd twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin

Rhwng Ebrill 2021 a 2024, croesawodd Cymru tua 213.2 miliwn o dripiau undydd a 39.5 miliwn o dripiau gwyliau dros nos gan drigolion Prydain, a wariodd gyfanswm o tua £13.0 biliwn yn economi Cymru[17]. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio data twristiaeth yn benodol o 2021 i 2024, gan i'r cynhyrchiad cynharaf a ariannwyd gan Gymru Greadigol, Roald and Beatrix: Tail of the Curious Mouse, gael ei ddarlledu ym mis Rhagfyr 2020. Felly mae data twristiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 wedi'i eithrio am fod y potensial ar gyfer effaith fesuradwy yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â bylchau yn y data yn sgil pandemig COVID-19. Mae 2024 yn cynrychioli'r ystadegau twristiaeth diweddaraf sydd ar gael.

Dylid nodi nad oes gan bob cynhyrchiad a ariannwyd gan Gymru Greadigol y bwriad i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth sgrin, ac nad yw pob un wedi'i leoli mewn lleoliadau sydd i'w hadnabod fel rhai Cymreig. Yn yr un modd, efallai nad yw rhai cynyrchiadau a ariannwyd yn ddiweddarach yn y cyfnod wedi'u rhyddhau neu wedi cyrraedd cynulleidfa ddigon eang eto i ddylanwadu ar benderfyniadau teithio. Yn ogystal, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio'n unig ar drigolion Prydain oherwydd y data sydd ar gael; nid yw effeithiau posibl twristiaeth sgrin dramor wedi'u cynnwys. Felly, mae'r modelu hwn yn rhoi amcangyfrif dangosol o faint posibl twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin.

Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi casglu tystiolaeth sylfaenol yn uniongyrchol ar briodoliad ymwelwyr. Yn hytrach, mae'r cyfraddau priodoli darluniadol hyn wedi'u deillio o dystiolaeth allanol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Astudiaeth Galw'r Farchnad Croeso Cymru (2024), a ganfu fod 10% o'r ymatebwyr yn bwriadu ymweld â lleoliadau a oedd yn ymddangos mewn ffilmiau, ar deledu neu mewn llenyddiaeth[18]. Mae cyd-destun ychwanegol o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, a rannwyd gan Gymru Greadigol, yn rhoi cipolwg pellach ar gymhelliant: Roedd 3% o ymweliadau â Chymru rhwng 2022-23 yn cynnwys ymweliad â lleoliad sy'n gysylltiedig â chyfres deledu, ffilm neu lenyddiaeth. Wrth ystyried y rhai a nododd y gweithgaredd hwn fel rheswm bach, prif reswm neu reswm mawr dros eu taith, mae'r cyfartaledd wedi'i bwysoli yn gostwng i 2%; wrth ystyried y rhai yr oedd yn brif reswm neu'n rheswm mawr iddynt yn unig, mae'n gostwng i tua 0.8%.

Mae tystiolaeth ehangach gan Visit Britain[19] ac Adroddiad Busnes Sgrin Sefydliad Ffilm Prydain (BFI)[20] yn awgrymu cyfraddau priodoli o tua 1 mewn 6 (17%). Fodd bynnag, mae'r astudiaethau hyn yn cynnwys ymwelwyr rhyngwladol â'r DU ac felly ni ddylid eu cymharu'n uniongyrchol â'r data domestig yn unig a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn.

---

[16] News Report Film Tourism: Blessing or a Nightmare for Travel Destinations, 2025
[17] Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr
[18] Adroddiad galw'r farchnad ym maes twristiaeth, 2025
[19] Visit Britain (2024) The influence of Film and TV locations on visits to the UK: Nation Brands Index 2023 (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)
[20] BFI (2021) Screen Business Report (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon ac ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, tybiwyd cyfradd briodoli geidwadol o 0.5% i 2.5% i ddangos y gwerth ychwanegol posibl sydd yn sgil twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin o brosiectau Cymru Greadigol. Mae'r ystod hon yn adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ar gael ac addasiad yn seiliedig ar farn i ystyried ansicrwydd ynghylch priodoli.

Gan gymhwyso'r ystod hon, gellir cysylltu amcangyfrif o wariant ymwelwyr o £65.2 miliwn i £325.8 miliwn rhwng 2021 a 2024 â diddordeb mewn cynnwys sgrin. Amcangyfrifir bod y gweithgarwch hwn wedi ysgogi £15.2 miliwn i £76.1 miliwn ychwanegol mewn gweithgarwch (anuniongyrchol) yn y gadwyn gyflenwi. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod hyn wedi cyfrannu £40.6 miliwn i £203.0 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi 1,050 i 5,270 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth yng Nghymru, neu tua 350 i 1,760 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn flynyddol.

Yn ogystal, amcangyfrifir bod effeithiau ysgogedig a gynhyrchwyd gan ailwariant incwm aelwydydd a gynorthwywyd gan weithgaredd twristiaeth sgrin uniongyrchol ac anuniongyrchol wedi cyfrannu £33.2 miliwn i £166.0 miliwn mewn gwariant ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at werth ychwanegol gros o £4.7 miliwn i £23.4 miliwn a 60 i 300 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth, neu 20 i 100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn flynyddol.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos y potensial economaidd sylweddol sydd i dwristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin fel sgil-effaith cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol. Er bod priodoliad o reidrwydd yn cael ei fodelu ac na ellir ei neilltuo'n fanwl gywir i gynyrchiadau unigol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu cysylltiad rhwng cynrychiolaeth lleoliadau Cymru ar y sgrin a mwy o weithgarwch twristiaeth.

**Tabl 4.2: Cyfraniad economaidd twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin**

| Math o effaith | Cyfradd briodoli – 0.5% | | Cyfradd briodoli – 2.5% | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth Ychwanegol Gros | Blynyddoedd unigolyn o gyflogaeth | Gwerth Ychwanegol Gros | Blynyddoedd unigolyn o gyflogaeth |
| Uniongyrchol | £33.1 miliwn | 900 | £165.7 miliwn | 4,520 |
| Anuniongyrchol | £7.5 miliwn | 150 | £37.2 miliwn | 750 |
| Ysgogedig | £4.7 miliwn | 60 | £23.4 miliwn | 300 |
| **Cyfanswm** | £45.3 miliwn | 1,110 | £226.4 miliwn | 5,570 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro. Noder bod y ffigurau ariannol wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf a bod swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

## 4.2. Arddangos ffilmiau

Nid yn unig y mae cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn sbarduno gweithgarwch economaidd yn ystod y camau datblygu a chynhyrchu, ond maent hefyd yn cyfrannu at economi sgrin Cymru wrth i ffilmiau gael eu harddangos i gynulleidfaoedd, yn benodol mewn sinemâu a gwyliau ffilm.

Mae Cymru Greadigol hefyd yn cynorthwyo cynllun Canolfan Ffilm Cymru, 'Gwnaed yng Nghymru', drwy gyllid grant. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i helpu sinemâu Cymru drwy arddangos ffilmiau a wnaed yng Nghymru, naill ai'n llawn neu'n rhannol, a chyda neu heb gymorth Cymru Greadigol.

### 4.2.1. Rhyddhau mewn sinemâu

Mae dau gynhyrchiad a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol ac oddi mewn i gwmpas yr astudiaeth hon wedi sicrhau dosbarthiad sinemâu yn ystod y blynyddoedd diwethaf: Kensuke’s Kingdom ac Almond and the Seahorse. Mae'r ffilmiau hyn wedi darparu gwerth ychwanegol y tu hwnt i'r gwariant cynhyrchu cychwynnol drwy gynhyrchu refeniw tocynnau ac ysgogi gweithgarwch ymwelwyr sy'n gysylltiedig â sinema yng Nghymru.

Ar draws y ddau deitl, amcangyfrifir bod tua 30,200 o docynnau wedi eu gwerthu, gan gynhyrchu cyfanswm o £197,500 mewn refeniw tocynnau. Yn seiliedig ar ystadegau twristiaeth[21], amcangyfrifir bod yr arddangosiadau hyn wedi cyfrannu tua £809,000 mewn gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod y gweithgarwch hwn wedi cefnogi £665,000 mewn gwerth ychwanegol gros a thua 16 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth ledled Cymru. Er eu bod yn gymedrol mewn termau absoliwt, mae'r canlyniadau hyn yn tynnu sylw at y potensial i ffilmiau sy’n cael eu cynorthwyo gan Gymru Greadigol gynhyrchu gwerth economaidd sy'n seiliedig ar le.

### 4.2.2. Gwyliau ffilm a theledu

Yn ogystal â darparu llwyfan i roi cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol i dalent greadigol Cymru, mae gwyliau ffilm a theledu yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd trwy dwristiaeth wedi’i gyrru gan ddigwyddiadau ac yn helpu i gryfhau’r ecosystem sgrin a digidol ehangach.

Ers ei sefydlu, mae Cymru Greadigol wedi darparu £81,000 mewn cyllid i gynorthwyo wyth gŵyl ffilm a theledu, gan gynnwys Ffocws Cymru, Copa Cyfryngau Cymru a Gwobr Iris, ymhlith eraill. Yn achos pedwar o'r digwyddiadau hyn, roedd cyllid Cymru Greadigol yn rhan o ddarlun ariannu ehangach a oedd yn gyfanswm o £547,000 ychwanegol. Cyfrannodd y cyllid cyfunol hwn at gyflawni rhaglenni’r gwyliau, llogi lleoliadau, marchnata, staffio a digwyddiadau cysylltiedig.

Ar draws y pum gŵyl y mae data ar gael ar eu cyfer, cofnodwyd dros 17,000 o fynychwyr. Mae data ymwelwyr yn awgrymu bod y digwyddiadau hyn wedi cyfrannu tua £677,000 mewn gwariant uniongyrchol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys llety, trafnidiaeth, bwyd a diod, a manwerthu. Yn seiliedig ar gyfanswm gwariant cyflawni’r gwyliau a gwariant ymwelwyr (cyllid ac arian cyfatebol gyda'i gilydd), amcangyfrifir bod effaith economaidd gros y gweithgareddau hyn yn £1.1 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 33 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru trwy weithgarwch uniongyrchol ac anuniongyrchol, sy'n codi i £1.2 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 35 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth wrth gynnwys effeithiau ysgogedig.

---

[21] Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr

Y tu hwnt i effeithiau gwariant uniongyrchol, mae gwyliau ffilm a theledu yn helpu i feithrin rhwydweithiau creadigol lleol, denu rhanddeiliaid a thalent y diwydiant i Gymru, a chynnig cyfleoedd mynediad gyrfa a dyrchafiad i bobl greadigol sy'n dod i'r amlwg.[22,23] Drwy gryfhau ymgysylltiad y gynulleidfa a gwelededd rhyngwladol, maen nhw'n chwarae rhan bwysig wrth atgyfnerthu hunaniaeth Cymru fel canolfan ar gyfer cynnwys sgrin sy'n ddiwylliannol gyfoethog ac yn berthnasol yn fyd-eang.[24]

## 4.3. Stiwdio

Mae cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn chwarae rhan alluogi bwysig wrth greu'r amodau ar gyfer buddsoddiad hirdymor yn seilwaith sgrin a digidol Cymru. Er nad yw'r rhaglen cyllid cynhyrchu yn ariannu seilwaith ffisegol fel stiwdios yn uniongyrchol, drwy angori cynyrchiadau yng Nghymru a chyfleu amgylchedd polisi cefnogol, mae Cymru Greadigol wedi helpu i wneud y genedl yn lleoliad mwy deniadol ar gyfer mewnfuddsoddiad. Mae gosod y sefyllfa hon yn bwysig o ystyried datblygiadau stiwdios newydd, gan gynnwys Shinfield Studios yn Reading yn 2024 ac anwadalrwydd byd-eang ehangach, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 8.

Wrth i'r galw am gynnwys sgrin barhau i dyfu'n fyd-eang, mae cynhyrchwyr a buddsoddwyr yn chwilio fwyfwy am leoliadau sydd â chymhellion cynhyrchu dibynadwy a'r seilwaith ffisegol i gefnogi allbwn o ansawdd uchel. Mae'r llif cyson o gynyrchiadau sy'n cael eu cynorthwyo gan Gymru Greadigol wedi helpu i ddangos bod Cymru'n cynnig gweithlu medrus, lleoliadau amrywiol, a hanes llwyddiannus o gyflawni. Mae hyn yn ei gwneud yn ganolfan hyfyw a deniadol i weithredwyr stiwdios a buddsoddwyr.

Mae cynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol wedi gwneud defnydd sylweddol o seilwaith stiwdios ledled Cymru. Lle'r oedd data ar gael, defnyddiwyd y stiwdios a restrir yn Nhabl 5.3 gan 17 o gynyrchiadau a ariannwyd. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos ehangder y cyfleusterau stiwdio sydd wedi cynorthwyo cynyrchiadau ac yn dangos sut mae cyllid cyhoeddus wedi helpu i gynnal y defnydd o gapasiti stiwdios presennol ledled Cymru.

Yn bwysig, mae'r defnydd o stiwdios yn adlewyrchu lledaeniad daearyddol nodedig, gyda chyfleusterau'n cael eu defnyddio yn ne-ddwyrain Cymru (e.e. Dragon Studios, Great Point Studios, Roath Lock Studios, Wolf Studios, Urban Myth Studios, Whisper Cymru Broadcast Hub) a de-orllewin Cymru (e.e. Bay Studios, Abertawe), gan gefnogi crynodiad y diwydiant sgrin o amgylch Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr gan hefyd ymestyn gweithgarwch i'r ardaloedd cyfagos. Mae'r dosbarthiad hwn yn pwysleisio rôl cyllid Cymru Greadigol wrth yrru effaith economaidd ranbarthol, gan helpu i sicrhau nad yw manteision gwariant cynhyrchu wedi'u cyfyngu i un clwstwr ond eu bod wedi'u gwasgaru ar draws sawl lleoliad. Mae hyn yn cyfrannu at gyflogaeth ranbarthol, datblygu sgiliau a chydnerthedd seilwaith cynhyrchu sgrin Cymru.

---

[22] Greenlight coverage (2025) What Are Film Festivals' Importance and Impact? (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)
[23] Ffilm Cymru Wales (2024) Cryfhau sector sinema Cymru gyda chyllid Ffilm Cymru Wales (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)
[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) Ymchwiliad i Gynyrchiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru (Cyrchwyd: 22ain Mai 2025)

**Tabl 4.3: Stiwdios wedi'u lleoli yng Nghymru a ddefnyddiwyd fel rhan o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol**

| **Stiwdio** | **Lleoliad** | **Cynyrchiadau Cymru Greadigol** |
|---|---:|---:|
| Bay Studios | Abertawe | 1 |
| Dragon Studios | Pen-y-bont ar Ogwr | 4 |
| Great Point Studios | Caerdydd | 2 |
| Dragon Studios a Great Point Studios | Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd | 1 |
| Roath Lock Studios | Caerdydd | 2 |
| Wolf Studios | Caerdydd | 2 |
| Urban Myth Studios | Casnewydd | 3 |
| Whisper Cymru Broadcast Hub | Caerdydd | 1 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro

Un o'r enghreifftiau mwyaf pendant o'r effaith alluogi ehangach hon yw datblygiad Stiwdios Aria yn Ynys Môn. Cafodd y cyfleuster ei ariannu'n rhannol gan S4C, Cymru Greadigol, a Rondo Media, a dywedodd rhanddeiliaid fod y cynnydd mewn cynyrchiadau a gynorthwywyd gan y rhaglen yn ffactor a gyfrannodd at gyfiawnhau'r achos busnes dros ddatblygu cyfleusterau stiwdio newydd yng ngogledd Cymru. Dywedodd un rhanddeiliad fod cyllid Cymru Greadigol wedi "helpu i gadw swyddi yng ngogledd Cymru ac wedi rhoi rhywfaint o ddatblygiad sgiliau i staff yn ogystal â'n helpu ni i adeiladu ar amrywiaeth y staff". Mae presenoldeb sector cynhyrchu bywiog sydd wedi'i ddosbarthu'n rhanbarthol yn lleihau'r risg i fuddsoddiad preifat ac yn helpu i gynllunio seilwaith ar gyfer y tymor hir.

Mae dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf a gweithredol hyd yma yn awgrymu bod Stiwdios Aria wedi cyfrannu tua £1.9 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros ac wedi cefnogi 41 o flynyddoedd cyflogaeth o fewn economi Cymru. Mae disgwyl i'r manteision hyn dyfu wrth i'r safle ddenu mwy o gynyrchiadau a dod yn rhan fwyfwy o'r ecosystem cynhyrchu cenedlaethol.

Effeithiau adeiladu a gweithredol Stiwdios Aria y mae'r asesiad effaith economaidd a gyflwynir isod yn eu cwmpasu, ac nid yw'n cynnwys y gweithgarwch economaidd sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr y safle a'r cynyrchiadau y mae'r safle yn eu galluogi y tu hwnt i'r rhai a ariannwyd gan Gymru Greadigol.

Mae ymchwil ar wahân gan Aria Studios, sydd heb ei chyhoeddi, yn amlygu ymhellach werth cynhyrchu ar y safle. Yn 2024/25 yn unig, gwnaeth cynyrchiadau a gynhaliwyd yno, gan gynnwys ffilm nodwedd fawr o'r Unol Daleithiau, gynhyrchu dros £1 miliwn mewn effaith economaidd leol a chefnogi mwy na 150 o weithwyr llawrydd. Roedd y manteision ychwanegol yn cynnwys busnes newydd i gyflenwyr lleol (e.e., dros £100,000 i gwmni adeiladu setiau gan gefnogi pum crefftwr lleol) a gweithgareddau allgymorth lle y gwnaeth dros 1,000 o ddisgyblion a 345 o fyfyrwyr fanteisio ar deithiau stiwdio a gweithdai. Mae'r gweithgarwch ehangach hwn yn pwysleisio rôl y stiwdio fel gyrrwr economaidd a llwyfan ar gyfer sgiliau, addysg ac ymgysylltu cymunedol.

## 4.4. Addysg a sgiliau

Mae model cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol wedi chwarae rhan allweddol wrth hybu datblygiad y gweithlu a hyfforddiant penodol i'r diwydiant ledled Cymru. Mae'r cymorth hwn wedi canolbwyntio ar ehangu'r ffrwd o dalent lleol a datblygu sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion esblygol y sectorau sgrin a digidol.

Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriadau oedd rôl Cymru Greadigol wrth helpu hyfforddeion i ennill profiad gwaith ymarferol ar draws amrywiaeth o gwmnïau ac adrannau cynhyrchu (n=10). Mae hyn drwy fandad Cymru Greadigol o leoliadau hyfforddi â thâl ar gynyrchiadau a ariennir. Mae Cymru Greadigol yn gweithio gyda sefydliadau gan gynnwys Sgil Cymru, Cynghrair Sgrin Cymru, Cyswllt Diwylliant Cymru, ScreenSkills ac NFTS Cymru i ddarparu'r cyfleoedd hyn i hyfforddeion a phrentisiaid, gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i'r swydd.

Mae hyn yn gyson ag ymchwil gan ScreenSkills ar leoliadau ym maes ffilm a theledu plant yn y Deyrnas Unedig, a ganfu fod dysgu a hyfforddiant yn y sector sgrin wedi'u canoli'n gynhenid ar gyfleoedd seiliedig ar waith, gyda lleoliadau gwaith yn darparu mynediad at brofiad yn y byd go iawn, rhwydweithiau proffesiynol, a datblygiad sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer dilyniant gyrfa.

Mae data monitro Cymru Greadigol yn dangos, o'r 43 cynhyrchiad lle mae data ar gael, eu bod wedi darparu cyfleoedd i 425 o hyfforddeion, a bod 48 o hyfforddeion (ar draws 34 cynhyrchiad) wedi cael cyfleoedd i uwchsgilio. Gwnaeth y profiadau hyn helpu hyfforddeion i adeiladu rhwydweithiau proffesiynol, ennill credydau yn y diwydiant, symud ymlaen o fewn y sector creadigol, a gwella eu cyflogadwyedd.

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid (n=4) yn gadarnhaol hefyd at raglen Camu Fyny am ddarparu llwybr wedi'i strwythuro i hyfforddeion symud i rolau ar lefel ganolig neu uwch. Roedd y rhaglen hon yn cael ei rhedeg gan Sgil Cymru ac fe'i cyd-ariannwyd yn flaenorol gan Gymru Greadigol a ScreenSkills. Dywedodd rhanddeiliaid fod rhaglen Camu Fyny "yn bwysig o fewn cynhyrchu gan ei bod yn rhoi profiad i aelodau'r criw, yn caniatáu datblygiad gyrfa" ac yn creu "cyfleoedd hyfforddi sylweddol oherwydd cyllid Cymru Greadigol". Cyfeiriodd ymgyngoreion (n=2) hefyd at gysgodi a mentora fel dulliau effeithiol i Benaethiaid Adrannau feithrin gallu a hyder ymhlith gweithwyr proffesiynol sydd ar ddechrau eu gyrfa.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u hategu gan ymchwil gan Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol a Chyngor Celfyddydau Lloegr, sy'n pwysleisio pwysigrwydd buddsoddiad cyhoeddus wrth alluogi cwmnïau cynhyrchu i ddarparu hyfforddiant i'r rhai sy'n mynd ymlaen i weithio o fewn busnesau creadigol masnachol a'r economi greadigol ehangach. Mae buddsoddiad o'r fath yn helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau, yn cefnogi datblygiad gyrfa, ac yn cryfhau cynaliadwyedd ac amrywiaeth hirdymor y gweithlu creadigol[25].

Rhwng 2020 a 2025, mae Cymru Greadigol wedi cynorthwyo dros 50 o brosiectau sgiliau yn y sector creadigol. Mae hyn yn cynnwys pum menter hyfforddi a sgiliau ar y cynyrchiadau a ariannwyd sydd o fewn cwmpas yr astudiaeth hon, lle mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo

[25] Arts Council England, Public Investment Public Gain, 2019 Report

tua £611,000, gan ddenu £266,000 ychwanegol mewn cyllid cyfatebol gan y diwydiant a phartneriaid eraill, gan gynnwys:

- Cyswllt Diwylliant Cymru, sy'n darparu cymorth mentora a lleoliadau gwaith wedi'i deilwra i dalent amrywiol ar draws y sector sgrin;
- Hwyluswyr Lles, a roddodd hyfforddiant i chwech o unigolion i feithrin amgylcheddau gwaith mwy cyfartal a chadarnhaol mewn cynyrchiadau sgrin;
- Cymru Greadigol, sy'n sicrhau bod yr holl gynyrchiadau y mae'n eu hariannu yn cynnal o leiaf un prentis o raglen Criw (Gogledd a De) Sgil Cymru, gan gynnig hyfforddiant yn y swydd;
- Cynllun Datblygu Penaethiaid Adran, a ariennir ar y cyd â ScreenSkills, sy'n cynorthwyo'r broses o aelodau criw profiadol yn symud ymlaen i rolau Pennaeth Adran.

Cyfanswm y buddsoddiad cyfun gan Gymru Greadigol a'r arian cyfatebol yw £877,000, gan hybu cyflogaeth uniongyrchol ac ecosystem ehangach o ddarparwyr hyfforddiant, mentoriaid a phartneriaid cyflawni'r rhaglen. Amcangyfrifir bod cyfraniad economaidd y gwariant hwn yn cynnwys £807,000 mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru a thua 15 o flynyddoedd unigolyn o gyflogaeth.

<u>Astudiaeth Achos: Prentis Sgil Cymru 1</u>

Llwyddodd unigolyn â chefndir gweinyddol i symud i'r diwydiant ffilm a theledu drwy raglen prentisiaeth Sgil Cymru. Gwnaeth y rhaglen alluogi'r prentis i weithio ar nifer o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol gan ennill profiad ar draws y cynyrchiadau hyn.

Ar eu cynhyrchiad cyntaf, Black Cake, bu'r prentis yn gweithio gydag aelodau uwch y tîm ar dasgau fel drafftio contractau styntiau, cysylltu â thimau cyllid, a gweithio fel rhedwr cynhyrchu. Gwnaeth hyn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o gydlynu cynhyrchiad ac adeiladu hygrededd proffesiynol.

Roedd y cynhyrchiad llai o ran maint, Until I Kill You, yn cynnig cyfle i weithio'n agosach gydag aelodau'r criw a chyfleoedd pellach i gymryd cyfrifoldeb. Yn ystod y brentisiaeth, bu'r unigolyn hefyd ar leoliad gwaith gyda'r cwmni ôl-gynhyrchu Gorilla yng Nghaerdydd, lle'r oedden nhw'n arsylwi llifoedd gwaith golygu ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r cylch cynhyrchu llawn.

Roedd y profiadau cronnus hyn yn caniatáu i'r prentis adeiladu set amrywiol o sgiliau a chael nifer o gredydau cynhyrchu, sy'n ffactor pwysig o ran cyflogadwyedd yn y diwydiant sgrin. Arweiniodd eu rhwydwaith cynyddol o gysylltiadau proffesiynol hefyd at gynorthwyo Cynhyrchwyr Llinell i ddod o hyd i dalent lleol ar gyfer cynyrchiadau yn y dyfodol.

Ar ôl cwblhau'r brentisiaeth, llwyddodd yr unigolyn i gael rôl fel Ysgrifennydd Cynhyrchu ar brosiectau uchel eu proffil gan gynnwys Casualty, Doctor Who, Generation Z, a The Scurry. Yn sgil eu gwaith ar The Scurry, cawsant ddyrchafiad pellach i rôl Cydlynydd Cynhyrchu Cynorthwyol, ac wedi hynny fe'u gwahoddwyd i barhau yn y rôl hon ar Under Salt Marsh,

cynhyrchiad a ariannwyd gan Gymru Greadigol. Disgrifiodd y prentis y cyfle hwn fel canlyniad uniongyrchol i'w hyfforddiant ac i'r ymddiriedaeth yr oeddent wedi'i meithrin ymhlith rheolwyr cynhyrchu yn ystod lleoliadau gwaith blaenorol.

# 5. Effeithiau economaidd ehangach cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

Mae'r bennod hon yn cyflwyno tystiolaeth ar y canlyniadau economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â rhaglen Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, gan gynnwys cymorth i gwmnïau cynhyrchu, gweithwyr llawrydd ac aelodau'r criw, yn ogystal ag ar gyfer y sector sgrin a digidol.

## 5.1. Cynorthwyo cwmnïau cynhyrchu annibynnol

### 5.1.1. Cynaliadwyedd a gwytnwch cwmnïau cynhyrchu

Yn unol â'r amcanion a nodwyd yng Nghontract Economaidd Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran meithrin gwytnwch busnesau a denu buddsoddiad i economi Cymru[26], nododd rhanddeiliaid fod y cyllid wedi cyfrannu at gynyddu gwytnwch cwmnïau cynhyrchu mewn dwy brif ffordd.

- Mae'r cynnydd yn nifer y cynyrchiadau yn helpu i sicrhau cyflenwad sefydlog o waith i gwmnïau cynhyrchu, gan ganiatáu iddynt gadw a datblygu profiad gweithwyr wrth ennill credydau ar gyfer staff cynhyrchu mewnol (n=4);
- Nododd ychydig o ymgyngoreion (n=3) fod cyllid Cymru Greadigol wedi galluogi cwmnïau cynhyrchu i arallgyfeirio i genres newydd, a bod hynny, yn ei dro, wedi datblygu profiad a chredydau eu staff. Er enghraifft, gwnaeth cyllid gan Gymru Greadigol alluogi Yeti TV i gynhyrchu cyfres troseddau go iawn, a wnaeth helpu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith darlledwyr ac arwain at gomisiynau dilynol.

Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn gyson â thueddiadau a nodwyd mewn adroddiadau ehangach y diwydiant yn y DU, gan gynnwys y rhai gan Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol a Chyngor Celfyddydau Lloegr[27]. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod buddsoddiad cyhoeddus yn y diwydiannau creadigol yn cyfrannu at dair thema allweddol o fewn y sector: talent, swyddi a thwf; arloesedd; a modelau buddsoddi newydd. Drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi i fynd i'r afael â phrinder a bylchau sgiliau yn y sector, lliniaru'r risgiau sy'n ymwneud â phrofi syniadau newydd, a datgloi buddsoddiad preifat a masnachol, mae buddsoddiad cyhoeddus yn hybu ffyniant a chynaliadwyedd y sefydliadau hyn i'r dyfodol.

### 5.1.2. Cadw eiddo deallusol

Oherwydd esblygiad cyllido ffilm a theledu i ffwrdd o'r system stiwdio draddodiadol tuag at fodelau cyllido annibynnol, mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn aml yn dibynnu ar gymysgedd o ffynonellau cyllido i wireddu eu prosiectau[28]. Mae'r cynnydd mewn platfformau fideo-ar-alw drwy danysgrifio wedi arwain at fwy o amlygrwydd i gyd-gynyrchiadau gyda chwmnïau cynhyrchu rhyngwladol a mewnfuddsoddiad gan y platfformau fideo-ar-alw.

---

[26] Llywodraeth Cymru Y Contract Economaidd
[27] Arts Council England, Public Investment Public Gain, 2019 Report
[28] The Reaction Lab Blog: The Evolution of Film Financing: From Studio Systems to Independent Filmmaking

Er y gall trefniadau o'r fath ddarparu cyfalaf hanfodol, mae tystiolaeth gan ddau randdeiliad ac adroddiad diweddar gan Dŷ'r Cyffredin yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cynhyrchu annibynnol ildio rhai neu'r cyfan o'u hawliau eiddo deallusol. Gall hyn gyfyngu ar reolaeth greadigol hirdymor, cyfyngu ar botensial refeniw eilaidd, ac effeithio ar dwf busnes[29]. Mae mynediad at gyllid rhanbarthol yn lleihau dibyniaeth ar gomisiynwyr tramor, nad ydynt, yn wahanol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, yn ddarostyngedig i'r un amddiffyniadau 'telerau masnach' a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003[30].

Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid (n=6) fod cyllid Cymru Greadigol yn helpu i liniaru'r pwysau hyn drwy alluogi cwmnïau i gadw mwy o berchnogaeth dros eu heiddo deallusol. Yn ei dro, mae hyn yn hybu gwytnwch economaidd hirdymor drwy ddiogelu ffrydiau refeniw eilaidd (e.e., gwerthiannau rhyngwladol a thrwyddedu) a chaniatáu i elw gael ei ailfuddsoddi i ddatblygu busnes.

Un enghraifft a grybwyllwyd gan ymgyngoreion oedd The Pact, a gynhyrchwyd gan Little Door. Disgrifiwyd bod cyllid Cymru Greadigol wedi galluogi'r cwmni i gadw hawliau eiddo deallusol ac ailfuddsoddi enillion o'r ddwy gyfres gyntaf i ddatblygu llechen fewnol o brosiectau. Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at greu Under the Salt Marsh, cynhyrchiad 'band 3' ar gyfer Sky Studios, gyda'r eiddo deallusol yn cael ei gadw gan Little Door. Fel y dywedodd un rhanddeiliad: "Mae cyllid Cymru Greadigol wedi bod yn hanfodol. Mae wedi bod yn garreg gamu o ran busnes er mwyn i ni gyrraedd y rhaglen band 3 hon."

Roedd rhai rhanddeiliaid (n=6) yn ystyried bod cadw perchnogaeth ar eiddo deallusol yn ffactor pwysig sy'n galluogi cynaliadwyedd cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru, gyda manteision economaidd ehangach a thymor hwy – megis creu contractau parhaol i staff a chydnerthedd a thwf y sector sgrin a digidol. Dywedodd un rhanddeiliad mai prif fudd economaidd cyllid Cymru Greadigol i gwmnïau cynhyrchu yw ei fod yn "helpu i gadw gwaith cynhyrchu yn fewnol ac yng Nghymru" gan ddweud eto bod "perchnogaeth ar eiddo deallusol yn sbardun refeniw, sy'n cyfrannu at yr economi yn gyffredinol".

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag ymchwil ehangach yn y diwydiant. Daeth adroddiad yn 2023 gan Oliver & Ohlbaum Associates i'r casgliad bod cadw eiddo deallusol gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn chwarae rhan sylfaenol mewn llwyddiant rhyngwladol[31]. Drwy gadw perchnogaeth ar hawliau domestig a rhyngwladol eilaidd, mae cwmnïau cynhyrchu mewn gwell sefyllfa i arallgyfeirio ffynonellau incwm a manteisio'n llawn ar werth hirdymor ar ôl i gyfnodau trwyddedau cychwynnol ddod i ben.

---

[29] British film and high-end television

[30] Deddf Cyfathrebu 2003, p. 21. O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ddarostyngedig i 'delerau masnach' wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol. Maen nhw'n galluogi cynhyrchwyr annibynnol i gadw hawliau eiddo deallusol i'w rhaglenni ac mae ganddynt rwymedigaethau i ddefnyddio cynhyrchwyr annibynnol ar gyfer o leiaf swm gofynnol diffiniedig o'u gweithgareddau comisiynu blynyddol. Nid yw platfformau fideo-ar-alw drwy danysgrifio wedi'u cynnwys o dan delerau masnach ac felly nid oes ganddynt unrhyw rwymedigaeth i ganiatáu i gwmnïau cynhyrchu annibynnol gadw eu heiddo deallusol.

[31] Research Report for Pact, Celebrating 20 Years of Terms of Trade,  Oliver & Ohlbaum Associates Ltd, 2023

### 5.1.3. Gwella galluoedd mewnol

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid (n=4) at y ffaith bod cyllid Cymru Greadigol wedi galluogi cwmnïau cynhyrchu i weithio ar gynyrchiadau mwy uchelgeisiol neu dechnegol gymhleth, gan gryfhau eu galluoedd a'u harbenigedd mewnol.

Yn ogystal â'r enghraifft o The Pact y cyfeirir ati yn Adran 5.1.2, achos nodedig arall yw Bumpybox, stiwdio animeiddio yng Nghaerdydd. Ar ôl datblygu dau brosiect yng Nghymru lle'r oeddent yn berchen ar yr eiddo deallusol, gydag un ohonynt wedi derbyn cymorth gan Gymru Greadigol, gwahoddwyd y cwmni gan Lupus Films i gyd-gynhyrchu Kensuke's Kingdom. Dyma oedd y tro cyntaf i Bumpybox chwarae rhan mewn ffilm nodwedd animeiddiedig yn y DU a gwnaeth hyn wella eu gallu gweithredol a chreadigol yn sylweddol, gan helpu i sefydlu eu safle yn y sector animeiddio.

### 5.1.4. Codi proffil rhyngwladol a gwella enw da

Nododd nifer o randdeiliaid (n=6) hefyd fod cyllid Cymru Greadigol wedi helpu cwmnïau cynhyrchu annibynnol i wella eu proffil rhyngwladol. O'r herwydd, derbyniodd 44% o'r prosiectau fewnfuddsoddiad. Mewn rhai achosion, roedd y cymorth yn eu galluogi i fod yn rhan o gyd-gynyrchiadau uchel eu proffil, gan eu gwneud yn fwy gweladwy mewn marchnadoedd byd-eang a chryfhau perthnasoedd â darlledwyr a dosbarthwyr. Enghraifft o hyn yw rhan Bumpybox yn Kensuke's Kingdom, a'u galluogodd i gyd-gynhyrchu ffilm nodwedd ryngwladol a dangos eu galluoedd i Lupus Films, gan arwain at fwy o ymddiriedaeth a'i gwneud yn fwy tebygol y byddai Lupus Films yn defnyddio'r berthynas ar brosiectau yn y dyfodol.

## 5.2. Cefnogi gweithwyr llawrydd ac aelodau criw

Un o amcanion allweddol rhaglen Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yw cryfhau'r gweithlu domestig drwy sicrhau bod y cynyrchiadau a ariennir yn cefnogi talent lleol. Fel rhan o feini prawf cymhwysedd y rhaglen, rhaid i gynyrchiadau gyflogi o leiaf 50% o'u criw o Gymru. Mae'r data monitro yn dangos, ar draws 32 o gynyrchiadau a ariannwyd lle'r oedd gwybodaeth ar gael amdanynt, bod 29 sydd yng nghwmpas yr astudiaeth hon wedi cyflogi dros 60% o'u criw o Gymru.

Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad (n=6) at rôl hanfodol gweithwyr llawrydd lleol wrth alluogi i gynyrchiadau sgrin wedi'u comisiynu yng Nghymru gael eu cyflawni, yn enwedig mewn rolau 'islaw'r llinell' fel camera, sain, dylunio setiau, a chymorth cynhyrchu[32]. Nodwyd bod y cynyrchiadau'n dibynnu ar lafur llawrydd, ac mae llawer ohono'n lleol, gan olygu bod y garfan hon yn rhan hanfodol o ecosystem cynhyrchu Cymru. Dywedodd un rhanddeiliad o gwmni cynhyrchu yn Llundain fod y cynhyrchiad, gan ddefnyddio cyllid Cymru Greadigol, wedi "ehangu eu gwybodaeth am weithwyr llawrydd o ansawdd uchel a thalent animeiddio yng Nghymru" a'u bod nhw "wedi mynd ymlaen i'w defnyddio mewn cynyrchiadau dilynol".

[32] Mae islaw'r llinell yn cyfeirio at staff sy'n ymwneud â gwaith creu ffilmiau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu. Mae adrannau cyffredin islaw'r llinell yn cynnwys Camera, Trydanol, Dylunio Cynhyrchu, Gwisgoedd a Cholur.

### 5.2.1. Gwella diogelwch a sefydlogrwydd swyddi

Adroddodd rhanddeiliaid fod y cynnydd yn nifer y cynyrchiadau a gynorthwywyd gan gyllid Cymru Greadigol wedi darparu cyfleoedd mwy cyson i weithwyr llawrydd, gan gyfrannu at wella sefydlogrwydd swyddi a pharhad cyflogaeth (n=6). Nododd un rhanddeiliad fod y cynhyrchiad yn golygu eu bod wedi “estyn allan at fwy o weithwyr llawrydd yng Nghymru nag y byddent fel arfer, sydd wedi cynyddu perthnasoedd a’r tebygolrwydd o gynnal cynyrchiadau yng Nghymru yn y dyfodol”. Mewn marchnad lafur sydd wedi’i nodweddu gan ei hanwadalrwydd a'i hansefydlogrwydd, ystyriwyd bod y parhad hwn yn alluogwr allweddol ar gyfer cynnal y gweithlu llawrydd yng Nghymru[33].

Nodwyd bod effaith gyfunol profiad yn y gwaith a dod i gysylltiad â nifer o gynyrchiadau a thimau cynhyrchu yn rhoi hwb i enw da gweithwyr llawrydd, yn enwedig trwy gronni credydau cynhyrchu. Ystyriwyd bod y credydau rhwydwaith hyn yn bwysig wrth wella gwelededd a hygrededd gweithwyr llawrydd yn y sector, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael gwaith yn y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i weithwyr proffesiynol ar gam cynnar yn eu gyrfa, a chyfeiriodd rhanddeiliaid at y ffaith bod parhau i gael eich recriwtio yn aml yn seiliedig ar berfformiad blaenorol a’ch bod yn gyfarwydd.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd meithrin perthynas rhwng hyfforddeion a Phenaethiaid Adran. Gwelwyd bod dod i gysylltiad â Phenaethiaid Adran ar draws sawl cynhyrchiad yn hwyluso ymddiriedaeth ac yn gwneud rhywun yn fwy cyfarwydd. Bydd y math hwn o adeiladu perthynas, ynghyd â’r effaith gronnus wrth i weithwyr llawrydd ymwneud yn rheolaidd â chynyrchiadau a chronni credydau, a chynyddu gwelededd yn y diwydiant, yn helpu i dyfu a chadw gweithwyr proffesiynol creadigol medrus yng Nghymru.

Er enghraifft, roedd dau brentis a gynorthwywyd drwy Sgil Cymru yn priodoli’r ffaith iddynt symud ymlaen i rolau sgiliau uwch yn uniongyrchol i berthnasoedd a adeiladwyd â Phenaethiaid Adran wrth weithio ar gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol (gweler yr astudiaeth achos isod).

<u>Astudiaeth Achos: Prentis Sgil Cymru 2</u>

Gwnaeth blwyddyn o brentisiaeth a ddarparwyd drwy Sgil Cymru alluogi'r gweithiwr yma, sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa, i gael profiad ymarferol ar draws tri chynhyrchiad a oedd wedi’u hariannu gan Gymru Greadigol: Black Cake, Steeltown Murders, a Pren ar y Bryn.

Roedd gweithio ar Pren ar y Bryn wedi rhoi mwy o gyfrifoldeb ac ymreolaeth broffesiynol i'r prentis, yn ogystal â'r cyfle i gyfrannu at gynhyrchiad Cymraeg. Gwnaeth y perthnasoedd cadarnhaol a adeiladwyd ar y set alluogi’r prentis i gael eu sgript eu hun wedi'i adolygu gan aelodau uwch y tîm, a chael mentora anffurfiol gan Benaethiaid Adran. Ar ôl cwblhau'r brentisiaeth yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2023, gwahoddwyd y prentis i barhau i fod yn rhan o'r cyfnod ôl-gynhyrchu, gan ddatblygu gwybodaeth dechnegol bellach a dealltwriaeth o'r broses ôl-gynhyrchu.

---

[33] BECTU, UK Film and TV Industry in Crisis, Chwefror 2024

O ganlyniad i'w gwaith ar Pren ar y Bryn a'r perthnasoedd a adeiladwyd drwy sawl cynhyrchiad arall a ariannwyd gan Gymru Greadigol, cynigiwyd y cyfle i'r prentis fod yn Ysgrifennydd Cynhyrchu ar ail gyfres o The Undeclared War. Dywedodd y prentis y byddai'r dilyniant hwn wedi bod yn annhebygol heb y sylfaen a ddarparwyd gan raglen Sgil Cymru a'r mynediad at nifer o brosiectau a ariannwyd gan Gymru Greadigol. Mynegwyd hyn gan y prentis mewn ymgynghoriad: "Roedd pobl yn gweld fy mod i'n weithiwr da ac roedden nhw fy eisiau i fel rhan o'r tîm. Perthnasoedd a adeiladwyd yn ystod fy mhrentisiaeth, a gwybod pwy sy'n gweithio'n dda." Er y cynnydd mewn cyfrifoldeb, gwnaeth y tîm cynhyrchu gefnogi eu datblygiad trwy gyrsiau hyfforddi a deunyddiau dysgu a ddarparwyd gan Gynghrair Sgrin Cymru.

Yn gyffredinol, rhoddodd y brentisiaeth sylfaen gref ar gyfer dilyniant gyrfa. Gwnaeth alluogi'r prentis i ennill credydau yn y diwydiant, meithrin perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol ar draws sawl adran, a'u gwneud eu hunain yn fwy gweladwy yn sector sgrin Cymru. Yn bwysig, gwnaeth y cyfle i gyfrannu at gynhyrchiad Cymraeg gryfhau eu cysylltiad â diwylliant a hunaniaeth Gymreig hefyd.

### 5.2.2. Datblygu'r gweithlu drwy brofiad cynhyrchu

Dywedodd sawl rhanddeiliad (n=8) fod cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol wedi cyfrannu at ddatblygu sgiliau a galluoedd y gweithlu, yn enwedig drwy gyfleoedd i weithio ar draws sawl prosiect. Mae dod i gysylltiad dro ar ôl tro ag amgylchedd cynhyrchu yn galluogi gweithwyr llawrydd, aelodau'r criw, ac unigolion sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa i feithrin eu hyder, mireinio eu crefft, a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros amser. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o werthfawr o ran datblygiad canol gyrfa.

Mae'r datblygiad cronnus hwn yn y gwaith yn cyd-fynd ag arferion gorau ym maes datblygu'r gweithlu yn y diwydiannau sgrin. Mae ymchwil gan BFI[34] a WorldSkillsUK[35] yn amlygu pwysigrwydd dod i gysylltiad parhaus ag amgylcheddau cynhyrchu er mwyn helpu unigolion i symud o rolau lefel is i rolau lefel ganolig ac uwch.

Roedd un arweinydd cynhyrchu yn disgrifio sut y gwnaeth gweithio ar draws llechen o brosiectau wedi'u hariannu a chyfresi a oedd yn dychwelyd alluogi'r un gweithwyr llawrydd i symud ymlaen o rolau is i rolau goruchwylio, gan leihau heriau recriwtio yn nes ymlaen a meithrin sylfaen o griw dibynadwy at brosiectau i'r dyfodol. Mae'r math hwn o dwf sydd wedi'i wreiddio nid yn unig yn cefnogi datblygiad gyrfa unigol ond mae hefyd yn gwella pa mor barod yw'r sector yng Nghymru i gynhyrchu, gan roi i gynyrchiadau sy'n dod i mewn fwy o hyder yn y gweithlu lleol.

Yn hollbwysig, mae hyn hefyd yn helpu i adeiladu economi rhwydwaith oddi mewn i'r sector sgrin yng Nghymru, gan ymgorffori talent a seilwaith lleol i gefnogi cynyrchiadau newydd, yn hytrach na dibynnu ar weithwyr proffesiynol sy'n dod i mewn neu golli gweithwyr medrus i ganolfannau mwy sefydledig fel Llundain, de-ddwyrain Lloegr, neu farchnadoedd rhyngwladol. Mae'r economi greadigol hon sy'n tueddu i "ollwng" yn ystyriaeth bwysig i

---

[34] BFI, A Sustainable Future for Skills: the Report of the Screen Sectors Skills Task Force
[35] A report by Work Advance for WorldSkills UK, Skills for Success in the UK Screen Industries, 2024

Gymru Greadigol: buddsoddi i sicrhau bod cyfleoedd i dalent ddatblygu a phrofi gyrfaoedd gwerth chweil yng Nghymru.

## 5.3. Cefnogi'r sector sgrin a digidol

Mae cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn chwarae rhan strategol wrth gryfhau ecosystem sgrin a digidol ehangach Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â’r ffaith i Lywodraeth Cymru ddynodi'r sector sgrin a digidol yn sector sy’n flaenoriaeth, gan gyfrannu at ddatblygu clwstwr a chydnerthedd y sector. Yn yr ymgynghoriadau, nodwyd pedwar prif lwybr yr oedd y cyllid, trwyddynt, yn darparu manteision ehangach:

### 5.3.1. Cryfhau'r gadwyn gyflenwi a'r seilwaith lleol

Fel rhan o'r broses ymgeisio, caiff cwmnïau cynhyrchu eu hasesu ar y gwariant y maen nhw’n ei ragweld yng Nghymru a'u cyfraniad ehangach at economïau lleol. Dywedodd nifer o randdeiliad (n=9) fod cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol wedi rhoi cymhellion i gwmnïau wneud mwy o ddefnydd o seilwaith a gwasanaethau yng Nghymru ar draws gwahanol gamau o'r cylch cynhyrchu, gan gynnwys ôl-gynhyrchu, pecynnau electronig y wasg, effeithiau gweledol (VFX), a recordio sain. Dywedodd un arweinydd cynhyrchu fod “cwmni EPK o Gymru o’r enw Bright Branch Media yn gydweithwyr newydd gwych”, a bod Gorilla yn “gyswllt allweddol ar gyfer ôl-gynhyrchu i’r dyfodol”.

Nododd arweinwyr cynyrchiadau (n=5) hefyd fod y cyswllt cynyddol hwn wedi gwella eu hymwybyddiaeth o alluoedd ac enw da cyflenwyr lleol, gan gynyddu'r tebygolrwydd o barhau i gydweithio. Un enghraifft a ddyfynnwyd yn aml oedd Gorilla TV, cwmni ôl-gynhyrchu yng Nghaerdydd. Esboniodd rhanddeiliaid fod cyllid Cymru Greadigol wedi galluogi cwmnïau cynhyrchu i weithio gyda Gorilla TV am y tro cyntaf neu wedi eu galluogi i weithio ar lefel ehangach. Yn achos Mad as Birds, arweiniodd y cydweithio cychwynnol â Gorilla TV at bartneriaeth hirdymor, gan gryfhau ymddiriedaeth rhyngddynt a sicrhau gwaith parhaus i'r cyflenwr.

Mae'r math hwn o ymwneud â'r gadwyn gyflenwi nid yn unig yn gwella gwelededd ac enw da darparwyr gwasanaethau Cymru, ond mae hefyd yn meithrin busnes parhaus ac yn adeiladu perthnasoedd hirdymor, sy'n elfennau allweddol o ddatblygu clwstwr ac ecosystem gwydn i’r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Disgrifiodd ymgyngoreion (n=3) sut roedd y prosiectau a ariannwyd gan Gymru Greadigol wedi gwella eu galluoedd cynhyrchu at y dyfodol drwy ddarparu cyfleoedd i dreialu partneriaethau newydd a chryfhau rhwydweithiau dibynadwy. Wrth wneud hynny, deellir bod y rhaglen yn cyfrannu at ddatblygu sylfaen gynhyrchu fwy gweladwy a mwy sefydledig yng Nghymru, gan hybu twf y sector nid yn unig trwy weithgarwch uniongyrchol, ond trwy adeiladu ffrwd hirdymor o weithwyr proffesiynol a chyflenwyr medrus.

### 5.3.2. Meithrin talent parhaol a rhwydweithiau creadigol

Nododd rhai rhanddeiliaid (n=5) werth y perthnasoedd a ffurfiwyd rhwng cwmnïau cynhyrchu ac awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, cyfansoddwyr a chynhyrchwyr llais llawrydd. Er enghraifft, nododd un arweinydd cynhyrchu fod “cynhyrchu un sioe wedi helpu i

feithrin perthnasoedd ag awduron a Phenaethiaid Adran, a ddefnyddiwyd wedyn ar sioe wahanol, sy’n dangos sut mae’r cyllid wedi caniatáu i’r cwmni cynhyrchu feithrin profiad a thalent yng Nghymru”. Ystyriwyd bod y cysylltiadau hyn, yn enwedig â Phenaethiaid Adran, yn arbennig o ddylanwadol, gan helpu i gynnal cyfleoedd i'r gweithlu llawrydd ehangach yng Nghymru. Dywedodd yr arweinydd cynhyrchu fod hyn wedi galluogi'r cwmni cynhyrchu i feithrin profiad a thalent yng Nghymru a sicrhau contractau tymor hwy a pharhad cyflogaeth i aelodau'r criw.

Cyfeiriodd dau randdeiliad at y manteision i'r naill ochr a’r llall a ddaw o bartneriaethau prifysgolion â chynyrchiadau, sy'n rhoi profiad ymarferol i fyfyrwyr a chyfle i ddilyn gyrfaoedd yn y diwydiant. Adroddodd un rhanddeiliad fod eu hyfforddeion wedi elwa o'r cydweithio â Phrifysgol De Cymru, a oedd yn darparu cymorth mentora drwy gydol cyfnod yr hyfforddeion yn y brifysgol.

### 5.3.3. Hybu mewnfuddsoddiad a thwf rhanbarthol

Pwysleisiodd pedwar rhanddeiliad rôl cyllid Cymru Greadigol wrth hybu twf rhanbarthol a gwella atyniad Cymru i gynyrchiadau rhyngwladol. Ystyriwyd bod ehangu amlygrwydd Penaethiaid Adran a thalent lleol yn allweddol i gynyddu hyder comisiynwyr, yn enwedig y rhai o'r tu allan i'r DU, yng ngallu Cymru i gynnal cynyrchiadau ar raddfa fawr.

Mae dadansoddiad BCG yn tynnu sylw at y ffaith bod creu galluoedd i dalent adeiladu gyrfaoedd cynaliadwy yn ymyrraeth ar yr ochr gyflenwi sy'n helpu i gynyddu hyder yn y sector ymhlith buddsoddwyr uniongyrchol tramor. Nododd ymgynghorydd o Sex Education, sioe a gomisiynwyd gan Netflix, fod y penderfyniad i ffilmio yng Nghymru wedi dod i raddau helaeth o’r ffaith bod y cwmni cynhyrchu “yn gwybod bod criw a seilwaith da yng Nghymru ac eisiau eu defnyddio”. Mae hyn yn dangos bod hyder yn y seilwaith cryf sydd eisoes yn bodoli ar gyfer sector y diwydiannau creadigol.

Trafodwyd twf canolfannau sgrin a digidol y tu hwnt i dde-ddwyrain Cymru hefyd, gan gynnwys mwy o weithgarwch cynhyrchu yn Ynys Môn a Wrecsam, wrth i fusnesau a phobl greadigol lleol ddechrau ffurfio micro-glystyrau mewn ardaloedd fel Caernarfon a chanolbarth Cymru.

# 6. Effeithiau ehangach y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

Mae'r bennod hon yn cyflwyno tystiolaeth ar y canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach sy'n gysylltiedig â'r cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol.

## 6.1. Cyfraniadau cymdeithasol a diwylliannol y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

### 6.1.1. Amrywiaeth y gweithlu a recriwtio cynhwysol

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o'r ymgynghoriadau bod cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn cyfrannu at arferion gweithlu mwy cynhwysol a chynrychioliadol o fewn sector sgrin Cymru drwy godi ymwybyddiaeth o ystyriaethau ehangach fel amrywiaeth a chynhwysiant, ac annog myfyrio arnynt, fel rhan o'u proses ymgeisio – ac felly'n cefnogi'n uniongyrchol gyflawniad strategaeth Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Gweithlu[36]. Caiff hyn ei ategu gan ofyniad Cymru Greadigol i naill ai ddefnyddio darparwr hyfforddiant cydnabyddedig neu ddefnyddio arferion agored a theg wrth recriwtio'n uniongyrchol.

Pwysleisiodd nifer o ymgyngoreion (n=5) bwysigrwydd amrywiaeth y gweithlu wrth alluogi'r arfer o adrodd straeon dilys. Nodwyd bod amrywiaeth y tu ôl i'r camera, gan gynnwys ymhlith awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a Phenaethiaid Adran, yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio pa straeon sy'n cael eu hadrodd a sut maen nhw'n cael eu portreadu ar y sgrin. Adlewyrchwyd yr ymrwymiad hwn i arfer cynhwysol mewn sawl ffordd amlwg ar draws y cynyrchiadau a ystyriwyd:

- Roedd pum cynhyrchiad a oedd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon yn cyfeirio'n benodol at ymrwymiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu Contractau Economaidd, gan gynnwys camau gweithredu i hybu recriwtio cynhwysol.
- Nododd dau ymgynghorai fod eu cwmnïau cynhyrchu yn cyd-fynd â Safonau Amrywiaeth y BFI i arwain cyfle a chynrychiolaeth gyfartal o ran staffio a datblygu cynnwys.
- Disgrifiodd pedwar ymgynghorai ymdrechion i ehangu cyfranogiad yn y sector drwy lwyfannau fel Cyswllt Diwylliant Cymru, a ddefnyddiwyd i ddenu ystod fwy amrywiol o hyfforddeion a gweithwyr proffesiynol ar gam cynnar yn eu gyrfa. Ystyriwyd bod yr arferion hyn yn hanfodol nid yn unig ar gyfer mynediad teg ond hefyd ar gyfer sicrhau bod ystod ehangach o brofiadau bywyd a safbwyntiau diwylliannol yn llywio'r arfer o adrodd straeon.

[36] Rhaglen lywodraethu

### 6.1.2. Darlun o gymunedau

Nododd llawer o ymgyngoreion (n=4) fod y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol wedi cyfrannu at gynrychiolaeth fwy dilys a chynhwysol ar y sgrin o gymunedau a phrofiadau bywyd amrywiol. Er enghraifft, cyfeiriwyd at The Guest fel cynhyrchiad a oedd yn portreadu deinameg dosbarth cymdeithasol trwy stori dwy fenyw o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol. Yn yr un modd, disgrifiwyd cynyrchiadau fel Lost Boys and Fairies a Sex Education fel enghreifftiau eraill a oedd yn portreadu profiadau bywyd rhyweddol, rhywiol ac o ran hil yn groestoriadol ymhlith cymunedau amrywiol yn gywir, ac a oedd yn mynd i'r afael â themâu anodd fel anabledd, trawma a chywilydd.

Darparodd rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'r cynyrchiadau hyn dystiolaeth anecdotaidd eu bod wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi rhoi mwy o falchder a hyder i eraill sy'n uniaethu â'r profiadau ar y sgrin. Nododd un arweinydd cynhyrchu fod "balchder mewn lle a mwy o gysylltiad â'ch tref eich hun drwy'r cynhyrchiad. Roedd pobl wrth eu bodd yn gweld eu tref neu eu dinas nhw ar y teledu ac yn adnabod y lleoedd oedd yn cael eu ffilmio".

Caiff y canfyddiadau hyn eu hategu gan ymchwil ehangach ar effaith cynnwys cyfryngau amrywiol a chynhwysol[37]. Mae ymchwil yn dangos bod amrywiaeth mewn ffilmiau a theledu poblogaidd yn galluogi portread cywir o brofiadau bywyd grwpiau sydd wedi'u gor-gynrychioli a grwpiau sydd wedi'u tan-gynrychioli mewn cymdeithas, gan helpu i leihau stereoteipiau a chamdybiaethau. Mae ymchwil arall sy'n ategu'r pwynt hwn yn dangos bod cynnwys cynhwysol yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach ymhlith gwylwyr o gefndiroedd a hunaniaethau lleiafrifol[38].

### 6.1.3. Ymgysylltu cymunedol

Cyfeiriodd nifer o ymgyngoreion (n=5) at enghreifftiau o ymgysylltu cymunedol ehangach a ddaeth yn sgil y prosiectau a ariannwyd. Roedd hyn yn cynnwys cydweithrediadau creadigol â grwpiau diwylliannol lleol, ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddangosiadau a digwyddiadau, a chynnwys busnesau a grwpiau amatur lleol mewn gweithgarwch cynhyrchu:

- Un enghraifft amlwg oedd Lost Boys and Fairies, a wnaeth ymgorffori diwylliant cwiar lleol yn y cynhyrchiad trwy gyflogi perfformwyr drag o Gaerdydd ac aelodau o'r gymuned cwiar fel ecstras, rhoi llwyfan i gerddoriaeth gan 15 o artistiaid lleol, a gweithio mewn partneriaeth â gŵyl ffilm gwiar leol. Fel y nododd un arweinydd cynhyrchu, nid yn unig yr oedd hyn yn rhoi cymorth ariannol i berfformwyr lleol ond roedd hefyd yn helpu i wneud eu cymuned yn fwy gweladwy ar deledu amser brig, gan gyfrannu at gynrychiolaeth ddiwylliannol a balchder.

- Roedd cynyrchiadau eraill yn ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion lleol drwy ddangosiadau cyhoeddus a digwyddiadau rhyngweithiol. Er enghraifft, dangoswyd Kensuke's Kingdom yng Nghaerdydd, gyda sesiwn holi ac ateb ar ôl y sioe yng nghwmni'r cyfarwyddwr a'r tîm creadigol, gan gynnig cyfle i gynulleidfaoedd lleol ymgysylltu â'r cynhyrchiad a dysgu am y broses o greu ffilm.

[37] Diversity and representation in TV and movies and why it matters, 2022
[38] Article, On-Screen Representation Means More Than Just Identity. It's About Context, 2023

- Gwnaeth sawl cynhyrchiad hefyd gynnwys sefydliadau cymunedol a grwpiau amatur. Gweithiodd un cynhyrchiad gyda chwmni drama amatur a chynhaliodd sesiynau allgymorth mewn colegau lleol i godi ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol y tu hwnt i actio a chyfarwyddo. Cydweithiodd un arall â thîm rygbi lleol a chyflogodd artistiaid lleol fel ecstras mewn golygfeydd protest.
- Cyfeiriodd sawl arweinydd cynhyrchu hefyd at arwyddocâd ffilmio ar leoliad o fewn cymunedau yng Nghymru, a arweiniodd at ymgysylltiad anuniongyrchol trwy ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol (e.e. arlwyo, llety a thrafnidiaeth). Mewn rhai achosion, cyfrannodd hyn at ymdeimlad o falchder rhanbarthol gyda thrigolion yn mynegi brwdfrydedd wrth weld tirnodau neu gymunedau cyfarwydd yn cael eu darlunio ar y sgrin.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn dangos sut y gall cynyrchiadau a ariennir gan Gymru Greadigol gynhyrchu manteision diwylliannol a dinesig lleol drwy ymgysylltu â'r gymuned. Mae hyn yn cyfrannu at ymwybyddiaeth well o'r sector, cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol leol, a meithrin canfyddiadau cadarnhaol o'r diwydiannau sgrin ymhlith trigolion a chynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae llenyddiaeth ehangach[39] yn ategu'r safbwyntiau hyn, gan ddangos bod cydlyniant cymdeithasol a’r arfer o annog trafodaeth gyhoeddus yn cael eu meithrin gan gynyrchiadau sy'n integreiddio ymgysylltiad cymunedol ar y sgrin.

### 6.1.4. Amgylcheddau cynhyrchu iachach a mwy diogel

Mae data monitro Cymru Greadigol yn dangos bod pedwar o'r cynyrchiadau a oedd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon wedi cyflogi hwylusydd lles fel rhan o'u criw. Roedd y rôl yn rhan o fenter beilot ehangach, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â CULT Cymru o fis Medi 2022 i fis Mawrth 2023, lle gwnaeth deg cwmni cynhyrchu ledled Cymru ymgorffori hwyluswyr lles i gefnogi iechyd meddwl y cast a'r criw[40]. Yn dilyn y fenter beilot lwyddiannus, mae prosiect yr hwylusydd lles wedi’i ariannu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Bwriad hwyluswyr lles yw hybu lles y rhai sy'n cael eu cyflogi ar gynyrchiadau a helpu i nodi a lliniaru risgiau lles trwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth barhaus. Ar adeg cynnal yr arolwg hwn, roedd y rôl ar gam cynnar o gael ei mabwysiadu. Awgrymodd adborth cychwynnol y gall hwyluswyr lles gyfrannu at amgylchedd gwaith mwy diogel a chynhwysol a gallant gynnig model i’w gyflwyno ar lefel ehangach yn y sector sgrin yng Nghymru.

Astudiaeth Achos: Rôl hwylusydd lles ar gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

Mae'r hwylusydd lles wedi gweithio ar nifer o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol dros y tair blynedd diwethaf, gan ddarparu presenoldeb lles trydydd parti annibynnol a niwtral, a chyfeirio at gymorth proffesiynol. Mae eu cyfrifoldebau fel arfer yn cynnwys datblygu asesiad risg iechyd meddwl a straen ar gyfer cynyrchiadau ymlaen llaw.

[39] America's Youth and Community Engagement - Josh Pasek, Kate Kenski, Daniel Romer, Kathleen Hall Jamieson, 2006 a Production Perspectives on Audience Engagement: Community Building for Current Affairs Television
[40] Gofalu am iechyd meddwl yn y sector Ffilm a Theledu yng Nghymru, 2023

Gallai hyn gynnwys pynciau sensitif neu arbennig o bryfoclyd sy'n gysylltiedig â'r sgript, yr amserlen, neu leoliad y cynhyrchiad.

Disgrifiodd yr hwylusydd lles eu rôl fel un a oedd yn gwella eu datblygiad proffesiynol eu hunain drwy ehangu eu set sgiliau a llywio eu gwaith cynhyrchu gyda phwyslais cryfach ar ddyletswydd gofal. Mae cael eu hymgorffori mewn cynyrchiadau hefyd wedi cynyddu amlygiad i Benaethiaid Adran a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, gan helpu i normaleiddio cynnwys hwyluswyr lles mewn gwaith i'r dyfodol.

"Mae wedi bod yn anhygoel bod yn rhan o'r mudiad hwn, gan wneud i waith weithio'n well i bobl fel y gallan nhw fod ar eu gorau yn y gwaith a chreu amgylchedd lle y gallan nhw wneud hynny."

Cyfeiriodd yr hwylusydd lles hefyd at werth sefydlu 'dolenni adborth lles', sef dull i rannu safbwyntiau ac arferion da yn ddienw o bob cynhyrchiad. Gallai'r rhain gael eu cyfuno i greu canllawiau ac argymhellion i brosiectau'r dyfodol, gan helpu arweinwyr cynhyrchu i ymgorffori gwell arferion iechyd meddwl ar draws y diwydiant.

## 6.2. Cyfraniadau cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol i'r Gymraeg a sut y caiff Cymru ei phortreadu

Mae cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn cefnogi nod strategol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn Cymraeg 2050[41]. Nid yn unig y mae'r iaith Gymraeg yn gonglfaen i hunaniaeth genedlaethol ond mae'n ased diwylliannol sy'n llunio hynodrwydd allbwn creadigol Cymru. Ar draws ymgynghoriadau a data monitro, daw tystiolaeth i'r amlwg fod y cynyrchiadau a ariannwyd yn cyfrannu at welededd a defnydd o'r Gymraeg ar y sgrin ac o fewn amgylcheddau cynhyrchu.

### 6.2.1. Cynrychiolaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig ar y sgrin

Nododd rhai rhanddeiliaid (n=4) fod gwelededd y Gymraeg mewn cynyrchiadau prif ffrwd yn helpu i greu ymwybyddiaeth a diddordeb ymhlith siaradwyr rhugl a dysgwyr. Ystyriwyd bod y math hwn o gynnwys yn sbardun meddal ar gyfer defnyddio'r iaith, gan gefnogi ecosystem ehangach o welededd, balchder a defnydd.

Cyfeiriodd sawl arweinydd cynhyrchu (n=6) at sut mae'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn cael eu hintegreiddio fwyfwy i gynnwys creadigol cynyrchiadau a ariennir, hyd yn oed lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith. Er enghraifft, roedd The Pact a Lost Boys and Fairies yn cyfuno Cymraeg a Saesneg yn eu sgriptiau, gan adlewyrchu realiti dwyieithog bywyd yng Nghymru. Roedd yr ymgyngoreion yn ystyried bod hyn yn rhywbeth sy'n cyfrannu at ddilysrwydd diwylliannol ac yn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar blatfformau prif ffrwd.

Dywedodd y stiwdio animeiddio Bumpybox o Gaerdydd fod eu gwaith ar Tiny Buds, a oedd yn cynnwys acenion Cymreig cryf ac a ddarlledwyd ar S4C ac ITV, wedi cael effaith ddiwylliannol weladwy. Dywedwyd bod y ffaith bod acenion rhanbarthol a lleoliadau Cymreig yn cael eu cynrychioli yn rhywbeth a oedd yn helpu i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig i

[41] Cymraeg 2050: Welsh Language Plan

gynulleidfaoedd ehangach, yn enwedig gwylwyr iau, gan herio stereoteipiau a gwella perthnasedd diwylliannol cyfryngau plant.

### 6.2.2. Galluogi cynyrchiadau Cymraeg a'u dosbarthiad

Ers ei sefydlu, mae Cymru Greadigol wedi cyd-ariannu 10 cynhyrchiad Cymraeg mewn partneriaeth ag S4C, y darlledwr Cymraeg cenedlaethol, sy'n cynrychioli mwy nag un o bob pump o'r 45 cynhyrchiad sydd o fewn cwmpas yr astudiaeth hon. Caiff gwerth economaidd ac enillion ar fuddsoddiad y cynyrchiadau Cymraeg eu cyflwyno yn Adran 3.4.

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi cyfrannu at ddatblygu, darlledu a gwylio ystod eang o gynnwys Cymraeg sy'n cwmpasu genres drama, ffeithiol ac adloniant. Gwnaeth tystiolaeth o asesiad effaith S4C 2022/2023 gan Wavehill ganfod y canlynol[42]:

- Roedd 86% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg yn teimlo bod S4C yn bwysig i'r iaith Gymraeg[43];
- Roedd y gwylwyr yn cydnabod yn eang rôl y sianel wrth hyrwyddo a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg;
- Ystyriwyd bod y cynnwys yn rhywbeth sy'n meithrin balchder diwylliannol ac yn adlewyrchu Cymru fodern, luosog.

Mae cymorth Cymru Greadigol i gomisiynau S4C yn ategu'r canlyniadau hyn, gan ddarparu sefydlogrwydd cyllido a chyfleoedd creadigol i gwmnïau cynhyrchu ddatblygu a chyflawni cynnwys Cymraeg i safon uchel.

### 6.2.3. Y Gymraeg oddi ar y sgrin

Y tu hwnt i gynrychiolaeth ar y sgrin, pwysleisiodd sawl arweinydd cynhyrchu fod cyllid Cymru Greadigol yn cefnogi amgylchedd cynhyrchu Cymraeg y tu ôl i'r camera. Ystyrir y bydd cefnogi siaradwyr Cymraeg ym myd cynhyrchu yn helpu i ddatblygu gweithleoedd dwyieithog, yn galluogi criwiau i weithio yn eu mamiaith, ac yn sicrhau bod manteision economaidd yn cael eu cadw'n lleol. Nododd rhanddeiliaid (n=3) fod galluogi siaradwyr Cymraeg i fyw a gweithio yng Nghymru, yn enwedig mewn sectorau creadigol lle mae allfudo yn gyffredin, yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, sefydlogrwydd cymunedol, a chadwraeth iaith.

Mynegwyd y farn hefyd (n=2) bod cynyrchiadau sy'n gweithio'n ddwyieithog neu'n bennaf yn y Gymraeg yn hybu mwy o falchder yn yr iaith a'r diwylliant ymhlith y cast a'r criw. Amlygwyd hyn gan brentis, a nododd mai "prif fantais y cynhyrchiad oedd eu bod o gwmpas siaradwyr Cymraeg", a wnaeth iddyn nhw "sylweddoli pa mor bwysig yw'r Gymraeg a'u helpu i gysylltu â diwylliant a threftadaeth Cymru".

[42] Report - Assessment of S4Cs Economic and Social Impact 2022-23.pdf
[43] Arolwg Tracio Delwedd S4C 2022–23, Beaufort Research (2023)

### 6.2.4. Portread o Gymru

Gwnaeth rhanddeiliaid sylwadau hefyd ar y ffordd y caiff diwylliant Cymru ei bortreadu ar y sgrin, gan ddweud bod cyllid Cymru Greadigol yn galluogi i straeon a thirweddau Cymru gael eu cynrychioli.

Un effaith allweddol oedd bod lleoliadau Cymru yn fwy gweladwy mewn cynnwys ar y sgrin. Dywedodd ymgyngoreion fod cynyrchiadau fel The Guest, The Pact, Sex Education a Pren ar y Bryn wedi arddangos agweddau gwahanol ar Gymru drwy wneud trefi llai a chefndiroedd yng Nghymru yn fwy gweladwy. O'r herwydd, gwnaeth arweinydd cynhyrchu sylwadau ar y ffaith bod y prosiect yn "crynhoi diwylliant Cymru yn llwyr drwy gynrychioli cefn gwlad a dinasoedd Cymru, sy'n taflu goleuni gwahanol ar Gymru ac yn gynrychioliadol o ddiwylliant gwahanol Cymru". Yn ôl rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â phob cynhyrchiad, mewn rhai achosion roedd i hyn arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol i leoedd fel Dyffryn Gwy (lleoliad ffilmio Sex Education), Ystradgynlais (Pryn ar y Bryn) a'r Rhyl (Hafiach), gan gyfrannu at ymdeimlad cryfach o hunaniaeth leol a mwy o ddiddordeb yn yr ardaloedd hyn gan gynulleidfaoedd ehangach – teimlad yr oedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno ag ef (n=4).

Yn ogystal â chynrychiolaeth ar sail lleoliad, pwysleisiodd yr ymgyngoreion hefyd bwysigrwydd adrodd straeon sy'n adlewyrchu naratifau sy'n nodedig Gymreig. Cyfeiriwyd at gynyrchiadau fel Madfabulous a Gronyn Gobaith - Cymry CERN fel enghreifftiau o "straeon Cymreig sydd heb eu hadrodd" a ddygwyd i'r sgrin drwy gyllid cyhoeddus. Roedd rhanddeiliaid yn cyfeirio'n benodol at Gronyn Gobaith - Cymry CERN am ei ffocws unigryw ar wyddonwyr o Gymru yn CERN ac am hyrwyddo cydweithio gwyddonol trwy'r Gymraeg. Ystyriwyd bod hyn wedi cael effaith ddiwylliannol ac addysgol, yn enwedig o ystyried tangynrychiolaeth cynnwys gwyddoniaeth yn y cyfryngau Cymraeg.

## 6.3. Cyfraniadau amgylcheddol y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

Nod cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yw cefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru. Fel a nodir yng nghanllawiau ymgeisio'r rhaglen[44], un o egwyddorion craidd y cyllid yw blaenoriaethu prosiectau sy'n cyfrannu at nodau lles ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

### 6.3.1. Allyriadau datblygu'r cynyrchiadau

Amcangyfrifir y bydd y cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn cynhyrchu cyfanswm o 33,460 tunnell o gyfwerth â $CO_2$ ($CO_2e$). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynhyrchu uniongyrchol, gwariant y gadwyn gyflenwi leol, ac allyriadau ymgorfforedig o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael o'r tu allan i Gymru.

Mae hyn yn cyfateb i tua 116 tunnell o $CO_2e$ fesul £1 miliwn o wariant cynhyrchu, ffigur sydd 17% yn is na'r meincnod a ddefnyddir ar gyfer dadansoddiad cymharol – Asesiad Carbon

[44] Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar gyfer Gwneud Cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, Mai 2023

Llywodraeth yr Alban o'i chyllideb 2025 i 2026.[45]. Mae hyn yn awgrymu bod gan brosiectau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol ddwyster allyriadau is na'r cyfartaledd.

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon wedi'u modelu sy'n deillio o ddadansoddiad Mewnbwn Allbwn gan ddefnyddio lluosyddion carbon sy'n benodol i'r sector. Er nad oedd adroddiadau manwl gywir ar allyriadau ar lefel prosiect ar gael ar gyfer pob cynhyrchiad, mae'r amcangyfrifon crynswth hyn yn rhoi arwydd defnyddiol o ddwyster carbon ar draws y rhaglen.

### 6.3.2. Cydlynwyr cynaliadwyedd

Mae Cymru Greadigol wedi helpu i integreiddio cydlynwyr cynaliadwyedd i gynyrchiadau a ariannwyd fel rhan o bwyslais cynyddol ar arferion gwaith carbon isel. Mae'r rolau hyn, a ddatblygwyd ar y cyd â rhaglen hyfforddi cydlynwyr cynaliadwyedd Media Cymru, yn galluogi hyfforddeion i gymhwyso'r hyn maen nhw'n ei ddysgu mewn amgylcheddau cynhyrchu byw ac adeiladu rhwydweithiau diwydiant. Caiff y rhaglen ei chyflawni gan arweinydd a chydlynydd cynaliadwyedd llawn amser sydd wedi'u lleoli yn Severn Screen.

Mae cydlynwyr cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori drwy gydol cylchred oes cynhyrchiad, gan nodi cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd gan ddau randdeiliad yn cynnwys:

- Partneru â sefydliadau lleol i ailddefnyddio neu gompostio gwastraff bwyd;
- Caffael cyflenwyr a gwasanaethau yn lleol i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth;
- Rhoi gwisgoedd a deunyddiau nas defnyddiwyd i grwpiau cymunedol ar ôl cynhyrchu.

Yn arbennig, mae cynyrchiadau uchel eu proffil fel Havoc, a dderbyniodd gyllid gan Gymru Greadigol, wedi dangos potensial y rôl i wella cynaliadwyedd cynhyrchu yn ymarferol.

### 6.3.3. Bargen Newydd y Sgrin

Mae datblygiad rôl y cydlynydd cynaliadwyedd yn cyd-fynd yn agos â Bargen Newydd y Sgrin: Cynllun Trawsnewid Cymru, y BFI,  sy'n darparu map ffordd strategol i drawsnewid y sector sgrin tuag at sero net. Mae'r cynllun hwn, a gyhoeddwyd yn 2023, yn adeiladu ar gynllun gwreiddiol Screen New Deal (2020) ar gyfer y DU gyfan ac fe'i harweiniwyd ar y cyd gan Gymru Greadigol, mewn partneriaeth ag Arup, y BFI, Ffilm Cymru Wales, a Media Cymru.

Roedd cynhyrchiad 'Havoc' yn astudiaeth achos gynnar yn y broses drawsnewid hon. Roedd elfennau a ddysgwyd o'r gwaith o gydlynu cynaliadwyedd y cynhyrchiad yn bwydo i mewn yn uniongyrchol i'r cynllun, gan ddangos sut y gellir rhoi arferion gorau amgylcheddol ar waith ar gynyrchiadau ar raddfa fawr. Mae'r cydgysylltu hwn rhwng cyllid, ymarfer a

[45] Mae adroddiad cyllideb carbon Llywodraeth yr Alban yn awgrymu, am £63.5 biliwn o wariant, eu bod yn cynhyrchu 8.9 miliwn tunnell o garbon – sy'n cyfateb i 140 tunnell o $CO_2e$ am bob £ miliwn o wariant

pholisi yn cynnig model y gellir ei atgynhyrchu er mwyn ymgorffori cynaliadwyedd o fewn seilwaith sgrin Cymru.

### 6.3.4. Cyfraniadau amgylcheddol ehangach

Tynnodd nifer o randdeiliaid (n=13) sylw at y ffaith bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan bwysig o'r broses ymgeisio am gyllid a bod cynyrchiadau a allai ddangos cyfraniadau wedi cael eu hystyried yn fwy ffafriol – nid yn unig roedd hyn yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd ond fe wnaeth hefyd annog newid ymddygiad:

- **Ardystiad BAFTA Albert** - un o'r prif ffyrdd y gwnaeth y cynyrchiadau ddangos eu cyfraniadau amgylcheddol oedd trwy ennill ardystiad BAFTA Albert. Mae ardystiad Albert yn cynnwys cwblhau cyfrifiannell ôl troed carbon i ragweld allyriadau ac i fod yn feincnod ar gyfer cynyrchiadau’r dyfodol. Mae'r broses hefyd yn cynnwys cael eich paru ag aelod o dîm Albert yn BAFTA, a fydd yn cynnig cyfres o argymhellion i'r cynhyrchiad i leihau ei effaith amgylcheddol. Roedd pob arweinydd cynhyrchu yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn gweithio ar gynyrchiadau a oedd wedi derbyn ardystiad Albert.

- **Gweithredu arferion cynaliadwy -** nododd sawl rhanddeiliad (n=7) eu bod eisoes wedi gweithredu llawer o'u hargymhellion, gan gynnwys defnyddio fflyd o gerbydau trydan a generaduron ar wahân i ddiesel ar gyfer cynyrchiadau, gwahardd plastigau untro ar y set a defnyddio arlwywyr fegan i leihau ôl troed carbon eu defnydd o fwyd.

- **Adrodd straeon amgylcheddol ac ymwybyddiaeth y gynulleidfa** - cyfeiriodd dau ymgynghorai hefyd at rôl cynnwys wrth hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol. Ystyriwyd bod gan gynyrchiadau sy'n ymgorffori themâu cynaliadwyedd neu'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r hinsawdd effaith ddeuol, trwy arferion gweithredol a thrwy gyfrannu at drafodaeth gyhoeddus ar yr amgylchedd.

<u>Astudiaeth Achos: Rôl cydlynydd cynaliadwyedd ar gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol</u>

Fel rhan o'u rôl, mae'r cydlynydd cynaliadwyedd yn sicrhau bod cynyrchiadau'n dilyn Ardystiad Albert, gan gymryd camau i leihau allyriadau carbon ac ymgysylltu ag aelodau'r criw ar arferion gwaith cynaliadwy – gan gynnwys defnyddio cadwyni cyflenwi gwyrdd fel gwestai a llety sy'n cael eu rhedeg ar 100% ynni gwyrdd a chanfod darparwyr lleol sy'n dilyn arferion amgylcheddol a'u rhoi mewn cysylltiad ag arweinwyr cynhyrchu.

Ar Havoc, cyflwynodd y cydlynydd cynaliadwyedd rai datblygiadau arloesol i wella perfformiad amgylcheddol y prosiect:

- **Rheoli gwastraff bwyd:** partneru â safle treulio anaerobig yn y cymoedd i drosi gwastraff bwyd yn fionwy a gwrtaith;

- **Seilwaith ynni:** gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n defnyddio 100% ynni gwyrdd;

- **Ailgylchu ac ailddefnyddio:** cydlynu camau i roi deunyddiau a phropiau i gwmni gofal plant lleol, ysgolion a cholegau; a defnyddio cyflenwr lleol i ailgylchu polystyren.

O ganlyniad i'r arferion hyn, derbyniodd y cynhyrchiad gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi gan sefydliad Clwstwr i alluogi prosiect Maximising Havoc—astudiaeth fanwl o'r technegau creu ffilm cynaliadwy a ddefnyddiwyd ar Havoc i rannu a gwreiddio gwersi a systemau ar gyfer cynyrchiadau’r dyfodol.


Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, derbyniodd Severn Screen gyllid ychwanegol gan Media Cymru i lansio rhaglen hyfforddi cydlynwyr cynaliadwyedd, a hyfforddodd chwe unigolyn i gynorthwyo arferion cynhyrchu sy'n gyfrifol am yr amgylchedd. Roedd lleoliadau gwaith yn y diwydiant a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn ategu hyn.

Mae cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a nodau cynaliadwyedd ehangach (y Cenhedloedd Unedig) wedi cryfhau cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol cynhyrchu. Yn benodol, mae cyllid Cymru Greadigol wedi cyfrannu at ymgorffori'r gwerthoedd hyn mewn arferion gweithredol, gan helpu i oresgyn rhwystrau traddodiadol yn y sector, megis cyllidebau tynn a natur gyflym cynhyrchu.

# 7. Astudiaethau achos

Mae'r bennod hon yn cyflwyno pedair astudiaeth achos, gan dynnu tystiolaeth feintiol ac ansoddol ynghyd, i ddangos ac archwilio'n fanylach gyfraniadau economaidd ac ehangach y prosiectau a ariannwyd gan Gymru Greadigol.

## 7.1. Sex Education, Eleven Films




Sex Education, cyfres wreiddiol arobryn Netflix a gynhyrchwyd gan Eleven Films, oedd un o'r cynyrchiadau cyntaf i dderbyn cymorth gan Gymru Greadigol (o dan ei strwythur flaenorol yn Llywodraeth Cymru) yn 2018. Denwyd y cynhyrchiad i Gymru nid yn unig oherwydd tirweddau hardd ac unigryw Dyffryn Gwy yn Sir Fynwy, ond hefyd oherwydd bod gweithlu medrus a dibynadwy a seilwaith cynhyrchu eisoes ar gael yng Nghymru.

Dywedodd y tîm cynhyrchu fod cyllid rhanbarthol Cymru Greadigol yn hanfodol wrth gau bwlch yn y cynllun cyllido, a wnaeth helpu i sicrhau mai Dyffryn Gwy fyddai'r prif leoliad ffilmio. Roedd hyn yn cefnogi gweledigaeth greadigol Eleven o osod y sioe mewn "lleoliad cyfrinachol, hynod a dirgel i'r gwylwyr" gan alluogi'r cynhyrchiad cyfan i aros yng Nghymru.

Gwnaeth cymorth Cymru Greadigol hwyluso manteision eang yn economaidd ac o ran y gweithlu, wrth i bob cyfres gyflawni mwy o werth am arian a darparu cyfleoedd i'r criw ddatblygu. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau'r cyllid cynhyrchu, gan sicrhau gwell enillion ar fuddsoddiad o gyfresi dilynol. Roedd mwyafrif y criw a'r gweithwyr llawrydd a gyflogwyd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac roedd y cynhyrchiad yn dibynnu'n fawr ar gyflenwyr lleol, gan gynnwys y rhai ym meysydd llety, arlwyo, cludiant a llogi offer. Rhoddodd hyn hwb i'r galw ar draws y gadwyn gyflenwi ranbarthol.

Cyfanswm y gwariant cynhyrchu cyfunol ar gyfer y drydedd a'r bedwaredd gyfres oedd £16.9 miliwn, gyda Chymru Greadigol yn cyfrannu £1.0 miliwn, sy'n cyfateb i 6% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod y buddsoddiad hwn wedi cefnogi £9.6 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a 170 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Wrth gynnwys effeithiau ysgogedig, mae'r cyfanswm yn codi i £31.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 180 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Yn ogystal â manteision economaidd a chyflogaeth uniongyrchol, gwnaeth Sex Education chwarae rhan allweddol hefyd yn natblygiad y gweithlu trwy gynllun hyfforddeion pwrpasol a weithredwyd gan Eleven Film. Wedi'i gynnal mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, roedd y cynllun, a oedd yn ceisio ehangu sylfaen criw Cymru ar gyfer cynyrchiadau posibl yng Nghymru yn y dyfodol, yn paru hyfforddeion â mentoriaid ac yn dilyn eu cynnydd drwy gydol eu hamser yn y brifysgol. Gwnaeth Netflix gynorthwyo'r cydweithrediad hwn drwy gynnal sgyrsiau wyneb yn wyneb a sesiynau holi ac ateb, gan godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y diwydiant ymhlith newydd-ddyfodiaid ar gamau cynnar yn eu gyrfa.

Bu Eleven Film hefyd yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Sgil Cymru a 6ft From the Spotlight, i gael mynediad at hyfforddeion a hwyluswyr lles. Blaenoriaethwyd ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ac unigolion ag anableddau cudd. Prif nod y system oedd i'r hyfforddeion fynd i mewn i swyddi â chyflog uwch a mwy medrus ar ôl cwblhau'r cynllun, gyda chefnogaeth lawn mentoriaid ac amgylchedd cynhyrchu iach.


Nod y cynllun hyfforddeion oedd darparu llwybr i rolau medrus ar gyfer talent lleol. Yn ôl y tîm cynhyrchu, mae llawer o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i gael gwaith pellach yn niwydiannau creadigol Cymru, gan gyfrannu at ddatblygu gweithlu mwy cynaliadwy ac amrywiol. Galluogwyd hyn gan y cyfresi dilynol y gwnaeth cyllid Cymru Greadigol helpu i'w hwyluso, gan ddarparu cyfleoedd i lawer o hyfforddeion symud ymlaen yn eu gyrfa a darparu contractau tymor hwy gan feithrin mwy o brofiad a datblygiad gyrfa.

Roedd effaith ddiwylliannol y gyfres hefyd yn sylweddol. Mae Sex Education wedi cael canmoliaeth eang am y modd y mae'n adrodd straeon cynhwysol, gyda naratifau ar y sgrin yn archwilio hunaniaethau rhywedd, rhywioldeb a phrofiadau bywyd amrywiol. Oddi ar y sgrin, mae'r sioe wedi cael effaith nodedig ar dwristiaeth yn Nyffryn Gwy, gan ennyn mwy o ddiddordeb yn ei lleoliadau ffilmio ymhlith ymwelwyr domestig a rhyngwladol. Gyda dros 20 miliwn o wylwyr byd-eang, mae Sex Education wedi gwneud cefn gwlad de Cymru yn sylweddol fwy gweladwy ar y llwyfan rhyngwladol, gan gyfrannu at dwristiaeth ddiwylliannol a chanfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gynhyrchu nodedig a dymunol.

**Gwersi Allweddol:**

- Roedd cyllid Cymru Greadigol yn allweddol wrth gau'r bwlch ariannu a sicrhaodd mai Cymru fyddai'r lleoliad ffilmio.
- Darparodd y cynhyrchiad fanteision economaidd lleol sylweddol, gan gynyddu gwerth am arian ar gyfer pob cyfres ddilynol, a chyflogi criw a gweithwyr llawrydd o Gymru, yn ogystal â chyflogi ystod eang o gyflenwyr rhanbarthol.
- Gwnaeth cynllun hyfforddeion pwrpasol, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a gyda chefnogaeth Netflix, helpu i feithrin ffrwd o dalent medrus o Gymru.
- Roedd y cynhyrchiad yn mynd ati'n fwriadol i gynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ac unigolion ag anableddau cudd.
- Enillodd y gyfres gydnabyddiaeth ryngwladol am y modd y mae'n adrodd straeon cynhwysol, gan hefyd hybu twristiaeth yn Nyffryn Gwy.

## 7.2. Willow, Lucasfilm




Yn seiliedig ar y ffilm o'r un enw o 1988, mae Willow yn gyfres deledu antur ffantasi a gynhyrchwyd gan Lucasfilm ar gyfer Disney+. O ystyried genre'r gyfres, roedd cynhyrchwyr Willow yn chwilio am leoliad a oedd yn cynnig tirweddau canoloesol a ffantasi ar gyfer ffilmio, yn ogystal â chyfleusterau cynhyrchu o ansawdd uchel gerllaw. Roedd chwiliadau cychwynnol wedi dod o hyd i sawl lleoliad yn nwyrain Ewrop. Fodd bynnag, sicrhaodd cyllid gan Gymru Greadigol, ynghyd ag addasrwydd y lleoliad, y byddai cynhyrchu Willow yng Nghymru yn arwain at ansawdd uchel a hyfywedd ariannol.

Diolch i gefnogaeth a chyllid gan Gymru Greadigol, llwyddodd Lucasfilm i leoli ei hun yn Dragon Studios ym Mhencoed am gyfnod y cynhyrchiad. Sicrhaodd cyllid Cymru Greadigol hefyd fod llawer o gyfleoedd i weithio ar Willow wedi'u cynnig i weithwyr Cymru, gyda 69% o'r gweithlu wedi'u lleoli yng Nghymru.

Gwnaeth cynhyrchiad Willow hefyd gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i'r sector creadigol, gyda rhaglen hyfforddeion fewnol Lucasfilm yn cofrestru 25 o bobl leol i weithio ar draws pob un o'r adrannau. Bu Lucasfilm hefyd yn cydweithio â Little People UK, gan ddefnyddio cydlynwyr hygyrchedd i sicrhau bod setiau a lleoliadau ffilmio yn hygyrch i'r cast a'r criw. Gwnaeth busnesau o Gymru elwa’n sylweddol o'r cynhyrchiad hefyd, gan wasanaethu fel prif gyflenwyr allweddol i Lucasfilm, yn enwedig ym meysydd adeiladu setiau, cludiant ac arlwyo.

Roedd gwariant cynhyrchu Willow yn gyfanswm o £51.8 miliwn, gyda Chymru Greadigol yn cyfrannu £4.7 miliwn, sy'n cyfateb i 9% o gyfanswm y gwariant. Amcangyfrifir bod y buddsoddiad hwn wedi cefnogi £31.2 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a 550 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Wrth gynnwys effeithiau ysgogedig, mae'r cyfanswm yn codi i £34.5 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 580 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Yn gyffredinol, roedd Lucasfilm yn hynod o gadarnhaol am eu profiad o weithio gyda Chymru Greadigol, Dragon Studios a'r diwydiannau creadigol ehangach ledled Cymru, gan dynnu sylw at eu harbenigedd a'u proffesiynoldeb. Ers Willow, mae Lucasfilm wedi defnyddio lleoliadau ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ffilmio golygfeydd ar gyfer The Acolyte, cyfres deledu Star Wars. Mae llawer o weithwyr llawrydd o Gymru wedi parhau i weithio ar gynyrchiadau eraill Lucasfilm ledled y DU, gan gynyddu eu hamlygrwydd a'u profiad ymhellach o fewn y sector.

**Gwersi Allweddol:**

- Gwnaeth cyllid Cymru Greadigol sicrhau y byddai cynhyrchu Willow yng Nghymru yn hyfyw yn ariannol ac roedd yn ffactor yn ehangiad Dragon Studios.
- Roedd bron i dri chwarter o weithlu Willow wedi'u lleoli yng Nghymru.
- Mae Lucasfilm wedi parhau i ddefnyddio lleoliadau Cymru ar gyfer eu gwaith ac wedi defnyddio talent o Gymru ar gyfer cynyrchiadau ledled y DU.

## 7.3. The Pact, Little Door




Cyfres ddrama amser brig yw The Pact a gomisiynwyd gan BBC Cymru ac a gynhyrchwyd gan Little Door o Gaerdydd. Fel drama gymhleth ac uchelgeisiol wedi'i lleoli yng Nghymru, roedd y prosiect yn wynebu bwlch ariannu yn ei gamau cynnar. Roedd cyllid gan Gymru Greadigol yn hanfodol i gau'r bwlch hwn a galluogi'r gyfres i fynd ymlaen i gael ei chynhyrchu. Gwnaeth y buddsoddiad gwblhau'r pecyn ariannu, gan ddarparu'r darn olaf o'r cynllun ariannu a alluogodd y cynhyrchwyr i ryddhau cyd-gyllid gan stiwdio Lionsgate o'r Unol Daleithiau, sicrhau partneriaeth strategol gyda Gorilla TV, a thynnu ecwiti uniongyrchol i lawr gan Little Door. Gwnaeth hyn sicrhau bod Cyfresi 1 a 2 yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

Gwnaeth y cynhyrchiad hefyd helpu i feithrin a chryfhau perthnasoedd allweddol ar draws diwydiannau creadigol Cymru. Yn nodedig, gweithiodd Little Door mewn partneriaeth â Gorilla TV o Gaerdydd ar gyfer y gwaith ôl-gynhyrchu, gan atgyfnerthu perthynas a arweiniodd at gydweithrediadau pellach ar Gyfres 2 a phrosiectau dilynol. Daethpwyd ag awdur o Gymru a oedd eisoes yn adnabyddus i'r cwmni i mewn i The Pact, gan ddenu sylw newydd a darparu cyfle i gynnwys talent lleol ymhellach mewn gwaith datblygu i'r dyfodol. Dychwelodd y brif actores Rakie Ayola yng Nghyfres 2 nid yn unig fel perfformiwr ond hefyd fel Cynhyrchydd Gweithredol, gan ddangos rôl y cynhyrchiad wrth ddatblygu arweinyddiaeth greadigol.

Gwnaeth y cynhyrchiad hefyd gefnogi nifer o fentrau hyfforddi a chynhwysiant, gan gynnwys lleoliadau gwaith trwy ScreenSkills, Make a Move, a rhaglen Troed yn y Drws, Ffilm Cymru. Ar draws y ddwy gyfres, enillodd hyfforddeion brofiad ymarferol ar draws adrannau fel colur, sain a chynhyrchu. Bu'r tîm hefyd yn cynnal gweithdai mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru, gan gynnig cipolwg ar gyllid a chynllun cynhyrchu'r sioe. Cafwyd cymorth i recriwtio i'r rolau hyfforddi drwy Gyswllt Diwylliant Cymru, gan helpu i sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol ymhlith y criw.

Ynghyd â hyn, egwyddor graidd i The Pact oedd amrywiaeth ar ac oddi ar y sgrin, yn unol â gwerthoedd craidd Little Door ac yn tystio i'r Penaethiaid Adrannau o Gymru yn Little Door ar The Pact. Roedd y gyfres yn cynrychioli Cymru yn ddilys trwy gyfuno tirweddau trefol a gwledig a thrwy ymgorffori deialog ddwyieithog, gyda chymeriadau'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn naturiol. Roedd hyn yn adlewyrchu realiti ieithyddol bywyd yng Nghymru ac yn cyfrannu at normaleiddio'r iaith Gymraeg mewn drama deledu brif ffrwd.

O ran amrywiaeth y cast, nodwedd amlwg o'r sioe oedd cynnwys teulu cyfan o Gymry Du fel y teulu canolog yng Nghyfres 2. Rhoddodd y sioe gyfle i'r actores o Gymru, Abbey Hearn, ymgymryd â'i rôl fawr gyntaf ar ôl graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Roedd y rôl hon yn caniatáu iddi actio ochr yn ochr â thalent amrywiol, gan gynnwys actorion Du a hil gymysg eraill, mewn drama Gymreig, gan gyfrannu at gynrychiolaeth ehangach i leisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar deledu Cymru.

Parhaodd y ffilmio am 145 diwrnod ledled Cymru ar gyfer Cyfresi 1 a 2 o The Pact, gyda chriw o Gymru yn cyfrif am rhwng 79% ac 87% o'r gweithlu cynhyrchu. Cyfanswm y gwariant cynhyrchu cyfunol ar gyfer y ddwy gyfres oedd £12.6 miliwn, a chyfrannodd Cymru Greadigol £1.0 miliwn o hyn, sy'n cyfateb i 8% o gyfanswm y gwariant. Amcangyfrifir bod y buddsoddiad hwn wedi cefnogi £6.7 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a 120 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Wrth gynnwys effeithiau ysgogedig, mae'r cyfanswm yn codi i £7.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 130 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Er bod data daearyddol yn cwmpasu tua 66% o'r gwariant oherwydd cyfyngiadau yn sgil ansawdd y data, mae'n dangos bod 75% o'r gwariant cynhyrchu wedi digwydd yng Nghaerdydd, lle mae Little Door wedi'i leoli. Roedd y 25% sy'n weddill wedi'i ddosbarthu ar draws 11 awdurdod lleol arall yng Nghymru, gyda Rhondda Cynon Taf (11%), Bro Morgannwg (4%), a Chaerffili (2%) yn derbyn cyfrannau nodedig. Gwnaeth ardaloedd eraill, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, a Sir Gaerfyrddin, hefyd elwa o wariant lleol. Mae'r patrwm gofodol hwn yn tynnu sylw at rôl y cynhyrchiad wrth gefnogi clwstwr creadigol sefydledig Caerdydd tra'n cyfrannu hefyd at yr economi ranbarthol ehangach ledled de Cymru.

**Gwersi Allweddol:**

- Roedd cyllid Cymru Greadigol yn hanfodol ar gyfer cau'r bwlch cyllido yn y prosiect hwn.
- Gwnaeth y cynhyrchiad hefyd helpu i feithrin a chryfhau perthnasoedd allweddol ar draws diwydiannau creadigol Cymru.
- Daeth y cynhyrchiad i fod yn llwyfan effeithiol ar gyfer datblygu talent cynhwysol trwy integreiddio rhaglenni hyfforddi a phartneriaethau sy'n cynnig mynediad cynhwysol at brofiad ymarferol yn y sector.
- Roedd y cynhyrchiad yn mynd ati'n ymwybodol i arddangos Cymru amrywiol.

## 7.4. Tŷ Gwydr, Little Bird



Cyfres deledu realiti chwe rhan yn y Gymraeg yw Tŷ Gwydr a gomisiynwyd gan S4C ac a gynhyrchwyd gan Little Bird. Wedi'i thargedu at gynulleidfa Cenhedlaeth Z, mae'r sioe'n cyfuno adloniant â themâu amgylcheddol, gan gyflwyno stori 'eco drosedd' ym mhob pennod. Gwnaeth cyllid Cymru Greadigol alluogi Little Bird i gynhyrchu ei fformat teledu cyntaf erioed mewn arddull realiti, gan ehangu portffolio creadigol a gallu cynhyrchu'r cwmni.

Chwaraeodd cyllid Cymru Greadigol rôl hanfodol wrth sicrhau bod y cynhyrchiad yn cael ei gyflawni'n ddiogel. Yn ôl yr arweinydd cynhyrchu, roedd y cyllid yn galluogi recriwtio digon o griw, a thrwy hynny osgoi dibyniaeth ar griw sgerbwd. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn bodloni gofynion iechyd a diogelwch, yn enwedig o ystyried yr heriau o ffilmio yn lleoliadau anghysbell Hidden Valley Yurts a Lake House yng Nghas-gwent. Creodd y cynhyrchiad fuddion economaidd uniongyrchol i'r ardal drwy ffioedd lleoliadau a phartneriaethau cyflenwyr. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda grŵp gwehyddu gwlân lleol a chwmni antur awyr agored, a ddarparodd rafftiau ac offer pwrpasol ar gyfer golygfeydd a ffilmiwyd ar lyn cyfagos.

Roedd gwariant cynhyrchu Tŷ Gwydr yn gyfanswm o £372,000 miliwn, gyda Chymru Greadigol yn cyfrannu £62,000, sy'n cyfateb i 17% o gyfanswm y gwariant. Amcangyfrifir bod y buddsoddiad hwn wedi cefnogi £185,000 mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol a 4 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Wrth gynnwys effeithiau ysgogedig, mae'r cyfanswm yn codi i £206,000 mewn gwerth ychwanegol gros.

Er bod data daearyddol yn cwmpasu tua 85% o'r gwariant oherwydd cyfyngiadau yn sgil ansawdd y data, mae'n dangos bod 44% o'r gwariant cynhyrchu wedi digwydd yng Nghaerdydd, lle mae Little Bird wedi'i leoli. Roedd y 56% sy'n weddill wedi'i ddosbarthu ar draws 12 awdurdod lleol arall yng Nghymru, gyda Bro Morgannwg (17%), Gwynedd (11%), a Sir Gaerfyrddin (9%) yn derbyn cyfrannau sylweddol. Mae'r ôl troed gofodol hwn yn dangos sut y gall cynyrchiadau ar raddfa gymharol fach ddarparu gwerth economaidd eang ar draws sawl rhanbarth o Gymru, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig a lled-wledig.

Gwnaeth y prosiect hefyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio. Cafodd hwylusydd lles, a ariannwyd drwy CULT Cymru, ei gynnwys yn rhan o’r cynhyrchiad, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o rolau lles ymhlith y criw a’r cyfranwyr. Yn dilyn y profiad, cadarnhaodd Little Bird gynlluniau i ddefnyddio hwylusydd lles ar brosiectau yn y dyfodol. Roedd y cynhyrchiad hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi, gan ddod â chriw newydd i’r gweithlu, gan gynnwys aelod lleol o griw y mae’r cwmni’n bwriadu ei ail-gyflogi, a rhoddodd y cyfle cyntaf i’r cyfarwyddwr weithio ar deledu realiti yng Nghymru.

I gyfranwyr ar y sgrin, gwnaeth Tŷ Gwydr helpu i godi eu proffil trwy blatfform Hansh S4C. Y tu ôl i'r camera, roedd y cynhyrchiad yn darparu cyfleoedd i’r criw wneud cyfraniadau creadigol ystyrlon, gan gynnwys cydweithio’n agos â chyfarwyddwr y gyfres. Roedd y profiad a gafwyd yn arbennig o werthfawr i'r rhai a oedd yn dechrau yn genre teledu realiti neu'n pontio i'r genre.

Roedd cynaliadwyedd yn thema graidd i'r gyfres a'r cynhyrchiad ei hun. Gwnaeth Little Bird, sy'n adnabyddus am eu gwerthoedd amgylcheddol ymwybodol, ddefnyddio’r sioe i hybu ymddygiadau mwy gwyrdd trwy linellau stori ac arferion cynhyrchu. Ochr yn ochr â'u chwaer gwmni Green Wing, mae Little Bird yn datblygu ap rheoli ôl troed carbon ar gyfer cwmnïau cynhyrchu, wedi'i lywio'n rhannol gan eu gwaith ar Tŷ Gwydr.

Yn gyffredinol, mae Tŷ Gwydr yn enghraifft lwyddiannus o gyllid Cymru Greadigol yn galluogi arloesedd mewn cynnwys Cymraeg, yn cefnogi datblygiad genres cynhyrchu newydd, ac yn ymgorffori arferion cynaliadwy ac egwyddorion lles yn y cyflawni. Mae’r gyfres wedi helpu i dyfu capasiti sectoraidd mewn meysydd creadigol a gweithredol gan gyfrannu at welededd diwylliant Cymru ac ymwybyddiaeth amgylcheddol ar y sgrin.

**Gwersi Allweddol:**

- Bu cyllid Cymru Greadigol o gymorth i gyflwyno genre cynhyrchu newydd yn ddiogel.
- Gwnaeth y prosiect hefyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio drwy ymgorffori hwylusydd lles, a osododd gynsail ar gyfer cynyrchiadau i’r dyfodol.
- Roedd themâu amgylcheddol yn ganolog i'r stori a'r arferion cynhyrchu, sydd wedi cyfrannu at ddatblygu ap rheoli ôl troed carbon ar gyfer cwmnïau cynhyrchu.

# 8. Adolygiad o’r cyd-destun

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol a diwydiannol ehangach y mae rhaglen Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol wedi gweithredu ynddo ers ei sefydlu yn 2020. Mae'n archwilio'r effeithiau economaidd parhaus sy'n deillio o ffactorau allanol fel pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw, ac ymadawiad y DU o'r UE, gan asesu sut mae'r rhain wedi dylanwadu ar gyflawni cynyrchiadau a ariannwyd a'u canlyniadau economaidd ehangach. Y pwrpas yw darparu dealltwriaeth a llinell sylfaen ehangach y gellir deall ac asesu effeithiau'r rhaglen yn ei herbyn.

## 8.1. Ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ffurfiol, llofnododd y DU a'r UE y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar 31ain Rhagfyr 2020. Nid yw'r cytundeb yn caniatáu'r un rhyddid i'r DU ag a oedd ganddi fel aelod-wladwriaeth, ac mae i hyn oblygiadau i fusnesau, gan gynnwys ynghylch recriwtio (diwedd y rhyddid i symud).

Oherwydd dibyniaeth y diwydiannau creadigol ar weithwyr llawrydd, mae Brexit wedi cael effaith negyddol anghymesur ar allu'r diwydiannau i gyflogi talent tramor oherwydd y rhwystrau newydd i'r farchnad sengl. Mae dod â rhyddid gweithwyr i symud i ben, polisïau fisa llymach, a system fudo fwy cymhleth wedi cynyddu'r gost a'r anhawster i ddiwydiannau creadigol y DU gyflogi gweithwyr o'r UE, gan arwain at ostyngiad yn nifer y gweithwyr o'r UE y maen nhw'n eu cyflogi[46].

Gwnaeth sawl rhanddeiliad, gan gynnwys arweinwyr cynhyrchu (n=7), dynnu sylw at y ffaith bod y ffioedd gweinyddu a’r ffioedd cysylltiedig uwch wedi arwain at gostau uwch ar gyfer recriwtio gweithwyr llawrydd ac aelodau criw, ac ar gyfer cludo cit ac offer o'r UE. Gallai'r beichiau biwrocrataidd hyn leihau os ceir cytundeb ar gynllun symudedd posibl rhwng y DU a'r UE[47].

## 8.2. Pandemig COVID-19

Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar y diwydiannau creadigol, yn enwedig mewn sectorau sy'n dibynnu ar weithleoedd ffisegol, offer arbenigol, ac amgylcheddau cydweithredol fel maes cynhyrchu ffilm a theledu. Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid (n=13) at y ffaith bod cyfyngiadau symud a mynediad i'r gweithle, ynghyd â chyfyngiadau iechyd a diogelwch a chostau cynyddol cynlluniau wrth gefn, wedi arwain at aflonyddwch eang ac, mewn llawer o achosion, at roi'r gorau i weithgarwch ffilmio yn gyfan gwbl.

Rhwng chwarter 4 2019 a chwarter 2 2021, crebachodd allbwn ar draws diwydiannau creadigol y DU 37% mewn termau real[48]. Gwnaeth y gostyngiad sydyn hwn mewn gweithgarwch cynhyrchu leihau’r gwaith oedd ar gael yn sylweddol, gan arwain at golledion incwm a chyflogaeth eang i weithwyr llawrydd ac aelodau criw, sy'n cynrychioli cyfran

---

46 Post-Brexit migration and accessing foreign talent in the Creative Industries, Creative Industries Policy & Evidence Centre, 2023
47 News Story- New Agreement with EU to benefit British People, 2025
48 Impact of government policy on the creative sector, 2021

sylweddol o weithlu'r sector. Cyfrannodd hyn at ostyngiad o 13% mewn gwerth ychwanegol gros rhwng 2019 a 2020 yn is-sector ffilm, teledu, radio a ffotograffiaeth y DU[49].

## 8.3. Pwysau chwyddiant

Mae Banc Lloegr wedi adrodd bod ailagor economïau byd-eang yn dilyn pandemig COVID-19 wedi arwain at brisiau ynni cynyddol ac at gamau cynnar pwysau chwyddiant[50]. Roedd y rhain yn arbennig o ddifrifol mewn sectorau fel bwyd, deunyddiau crai, a chynhyrchion amaethyddol, gyda chwyddiant y DU yn cyrraedd uchafbwynt o 11.1% yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2022[51].

Roedd llawer o randdeiliaid (n=10) yr ymgynghorwyd â nhw yn yr astudiaeth hon yn cyfeirio’n gyson at bwysau ariannol parhaus yn deillio o'r pandemig, Brexit, a'r argyfwng costau byw ehangach. Mae costau cynhyrchu uchel yn parhau, yn enwedig yn achos mewnbynnau fel offer, yswiriant, llogi lleoliadau, llety, tanwydd a chyfraddau criw. Soniodd rhanddeiliaid yn benodol am gyfyngiadau cyllidebol parhaus oherwydd costau cyffredinol cynyddol a chostau benthyca uwch, a waethygwyd gan gyfraddau llog uwch. Mae hyn wedi arwain at gyllidebau cynhyrchu tynnach, criwiau llai, addasiadau mewn lleoliadau ffilmio i leihau gwariant, a lleihad cyffredinol o ran elfennau mwy uchelgeisiol neu gostus y prosiectau. At hynny, roedd rhanddeiliaid yn cysylltu’r cynnydd parhaus hwn mewn costau yn uniongyrchol â gostyngiad mewn gweithgarwch comisiynu, gan nodi nad yw cyllidebau cynhyrchu wedi dychwelyd i’r normau cyn y pandemig.

Mae pwysau chwyddiant hefyd wedi creu rhwystrau mynediad sylweddol i unigolion sy'n awyddus i ymuno â'r diwydiannau creadigol neu aros ynddynt. Mae costau byw cynyddol wedi ei gwneud hi'n gynyddol anodd i weithwyr proffesiynol sydd ar ddechrau eu gyrfa, yn enwedig gweithwyr llawrydd a'r rhai mewn rolau hyfforddi, gynnal eu hunain mewn swyddi lefel mynediad â chyflog isel neu ddi-dâl[52]. Canfu adroddiad gan Creative Access (2023) fod 82% o weithwyr presennol neu rai sy’n dyheu i weithio yn y diwydiannau creadigol wedi crybwyll yr argyfwng costau byw fel rhwystr sylweddol i gael mynediad i’r sector neu symud ymlaen ynddo[53].

## 8.4. Marchnad sy'n esblygu ac arferion gwylio ffilm a theledu

Ymatebodd diwydiant ffilm a theledu’r DU yn gryf i bandemig COVID-19 yn 2021, gyda’r buddsoddiad uchaf erioed mewn cynhyrchu yn cyrraedd £5.6bn[54]. Yng Nghymru, gwnaeth Cymru Greadigol gynorthwyo camau i ddychwelyd i gynhyrchu drwy ei fuddsoddiad yn ail gyfres War of the Worlds, sef y ddrama deledu gyntaf ar ben uchaf y farchnad i ddechrau ffilmio o dan ganllawiau diogelwch COVID-19 newydd a sefydlwyd gan Gomisiwn Ffilm

---

49 University of Birmingham, The economic impact of COVID-19 on the creative industries, 2023
50 UK inflation since the pandemic: How did we get here and where are we going?, Speech by Jonathan Haskel, 2023
51 Ibid.
52 Creative Mentor Network, The Cost of the Cost of Living on Creativity
53 Significant Cost Barrier in Creative Industries, 2023
54 The Guardian News Article, UK film and TV industry bounces back from Covid with record £5.6bn spend

Prydain. Gwnaeth Cymru Greadigol hefyd helpu i lunio'r canllawiau pwysig hyn, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer cynyrchiadau sy'n ffilmio yng Nghymru.

Cafodd y twf hwn ei yrru'n rhannol gan gynnydd mewn galw am gynnwys ar draws marchnadoedd domestig a rhyngwladol wedi i gynhyrchu oedi yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, ers diwedd 2022, mae llawer o randdeiliaid (n=7) wedi nodi ansefydlogrwydd sylweddol yn y diwydiant sy’n cael ei nodweddu gan lai o gomisiynu, mwy o ddarnio yn y farchnad, ac ansicrwydd economaidd cynyddol.

Mae arferion gwylio wedi symud fwyfwy o amserlenni darlledu llinol i blatfformau ffrydio ar-alw ar sail tanysgrifio, fel Netflix, Amazon Prime Video a Disney+. Rhagwelir y bydd gwylio ar sianeli teledu wedi'u hamserlennu yn gostwng o 67% o gyfanswm gwylio teledu ffurf hir yn 2022 i 35% erbyn 2034 a 27% erbyn 2040[55]. Mae'r newid hwn hefyd wedi arwain at drafodaethau ymhlith darlledwyr daearol ynghylch datblygu eu cynigion ar-alw eu hunain ymhellach[56]. Dechreuodd darlledwyr wynebu pwysau ariannol cynyddol, yn rhannol oherwydd gostyngiad yng nghyfran y gynulleidfa a darnio refeniw hysbysebu yn ehangach, wrth i hysbysebwyr ddargyfeirio gwariant i blatfformau cymdeithasol a digidol fel YouTube a TikTok. Cyfrannodd y pwysau hyn at ddirywiad mewn gweithgaredd comisiynu gan ddarlledwyr daearol o ddiwedd 2022 i 2023, gyda chomisiynau teledu wedi'u sgriptio yn gostwng 18% yn 2023[57]. Dywedodd rhanddeiliaid fod y gostyngiad yng nghyfanswm y gwaith a gomisiynwyd wedi cael effaith anghymesur ar brosiectau canolig eu maint, prosiectau rhanbarthol, neu brosiectau arbrofol, yn enwedig rhai gan gynhyrchwyr annibynnol yn y DU, wrth i gomisiynwyr flaenoriaethu dramâu ar ben uchaf y farchnad sydd â thalent rhyngwladol adnabyddus ac sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd byd-eang.

I waethygu'r broblem, roedd y diwydiant wedi gor-gomisiynu yn ystod y cyfnod llewyrchus yn dilyn y pandemig, gan ragweld y byddai’r galw sylweddol yn parhau. Pan ddechreuodd galw'r farchnad sefydlogi a darnio, profodd y diwydiant gywiriad sydyn. Ymatebodd y comisiynwyr drwy flaenoriaethu dramâu ar ben uchaf y farchnad sy’n cynnwys talent rhyngwladol adnabyddus i ddenu defnyddwyr byd-eang. Roedd hwn yn newid a ysgogwyd yn fasnachol sydd wedi culhau cyfleoedd ar gyfer prosiectau canolig eu maint, sydd â ffocws rhanbarthol neu arbrofol, yn enwedig rhai sy’n cael eu harwain gan gynhyrchwyr annibynnol yn y DU.

Mae'r dirwedd esblygol hon wedi cael effaith uniongyrchol ar y gweithlu llawrydd, sy'n ffurfio cyfran sylweddol o gyflogaeth yn y sector sgrin. Mae’r gostyngiad yng nghyfanswm y gwaith sy’n cael ei gomisiynu a chostau cynhyrchu cynyddol wedi arwain at golledion swyddi, llai o gyfleoedd gwaith, ac ansicrwydd cynyddol i weithwyr llawrydd[58], yn enwedig rhai sy'n gweithio ar gynyrchiadau untro neu ar raddfa lai neu rai sydd fel arfer yn cael eu cefnogi gan ddarlledwyr annibynnol a daearol.

Tuedd bellach yw twf realiti estynedig neu rithwir (AR, VR), a'i dreiddiad cynyddol yn yr economi brofiad. Mae hyn yn herio modelau teledu traddodiadol ac yn effeithio ar gostau

55 Ofcom Report: Future of TV Distribution, 2023. .
56 BBC News Article: How can traditional British TV survive the US streaming giants? 2025
57 How the BBC is defying a UK commissioning downturn, 2024. .
58 Forging Freelance Futures Report

datblygu cynnwys newydd oherwydd y lefelau uchel o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu sydd eu hangen, yn ogystal â'r sgiliau cynyddol arbenigol sydd eu hangen. O ganlyniad, bydd pobl â setiau sgiliau newydd ac esblygol yn ymuno â'r diwydiant yn y blynyddoedd i ddod.[59]

## 8.5. Streiciau Urdd Awduron America a SAG AFTRA yn yr Unol Daleithiau

Yn 2023, aeth Urdd Awduron America (WGA) ac Urdd Actorion Sgrin – Ffederasiwn Artistiaid Teledu a Radio America (SAG-AFTRA) ar streic oherwydd pryderon ynghylch cyflogau, gweddillion ffrydio, ac effaith bosibl deallusrwydd artiffisial ar broffesiynau creadigol. Cyfeiriodd awduron yn benodol at yr heriau a achosir gan fformatau cyfresi byrrach a llai o gomisiynau cyfresi dilynol ar blatfformau ffrydio, sydd wedi cyfrannu at enillion cyffredinol is a llai o gyfleoedd gwaith hirdymor.

Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid (n=5) yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon fod y streiciau hyn wedi dwysáu'r ansefydlogrwydd presennol yn y sector, gan waethygu ansicrwydd ariannol a lleihau gweithgarwch comisiynu yn sylweddol. Nododd yr ymatebwyr fod y gweithredu diwydiannol wedi cyd-daro â phwysau economaidd ehangach, gan gynnwys chwyddiant ac aflonyddwch yn gysylltiedig â Brexit, gan greu 'ergyd ddwbl' o grebachu yn y farchnad. Er bod dau randdeiliad wedi nodi eu bod wedi'u hynysu i raddau oherwydd eu safleoedd penodol yn y farchnad neu gysylltiadau lleol, profodd eraill oedi sylweddol, pwysau cyllidebol cynyddol, a llai o gyfleoedd yn gyffredinol.

Amlygodd y streicwyr yr ansicrwydd cyflogaeth sydd yn y sector sgrin, sy'n ddibynnol iawn ar weithwyr llawrydd a gwaith sy'n seiliedig ar brosiectau. Mae llawer o weithwyr yn wynebu ansicrwydd incwm, gyda chyfnodau o weithgarwch dwys yn cael eu dilyn gan fylchau estynedig mewn cyflogaeth[60]. Cafodd y gweithredu diwydiannol sgil-effeithiau yn y DU, gan ddod â chynhyrchu byd-eang i stop ac achosi oedi cyn rhyddhau sawl ffilm uchel ei phroffil[61]. Effeithiodd hyn ymhellach ar ansicrwydd cyflogaeth i weithwyr llawrydd ffilm a theledu yn y DU a oedd eisoes yn fregus tan fis Tachwedd 2023, pan ddaeth y streiciau i ben. Fodd bynnag, drwy symud y ffocws i flaenoriaethu straeon a chynnwys Cymreig yn ystod y cyfnod heriol hwn, cadwyd ffrwd gref yng Nghymru.

## 8.6. Ymatebion a chymorth gan Gymru Greadigol

Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid (n=4) y rôl hanfodol a chwaraewyd gan Gymru Greadigol wrth ymateb yn effeithiol i bwysau economaidd allanol, yn enwedig mewn cyswllt â phandemig COVID-19. Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn benodol at ymatebolrwydd Cymru Greadigol wrth fynd i'r afael yn gyflym â baich ariannol protocolau diogelwch mewn cyswllt â COVID, gan alluogi i gynyrchiadau barhau er gwaethaf costau cynyddol.

[59] Gensler Research Institute and The Immersive Experience Institute: Evolving Immersive: The 2025 Immersive Entertainment and Culture Industry Report
[60] British film and high-end television
[61] The Guardian News Article: Already vulnerable': UK film and TV workers feel the pinch from US strike, 2023

Fodd bynnag, cyfeiriodd dau randdeiliad at gyfyngiadau strwythurol ym model ariannu Cymru Greadigol, gan ddweud, am fod y sefydliad fel arfer yn darparu cyllid cynhyrchu atodol yn hytrach na chyllid cynhyrchu llawn, nad yw wedi gallu gwrthbwyso gostyngiadau comisiynu yn llawn na mynd i'r afael â'r cyfyngiadau cyllidebol sylweddol y mae cwmnïau cynhyrchu yn eu hwynebu. Er bod hyn yn adlewyrchu heriau ehangach yn y farchnad, mae'n bwysig cydnabod nad bwriad Cymru Greadigol yw tanysgrifennu cyllidebau cynhyrchu llawn, ond yn hytrach gweithredu fel cyd-fuddsoddwr strategol sy'n cefnogi prosiectau sydd â photensial i gael effaith gref. At hynny, mae amseriad cymorth ariannol Cymru Greadigol, sydd fel arfer yn cael ei dalu ar ôl y camau cynhyrchu, wedi creu pwysau ychwanegol i rai cwmnïau, gan olygu bod angen trefniadau ariannu dros dro sy'n arwain at gostau benthyca uwch.

## 8.7. Cyd-destun economaidd sector y diwydiannau creadigol

Mae'r is-adran hon yn rhoi trosolwg o gyfraniad economaidd y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno dangosyddion allweddol i roi cyd-destun i ddatblygiad y sector yn ystod cyfnod sydd wedi'i nodweddu gan heriau strwythurol a heriau allanol sylweddol. Mae'r cipolygon hyn yn rhoi pwynt cyfeirio ar gyfer dehongli effeithiau rhaglen Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol ar y sector a'r economi ehangach, fel sydd wedi'u hasesu yng ngweddill yr adroddiad.


Oherwydd y data sydd ar gael, dim ond rhai newidynnau sydd ar gael gan ddefnyddio diffiniad Cymru Greadigol o'r sector creadigol. Lle nad oes data ar gael, er enghraifft, gwerth ychwanegol gros, defnyddir diffiniad is-sector diwydiannau creadigol yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), sy'n cwmpasu pob galwedigaeth greadigol o fewn ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth[62].

### 8.7.1. Trosiant

Trosiant y sectorau digidol a sgrin yng Nghymru oedd dros £763 miliwn yn 2023, gan gyfrif am 50% o gyfanswm y trosiant yn niwydiannau creadigol Cymru[63]. Mae hyn wedi gostwng 7% ers 2019, pan wnaeth yr is-sectorau digidol a sgrin drosiant o £820 miliwn[64].

[62] Department for Culture, Media & Sport: Creative Industries Economic Estimates
[63] Llywodraeth Cymru, 'Ystadegau'r Economi a'r  Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023', 29 Hydref 2024
[64] Ibid.

**Ffigur 8.1: Trosiant (£ miliwn) is-sectorau digidol a sgrin, 2019 i 2023**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2024, Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiannau Creadigol Cymru, 2018 i 2023

Er bod nifer y busnesau yn yr is-sectorau digidol a sgrin wedi cynyddu o 1,495 i 1,710 rhwng 2019 a 2023[65], mae'r gostyngiad yng nghyfanswm y trosiant ar gyfer y ddau is-sector yn dangos bod y trosiant cyfartalog fesul busnes wedi gostwng rhwng 2019 a 2023. Gallai hyn fod yn arwydd o ddirywiad y farchnad, gan arwain at drosiant is fesul busnes oherwydd llai o gomisiynu gan ddarlledwyr daearol a darnio'r farchnad yn sgil cyfleoedd refeniw hysbysebu is.

### 8.7.2. Gwerth ychwanegol gros (GVA)

Yn 2023, cyfrannodd y diwydiannau creadigol tua £1.23 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru, gan gyfrif am 1.5% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros yng Nghymru[66]. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o 14% ers 2019, pan oedd gwerth ychwanegol gros y sector yn £1.1 biliwn. I gymharu, roedd y diwydiannau creadigol yn cyfrif am 2.9% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros yn yr Alban a 5.7% ledled y DU yn 2022.

Cynhyrchodd yr is-sector sy'n berthnasol i Gymru Greadigol (ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth) £405 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros yn 2023[67]. Roedd yr is-sector hwn yn cyfrif am 33% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros y diwydiannau creadigol yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan yr yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2023, i fyny o 31% yn 2019. Roedd yr is-sector yn cyfrif am 72% o'r diwydiannau creadigol fel y'u diffinnir gan Gymru Greadigol[68] yn 2023, i fyny o 62% yn 2019.

[65] Ibid.
[66] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 'DCMS Sector Economic Estimates: Regional Gross Value Added 2023', 3 Gorffennaf 2025
[67] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol 2023 - GOV.UK
[68] Mae hyn yn cynnwys: Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth, cyhoeddi, a cherddoriaeth, y celfyddydau perfformio a gweledol.

### 8.7.3. Swyddi

Amcangyfrifir bod 16,900 o bobl yn cael eu cyflogi yn yr is-sectorau digidol a sgrin yng Nghymru yn 2023, sef 48% o gyflogaeth y sector diwydiannau creadigol[69]. Mae nifer y bobl sy'n gweithio yn yr is-sectorau digidol a sgrin wedi cynyddu 16% rhwng 2019 a 2023[70].

O ran cyfansoddiad y gweithlu, roedd 35% o'r rhai a oedd yn gweithio yn yr is-sectorau digidol a sgrin yn hunangyflogedig yn 2021, tra ledled Cymru, roedd pobl hunangyflogedig yn cyfrif am 12% o'r rhai mewn cyflogaeth[71]. Ar draws yr holl ddiwydiannau creadigol yng Nghymru, mae'r hunangyflogedig yn cyfrif am 48% o'r gweithlu, cyfran sydd wedi gostwng ychydig ers 2019, pan oedd yn cyfrif am 51% o gyflogaeth yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nad yw'n cynnwys gweithwyr llawrydd sy'n gweithio ar gontractau tymor byr neu rolau sy'n seiliedig ar brosiectau oni bai eu bod yn nodi eu hunain eu bod yn hunangyflogedig. O ganlyniad, mae'n debygol bod yr ystadegau swyddogol yn tanamcangyfrif graddfa lawn y gwaith llawrydd yn y sector. Mae adroddiad diweddar Clwstwr ar faint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn nodi y gallai gweithwyr llawrydd gyfrif am bron i 50% o'r gweithlu[72].

[69] Llywodraeth Cymru, 'Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023', 29 Hydref 2024
[70] Ibid.
[71] Llywodraeth Cymru, 'Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023', 29 Hydref 2024
[72] Clwstwr, 'Y Diweddaraf am yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2022', Gorffennaf 2023

# 9. Adran gyfeiriadau


Cymru Greadigol. (dim dyddiad). Amdanom Ni: Polisi ac Ymchwil.

Llywodraeth Cymru. (2022). Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru (Cymraeg).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). (2023). DCMS Sectors Economic Estimates: Regional Gross Value Added 2023.

StatsCymru. (dim dyddiad). GYC yn ôl Ardal a Chydran.

Llywodraeth Cymru. (2024). Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023.

Dupont, N. (2021). Local Aspects and Impacts of Film-induced Tourism. The French Journal of Media Studies.

Riley, R., Baker, D., a Van Doren, S. (1998). Movie-induced tourism. Annals of Tourism Research, 25(4), 919-935.

Jones, B. (2024). Screen Tourism: Regional development, fan labour and sustainability.

Llywodraeth Cymru. (2025). Set-jetio: y ffasiwn ddiweddaraf sy'n dangos Cymru i'r byd.

Tourism Review. (dim dyddiad). Film Tourism May Support as Well as Destroy Communities.

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr.

Llywodraeth Cymru. (2024). Astudiaeth Galw'r Farchnad Croeso Cymru - DU 2024.

Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol. (2019). Public Investment Report.

Greenlight Coverage. (2025). What Are Film Festivals' Importance and Impact?

Ffilm Cymru Wales. (2024). Cryfhau sector sinema Cymru gyda chyllid Ffilm Cymru Wales.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2019). Ymchwiliad i Gynyrchiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru.

Busnes Cymru. (dim dyddiad). Y Contract Economaidd. https://busnescymru.llyw.cymru/y-contract-economaidd

The Reaction Lab. (dim dyddiad). The Evolution of Film Financing from Studio Systems to Independent Filmmaking.

Oliver & Ohlbaum Associates. (2023). Pact – Celebrating 20 years of Terms of Trade.

BFI. (dim dyddiad). Sustainable Future Skills Report: Screen Sectors Skills Task Force.

WorldSkills UK. (2024). Screen Industries Report.

BCG. (2018). How Governments Are Sparking Growth in Creative Industries.

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) Rhaglen Lywodraethu.

Diggit Magazine. (dim dyddiad). Diversity and Representation in TV and Movies and Why It Matters.

New America. (dim dyddiad). Diversity & Inclusion Storytelling in TV & Film.

America's Youth and Community Engagement. (2006). Josh Pasek, Kate Kenski, Daniel Romer, Kathleen Hall Jamieson.

Cymru Greadigol. (dim dyddiad). Hwylusydd Lles: Rôl Newydd i'r Sector.

Llywodraeth Cymru. (2018). Cymraeg 2050: Strategaeth yr Iaith Gymraeg.

Clwstwr. (2023). Y Diweddaraf am yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2022.

CITMA. (dim dyddiad). Reaching for the Stars: How Merchandising Became the Film Industry's Golden Ticket.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (dim dyddiad). Input-Output Supply and Use Tables.

Llywodraeth yr Alban. (dim dyddiad). Input-Output Latest.

Llywodraeth Cymru. (2023). Canllawiau ar gyfer Gwneud Cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol.

Llywodraeth yr Alban. (2025). Scottish Budget 2025-2026 Carbon Assessment.

Ofcom. (dim dyddiad). Future of TV Distribution.

Newyddion BBC. (dim dyddiad.).

Ampere Analysis. (dim dyddiad). How the BBC is Defying a UK Commissioning Downturn.

Freelance UK. (dim dyddiad).

Gensler. (2025). Immersive Industry Report. https://www.gensler.com/gri/immersive-industry-report-2025

The Guardian. (2022). UK Film and TV Industry Bounces Back from Covid with Record Spend.

British Film and High-End Television. (dim dyddiad).

S4C. (2023). Arolwg Tracio Delwedd S4C 2022–23, Beaufort Research

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. (2023). DCMS Sector Economic Estimates: Regional Gross Value Added 2023.

Clwstwr. (2023). Y Diweddaraf am yr Adroddiad: Maint a Chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2022.


Media Cymru. (2024). Tanio’r Dyfodol Drwy Arloesedd

## Atodiad A: Rhestr o Randdeiliaid

| Sefydliad | Rôl |
|---|---|
| Lupus Films | Cyd-gyfarwyddwr Rheoli |
| Bad Wolf | Prif Swyddog Gweithredu |
| Mad As Birds | Arweinydd Cynhyrchu |
| Cwmni Da | Rheolwr Materion Busnes |
| Triongl / Duchess Productions | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Yeti | Cyfarwyddwr Creadigol |
| Little Door | Cyd-berchennog |
| Duck Soup Films | Cynhyrchydd |
| Boom Cymru | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Bumpybox | Cynhyrchydd a Chyd-gyfarwyddwr |
| BBC Studios | Pennaeth Cynhyrchu ar gyfer Comedi |
| Quay Street Productions | Prif Swyddog Gweithredu |
| Playground Entertainment | Cyfarwyddwr |
| Playground Entertainment | Swyddog Gweithredol Cynhyrchu |
| Telesgop | Cadeirydd |
| Lucasfilm | Swyddog Gweithredol Cynhyrchu |
| Little Bird | Cyfarwyddwr Creadigol |
| Eleven Films | Cyfarwyddwr Cynhyrchu |
| Gorilla | |
| Cynghrair Sgrin Cymru | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cynghrair Sgrin Cymru | Rheolwr Addysg a Hyfforddiant |
| TAC | Rheolwr Cyffredinol |
| TAC | Cadeirydd TAC |
| Comisiwn Ffilm Prydain | Pennaeth Cynhyrchu'r DU |

| | |
|---|---|
| 6ft From the Spotlight | Cydlynydd Lles |
| Severn Screen | Cydlynydd Cynaliadwyedd |
| | Prentis Sgil Cyrmu |
| | Prentis Sgil Cyrmu |
| | Prentis Sgil Cyrmu |
| Llawrydd | Rheolwr Lleoliad |
| Llawrydd | Cynhyrchydd Llinell |

# Atodiad B: Model Damcaniaeth Newid Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol



# Atodiad C: Methodoleg Fanwl

## Damcaniaeth Newid

Mae’r Ddamcaniaeth Newid yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwerthusiad sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth. Mae'n cyflwyno fframwaith rhesymegol sy'n disgrifio sut mae disgwyl i weithgareddau’r rhaglen, fel cyllid cynhyrchu, arwain at ganlyniadau tymor byr, canolig a hir.

Datblygwyd y Ddamcaniaeth Newid mewn ffordd iterus yn ystod camau cynnar y gwaith asesu ac mae wedi'i lywio gan ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth gynnar; dogfennau polisi presennol ac amcanion y rhaglen; ac adolygiad o astudiaethau cymharol yn y diwydiannau creadigol.

Caiff y Ddamcaniaeth Newid ei defnyddio fel fframwaith profi drwy gydol y gwerthusiad, gan ddarparu strwythur i fapio tystiolaeth yn ei erbyn ac er mwyn ystyried llwybrau achosol. Mae hyn yn galluogi i'r asesiad fynd y tu hwnt i ddim ond mesur allbwn ac archwilio i ba raddau y mae cyllid Cymru Greadigol yn cyfrannu at werth cyhoeddus ehangach.

## Tasgau a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad hwn

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymchwil i lywio'r asesiad o raglen cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol. Caiff y tasgau hyn eu crynhoi isod:

### Adolygu a dadansoddi data ac adroddiadau monitro

Roedd yr asesiad yn cynnwys adolygiad manwl o wybodaeth fonitro, dogfennau adrodd, a deunyddiau contract a ddarparwyd gan Gymru Greadigol. Roedd hyn yn cynnwys:

- **Dadansoddiad thematig o 24 o gontractau economaidd** rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau cynhyrchu sy'n fuddiolwyr. Roedd y contractau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r derbynwyr nodi gweithgareddau cyfredol ac ymrwymiadau i’r dyfodol ar draws pedwar maes thematig: Cryfder Economaidd ac Addasrwydd, Gwaith Teg, Hyrwyddo Lles, a Charbon Isel a Chydnerthedd o ran Newid Hinsawdd. Gwnaeth y dadansoddiad hwn helpu i ganfod ymrwymiadau cyffredin i ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn i gwmnïau wneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru a chael mynediad iddo.
- Casglu a dadansoddi data gwariant cynhyrchu a gyflwynwyd gan 37 o'r 45 cynhyrchiad a gynorthwywyd iddi mewn i gwmpas yr astudiaeth. Roedd y data yma yn llywio’r model effaith economaidd ac roedd yn cynnwys:
    - 16 o ffurflenni, a oedd yn rhoi cyfanswm y gwariant yn ôl categori ar draws oes y cynhyrchiad, yn amrywio o grynodebau o wariant yn ôl adran i gategorïau gwariant eang.
    - 21 o ffurflenni, a oedd yn rhoi manylion am bob trafodiad a ddigwyddodd yn ystod oes y cynhyrchiad.

Y ffynonellau data hyn oedd sylfaen feintiol y modelu Mewnbwn Allbwn sy'n cael ei gyflwyno ym Mhennod 4.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

Rhwng Hydref 2024 ac Ebrill 2025, cynhaliwyd 35 o gyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid ar draws y sectorau sgrin a chyfryngau digidol, gan gynnwys:

- 5 o **aelodau o dîm Cymru Greadigol** sy'n ymwneud â chyflawni a rheoli'r rhaglen;
- 6 o **randdeiliad y sector**, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector cynhyrchu annibynnol, Cyngor Ffilm Prydain, Cynghrair Sgrin Cymru, a thŷ ôl-gynhyrchu yng Nghaerdydd;
- 17 o **arweinwyr cwmnïau cynhyrchu** o brosiectau a oedd yn derbyn cyllid gan Gymru Greadigol (allan o gyfanswm o 35);
- 7 o **weithwyr llawrydd, aelodau criw, neu hyfforddeion** a weithiodd ar un neu fwy o'r cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol.

Roedd y cyfweliadau hyn yn archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid ar effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol (gan gynnwys y Gymraeg), ac amgylcheddol y cyllid cynhyrchu, yn enwedig ar unigolion, busnesau, cymunedau, a'r sector yn ehangach.

**Adolygiad llenyddiaeth**

Cynhaliwyd adolygiad wedi'i dargedu o lenyddiaeth academaidd a pholisi i leoli'r canfyddiadau o fewn y sylfaen dystiolaeth ehangach. Roedd hyn yn cynnwys gwerthusiadau diweddar o gynlluniau cyllido sgrin yn y DU, astudiaethau ar dwristiaeth sgrin a lluosyddion economaidd, a llenyddiaeth academaidd ar effeithiau ehangach y sector sgrin a digidol.

**Setiau data cenedlaethol a ffynonellau ystadegol**

Defnyddiwyd setiau data perthnasol i feincnodi a rhoi cyd-destun i'r dadansoddiad, gan gynnwys:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS): megis Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES) a Chyfrif Busnesau'r DU (ABS);
- Ystadegau Llywodraeth Cymru: gan gynnwys gwerth ychwanegol gros a Pherfformiad Twristiaeth Cymru;
- Setiau data'r sector creadigol: Amcangyfrifon Economaidd Sectorau ac Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Defnyddiwyd y ffynonellau hyn i ddilysu rhagdybiaethau modelu, amcangyfrif amodau sylfaenol, a meincnodi cyfraniad gweithgarwch a ariannwyd gan Gymru Greadigol o gymharu â'r economi ehangach.

## Y fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn

### Fframwaith a chwmpas gwerth economaidd

Mae'r asesiad hwn yn mabwysiadu fframwaith gwerth economaidd sy'n cydnabod y mecanweithiau amrywiol y mae cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol yn creu effaith economaidd drwyddynt. Mae'r rhain yn cynnwys allbynnau uniongyrchol, fel gwariant cynhyrchu a chyflogaeth, ac effeithiau ehangach yn ymwneud â datblygu seilwaith, twristiaeth sgrin, a buddsoddi mewn sgiliau.

Er mwyn sicrhau tryloywder a thrylwyredd methodolegol, aseswyd pob llwybr gwerth posibl yn erbyn tri maen prawf:

- **Priodoliad:** a ellir cysylltu'r gwerth yn rhesymol â chyllid Cymru Greadigol?
- **Y data sydd ar gael:** a oes data dibynadwy ar gael er mwyn amcangyfrif yn feintiol?
- **Cydweddiad methodolegol:** a yw'r dull mesur arfaethedig yn cydweddu ag egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, safonau'r diwydiant a/neu wedi'i ategu gan lenyddiaeth?

Cafodd y categorïau gwerth canlynol eu cynnwys yng nghwmpas yr asesiad meintiol:

- **Gwariant cynhyrchu a datblygu:** gwariant gan gwmnïau cynhyrchu ar gyflenwyr a gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru;
- **Effeithiau'r gadwyn gyflenwi:** gweithgarwch economaidd anuniongyrchol a gynhyrchir drwy gaffael gan fusnesau Cymru;
- **Gwariant cyflogau:** gweithgarwch economaidd ychwanegol sy'n deillio o incwm a enillir gan weithwyr ac sy'n cael ei wario wedyn yn yr economi leol;
- **Buddsoddiad mewn stiwdios a seilwaith:** cyfraniadau economaidd sy'n gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau cynhyrchu gyda chysylltiad amlwg â chyllid Cymru Greadigol;
- **Twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin:** gwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig â pha mor weladwy yw cynnwys sgrin o Gymru mewn marchnadoedd domestig neu ryngwladol;
- **Datblygu sgiliau a hyfforddiant:** gwerth economaidd a chymdeithasol a gynhyrchir drwy brentisiaethau, lleoliadau hyfforddeion, a datblygu talent gan dargedu;
- **Dangos ffilmiau mewn sinemâu a gwyliau ffilm:** gwariant gweithredol gan wyliau a sinemâu, a gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr yn ymwneud â phrosiectau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol.

Cafodd sawl maes gwerth posibl eu heithrio o'r modelu meintiol, naill ai am fod y data yn annigonol neu am fod y priodoliad i gyllid Cymru Greadigol yn gyfyngedig, gan gynnwys:

- **Dosbarthu (gan gynnwys marchnata a hyrwyddo) a darlledu'r cynyrchiadau**, lle nad oedd data ariannol ar gael yn systematig a lle na ellid sefydlu'n ddibynadwy briodoliad effeithiau economaidd ymhellach i lawr y gadwyn i gyllid Cymru Greadigol;
- **Elw neu enillion masnachol cwmnïau cynhyrchu** (gan gynnwys manteisio ar hawliau eiddo deallusol, gweler Adran 5.1 am ragor o wybodaeth) a chyflogaeth, lle nad oedd data ar gael neu lle roedd y data wedi'i hunan-adrodd ac nad oedd modd ei wirio mewn ffordd gyson;
- **Gwariant sy'n gysylltiedig â chyrsiau addysg uwch ac addysg bellach (AU/AB)**, am ei bod yn anodd cysylltu'r gwariant hwn ag ymyriadau penodol Cymru Greadigol;
- **Effeithiau manwerthu nwyddau marchnata**[73], gan gynnwys refeniw cerddoriaeth, ffasiwn, neu gyhoeddi sy'n gysylltiedig â chynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol, lle'r oedd tystiolaeth gyfyngedig o fudd i fanwerthwyr yng Nghymru.

Lle bo'n berthnasol, mae'r eithriadau hyn wedi cael sylw ansoddol mewn mannau eraill yn yr adroddiad. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr asesiad economaidd yn parhau i fod wedi'i arwain gan dystiolaeth, yn geidwadol wrth amcangyfrif, ac yn cyd-fynd ag arferion gorau wrth werthuso gwerth cyhoeddus.

**Cwmpas effaith economaidd**

Mae'r asesiad hwn yn diffinio gwerth economaidd mewn dwy brif ffordd:

- Cyflogaeth wedi'i chefnogi yn ôl blwyddyn ariannol: wedi'i fesur fel nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys lleoliadau hyfforddeion â thâl, sy'n ofynnol i gyflawni cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol a bodloni'r galw cysylltiedig am nwyddau a gwasanaethau;
- Gwerth ychwanegol gros: mesur o'r allbwn economaidd a gynhyrchwyd trwy'r gweithgarwch cynhyrchu, wedi'i gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng allbwn a defnydd canolradd.

Yn ogystal â gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth, mae'r modelu economaidd yn asesu ystod o ddangosyddion cysylltiedig o fewn y fframwaith gwerth economaidd ehangach, gan gynnwys:

- **Gwariant:** cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gedwir yng Nghymru, wedi'i asesu o ran:
    - **gwariant uniongyrchol,** sy'n cynnwys taliadau uniongyrchol i gyflenwyr a staff;

[73] https://www.citma.org.uk/resources/reaching-for-the-stars-how-merchandising-became-the-film-industry-s-golden-ticket-blog.html#:~:text=Consumers'%20demand%20for%20merchandise%20has,the%20merchandise%20related%20to%20it.

- **gwariant anuniongyrchol**, sy'n mesur y gweithgaredd economaidd eilaidd a gynhyrchir trwy bryniannau’r gadwyn gyflenwi a wneir gan y cyflenwyr hynny;
- **gwariant ysgogedig,** sy'n cyfeirio at aelwydydd yn ail-wario’r cyflogau a enillir gan unigolion a gyflogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy weithgarwch cynhyrchu;

- **Enillion ar fuddsoddiad:** wedi'i ddiffinio fel swm y gwerth economaidd priodoladwy (gwerth ychwanegol gros) a gynhyrchir yng Nghymru am bob £1 o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol a fuddsoddir;
- **Refeniw treth:** refeniw'r sector cyhoeddus a gynhyrchir drwy gyflogaeth, trafodion cyflenwyr, ac effeithiau ail-wario;
- **Allyriadau carbon:** amcangyfrifon wedi'u modelu o allyriadau $CO_2e$;
- **Lluosyddion economaidd:** wedi'u mesur fel cymhareb cyfanswm yr effaith (uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig) i'r effaith uniongyrchol, gan roi cipolwg ar effeithiau ehangach gweithgarwch cynhyrchu.

Mae enillion ar fuddsoddiad ac effeithiau lluosydd hefyd yn cael eu dadansoddi yn ôl math o gynhyrchiad, gan gynnwys dadansoddiadau yn ôl:

- **Model comisiynu:** prosiectau cyfres unigol yn erbyn prosiectau a ailgomisiynwyd;
- **Tarddiad y cynhyrchiad:** cynhenid, cyd-gynhyrchu, neu fewnfuddsoddiad;
- **Genre:** e.e. wedi'i sgriptio, di-sgript, animeiddio, neu gemau;
- **Iaith:** prosiectau a gynhyrchwyd yn y Gymraeg.

Mae paramedrau ac ystyriaethau modelu allweddol eraill yn cynnwys:

- **Cyfnod yr asesiad:** mae'r dadansoddiad yn cwmpasu gweithgarwch o 2020–21 (dechrau cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol) hyd at ddechrau 2025, gyda'r holl werthoedd ariannol wedi'u cyflwyno ym mhrisiau 2024/25;
- **Effeithiau a ragwelir:** yn achos y 12 prosiect a oedd yn dal i gael eu cyflawni ar adeg comisiynu'r astudiaeth (h.y. wedi'u hariannu yn 2024/25) neu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwirio hawliadau ar eu cyfer eto ac na ddarparwyd ffurflen gwariant fanwl i Wavehill, mae’r effeithiau economaidd wedi'u modelu ar wahân gan ddefnyddio ffigurau gwariant rhagamcanol Cymru a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar adeg cymeradwyo'r cyllid;
- **Ansawdd gwariant:** mae’r costau uwchlaw’r llinell, megis ffioedd ar gyfer rolau creadigol uwch, a chostau cyflawni a gweithredu islaw’r llinell, yn cael eu hystyried ar wahân. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys y ddau gategori lle mae’r data ar gael, gan dynnu ar gymysgedd o ddata hawliadau a gyflwynwyd a rhagdybiaethau modelu.

**Modelu effaith**

Mae'r modelu effaith economaidd a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad hwn yn tynnu ar gyfuniad o ddata gweinyddol gan Gymru Greadigol ac ystadegau swyddogol ar economi Cymru.

Cyfrifwyd yr effeithiau gan ddefnyddio'r tablau Mewnbwn Allbwn ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu cyflwr yr economi yn 2019, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Mae'r tablau'n darparu'r sail ar gyfer model macro-economaidd i Gymru sy'n dangos sut mae'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan Gymru Greadigol yn cynnal trosiant, gwerth ychwanegol gros ac incwm (cyflogau). Ategwyd y tablau â data cyflogaeth o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES).

Mae'r effeithiau a gyflwynir yn dangos effeithiau uniongyrchol trosiant, gwerth ychwanegol gros, incwm a chyflogaeth a gynhaliwyd gan sefydliadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol, yn ogystal â'r effeithiau anuniongyrchol a grëwyd drwy gadwyni cyflenwi'r sector creadigol. Mae'r effaith macro-economaidd ar gyfer Cymru hefyd yn dangos effeithiau ysgogedig, gyda chyflogau a dalwyd i weithwyr yn cael eu gwario ar y stryd fawr yn creu allbwn economaidd pellach a swyddi mewn cymunedau ledled Cymru.

Estynnwyd y model gan ddefnyddio data o'r tablau i ddangos yr effeithiau ar rai trethi nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon gwerth ychwanegol gros. Roedd y dadansoddiad o effaith gyllidol yn canolbwyntio ar drethi ar gynhyrchu (e.e., TAW) a threth incwm. Oherwydd cyfyngiadau'r data, nid yw treth gorfforaeth, yswiriant gwladol a threthi anuniongyrchol eraill wedi'u hamcangyfrif, felly mae'r ffigurau a gyflwynir yn debygol o fod yn geidwadol. Ategwyd y model ymhellach gan ddata ar garbon a dynnwyd o Gyfrifon Amgylcheddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Noder: Cyn rhyddhau tablau Mewnbwn Allbwn penodol i Gymru ym mis Mawrth 2025, y set ddiweddaraf a oedd ar gael i'r cyhoedd oedd o 2007. O ganlyniad, arfer safonol y diwydiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu defnyddio tablau Mewnbwn Allbwn o wledydd eraill y DU, yn fwyaf cyffredin y rhai a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y DU a chan Lywodraeth yr Alban, fel dirprwy wrth fodelu effeithiau economaidd yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn un o'r cyntaf i ddefnyddio tablau Mewnbwn Allbwn Cymru sydd newydd eu cyhoeddi i asesu effaith ac mae'n gosod cynsail ar gyfer modelu mewn ffordd sy'n fwy cynrychioliadol yn lleol yn y dyfodol.

Mae cymariaethau cychwynnol yn datgelu gwahaniaethau clir rhwng lluosyddion Mewnbwn Allbwn Cymru, y DU a'r Alban ar gyfer y sectorau ffilm a theledu (categorïau Mewnbwn Allbwn 59 a 60). Yn benodol, mae tablau Mewnbwn Allbwn Cymru yn dangos, am bob £1 o wariant cynhyrchu, bod y diwydiant yn cynhyrchu tua £0.21 mewn gwerth ychwanegol gros, o gymharu â £0.38 gan ddefnyddio lluosyddion y DU[74] a £0.46 gan ddefnyddio lluosyddion yr Alban[75]. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau uwch o ollyngiadau, cyfran fwy o nwyddau a gwasanaethau yn cael eu mewnforio, a chyfran lai o werth yn cael ei gadw o fewn economi Cymru.

[74] https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/supplyandusetables/datasets/inputoutputsupplyandusetables
[75] https://www.gov.scot/publications/input-output-latest/

**Adnabod ac asesu canlyniadau ehangach**

Mae penodau 5 a 6 o'r adroddiad hwn yn archwilio'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach sy'n gysylltiedig â chyllid cynhyrchu Cymru Greadigol. O ystyried natur y canlyniadau hyn, mae llawer o'r dystiolaeth ategol yn ansoddol, er bod amcangyfrifon meintiol wedi'u cynnwys lle bo'n ymarferol.

Mae'r rhan hon o'r asesiad yn tynnu ar ystod eang o ffynonellau tystiolaeth cynradd ac eilaidd, gan gynnwys cyfweliadau, data monitro, astudiaethau achos, a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, a gasglwyd drwy'r tasgau ymchwil a amlinellir yn Adran 2.3, er mwyn gwella hygrededd a chadernid y casgliadau a gyflwynir.

# Atodiad D: Chwyddo Prisiau

Mae'r holl ffigurau ariannol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u chwyddo i brisiau 2024/25 gan ddefnyddio Datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF (Mawrth 2025)[76]. Mae'r dull hwn yn sicrhau cymhariaeth ar draws y prosiectau a ariannwyd mewn gwahanol flynyddoedd ac yn darparu sail dryloyw ar gyfer asesu gwerth gwirioneddol y cyllid cynhyrchu dros amser. Mae'r datchwyddwr a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu'r newid canrannol blynyddol ym mynegai prisiau cynnyrch domestig gros, fel y'u cyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae’r ffigurau wedi’u haddasu i ystyried newidiadau yng ngwerth arian oherwydd chwyddiant, gan alluogi rhanddeiliaid i ddeall y pŵer prynu gwirioneddol ac effaith dyraniadau cyllid. Mae'r addasiad hwn yn arfer safonol mewn dadansoddiad economaidd yn y sector cyhoeddus ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF[77].

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r cyllid a ddyfarnwyd (a, lle nad yw ar gael, Cynnig Cymru Greadigol yn seiliedig ar eu Llythyr Dyfarnu) i bob cynhyrchiad mewn prisiau cyfredol, ynghyd â'r ffigur chwyddedig cyfatebol ar gyfer 2024/25.

**Tabl A.1: Stiwdios wedi'u lleoli yng Nghymru a ddefnyddiwyd fel rhan o gynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol**

| Enw'r Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd mewn prisiau cyfredol (£) | Cyllid a ddyfarnwyd ym mhrisiau 2024/25 (£) |
|---|---:|---:|
| Sex Education Cyfres 3 | £432,178 | £505,491 |
| War of the Worlds Cyfres 2 | £750,000 | £877,227 |
| Roald and Beatrix: Tail of the Curious Mouse | £224,674 | £262,787 |
| Wonders of the Celtic Deep | £77,000 | £90,062 |
| Kensuke's Kingdom | £100,000 | £117,651 |
| The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2 | £140,000 | £163,749 |
| His Dark Materials Cyfres 3 | £2,000,000 | £2,339,273 |
| Willow | £4,000,000 | £4,678,545 |
| The Pact Cyfres 1 | £576,574 | £678,345 |
| Havoc | £2,042,500 | £2,403,022 |
| Jamie Johnson Cyfresi 6 a 7 | £335,000 | £394,131 |
| The Almond and the Seahorse | £91,000 | £107,062 |
| Rain: The Untold Story (a elwir hefyd yn Rain Stories) | £30,258 | £35,599 |
| Y Golau / The Light in the Hall | £463,003 | £508,834 |
| Sex Education Cyfres 4 | £450,000 | £494,543 |
| Wolf | £500,000 | £549,493 |
| The Pact Cyfres 2 | £330,000 | £362,665 |

[76] GDP deflators at market prices, and money GDP - GOV.UK
[77] The Green Book (2022) - GOV.UK

| Enw'r Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd mewn prisiau cyfredol (£) | Cyllid a ddyfarnwyd ym mhrisiau 2024/25 (£) |
|---|---:|---:|
| The Truth About My Murder | £25,000 | £27,475 |
| American Doomsday / Super Volcano | £53,900 | £59,235 |
| Black Cake | £750,000 | £824,239 |
| 4 Stories: On the Edge Cyfres 4 | £65,000 | £71,434 |
| Un Nos Ola Leuad / One Moonlit Night | £119,931 | £131,802 |
| Steeltown Murders | £370,040 | £370,040 |
| Newffion | £32,920 | £34,171 |
| Pren ar y Bryn / Tree on a Hill | £500,000 | £519,004 |
| The Way | £510,000 | £510,000 |
| Lost Boys and Fairies | £429,000 | £445,306 |
| Creisis | £165,113 | £181,457 |
| Until I Kill You / a elwir hefyd yn Delia Balmer | £200,000 | £207,602 |
| The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 3 | £120,000 | £131,878 |
| Men Up | £150,000 | £155,701 |
| House of the Dragon Cyfres 2 | £493,104 | £511,846 |
| Out There | £310,000 | £321,783 |
| Tŷ Gwydr / The Greenhouse | £60,202 | £62,490 |
| Cleddau / The One That Got Away | £270,000 | £270,000 |
| Maid of Sker 2 | £150,000 | £150,000 |
| World's Biggest Cruise | £14,024 | £14,024 |
| Minibuds | £130,000 | £130,000 |
| Death Valley | £400,000 | £400,000 |
| Hafiach | £90,000 | £90,000 |
| The Guest (a elwir hefyd yn Let Me In) | £415,046 | £415,046 |
| The Undeclared War Cyfres 2 | £500,000 | £500,000 |
| All the Burtons | £35,000 | £35,000 |
| Gronyn Gobaith - Cymry CERN | £30,000 | £30,000 |
| Young Sherlock | £2,500,000 | £2,500,000 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro